

## Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Uned Famolaeth, Ysbyty Athrofaol  
Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 8-10 Tachwedd 2022

Dyddiad yr arolygiad dilynol: 27 - 29 Mawrth 2023

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mehefin 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	7
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	13
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	13
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	23
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	35
4.	Y camau nesaf .....	44
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	45
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith (Tachwedd 2022) .....	46
	Atodiad C - Cynllun gwella ar unwaith (Mawrth 2023) .....	69
	Atodiad D - Cynllun gwella.....	82

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Wasanaethau Mamolaeth Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 8-10 Tachwedd 2022. Yn ystod yr arolygiad, nododd AGIC sawl pryder o ran diogelwch cleifion a chyhoeddwyd hysbysiad gwella ar unwaith gennym ar 16 Tachwedd 2022. Cynhaliodd AGIC arolygiad dilynol pellach ar 27 - 29 Mawrth 2023.

Adolygwyd yr unedau canlynol yn yr ysbyty yn ystod yr arolygiad hwn:

- Yr ystafelloedd geni - 14 o welyau (ystafelloedd sengl i gyd)
- Y ward famolaeth - 40 o welyau yn darparu gofal cynenedigol ac ôl-enedigol, gan gynnwys 15 o welyau gofal trosiannol a naw gwely ysgogi'r cyfnod esgor.
- Yr uned asesu obstetreg - chwech ystafell sengl a bae yn cynnwys pedwar gwely
- Yr uned a arweinir gan fydwragedd - pedair ystafell eni a phump ystafell ôl-enedigol
- Tair theatr obstetreg
- Dwy ystafell brofedigaeth.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC. Roedd yr arolygiad dilynol yn cynnwys tri Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofawyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 380 o holiaduron (370 ym mis Tachwedd 2022 a 10 ym mis Mawrth 2023) gan gleifion neu eu gofawyr a chwblhawyd 207 (152 ym mis Tachwedd 2022 a 55 ym mis Mawrth 2023) gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion er gwaethaf y pwysau ar yr adran. Gwelwyd aelodau o'r staff yn rhoi gofal caredig, llawn parch, ac roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal roeddent yn ei gael gan y staff ar y cyfan. Fodd bynnag, cododd rhai o'r cleifion bryderon ynghylch argaeledd y staff a chymorth digonol. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar ofal amserol, ac ar urddas a phreifatrwydd y cleifion.

Cyhoeddwyd llythyr sicrwydd ar unwaith yn dilyn yr arolygiad ym mis Tachwedd 2022. Roedd yn ymwneud â phrofiad menyw a gafodd ei thrin yn wahanol oherwydd ei hethnigrwydd. Cafodd y mater hwn ei gau ym mis Mawrth 2023 ar ôl cael sicrwydd derbyniol. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Arwyddion cliriach i wahanol rannau o'r gwasanaeth
- Dylid gofalu am gleifion yn yr ardaloedd clinigol priodol ar gyfer eu cam beichiogrwydd
- Dylai amgylchedd y ward a ddefnyddir i ysgogi'r cyfnod esgor hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Dylid rhoi'r dewis i fenywod sy'n wynebu risg isel â'u beichiogrwydd gael eu gofal mewn amgylchedd anfeddygol
- Mae angen rhagor o waith i gefnogi cleifion o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a'u teuluoedd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da
- Roedd menywod â phroblemau meddygol cymhleth yn cael eu cefnogi'n effeithiol
- Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn gynhwysfawr, ac yn dogfennu'r dymuniadau a fynegwyd gan y claf ac anghenion unigol y claf hwnnw yn llawn
- Cynnig rhagweithiol o ofal mamolaeth drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwasanaeth Elan yn rhoi cymorth ychwanegol i deuluoedd agored i niwed, gan gynnwys menywod sy'n ceisio noddfa
- Gwelwyd bod y gwasanaethau profedigaeth ac amenedigol yn gefnogol iawn

- Roedd yr uned wedi cael achrediad Baby Friendly 2022.



## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn cadarnhau bod gwaith cynllunio gofal dyddiol yn mynd rhagddo, a oedd yn hyrwyddo diogelwch cleifion ac yn dangos tystiolaeth o'r gofal a ddarparwyd. Fodd bynnag, gwnaethom godi pryderon sylweddol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, ardaloedd anniben, diogelwch a staffio.

Gwelsom drefniadau gweithio da gan y tîm amlldisgyblaethol ar draws gwasanaethau fel y gwasanaethau newyddenedigol, fferylliaeth, theatrau ac anestheteg.

Gwnaethom nodi'r gwelliannau effeithlonrwydd mewn perthynas â'r system trefnu apwyntiadau ar-lein yn ogystal â'r ymdrechion i awtomeiddio rhai o'r prosesau, gan roi mwy o amser i'r staff ofalu am gleifion.

Codwyd y materion canlynol mewn llythyr sicrwydd ar unwaith a gyhoeddwyd yn dilyn yr arolygiad ym mis Tachwedd 2022, a chafodd y materion eu cau ym mis Mawrth 2023. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B:

- Cawsom wybod am ddigwyddiadau lle na chafwyd ymateb amserol ac effeithiol i argyfyngau obstetrig. Mewn rhai o'r achosion hyn, roedd y menywod a'r babanod wedi cael niwed difrifol a chatastroffig
- Oherwydd lefelau staffio, hyfforddiant a diffygion o ran cymorth ar lefel uwch, ni chawsom sicrwydd y byddai'r staff yn gallu ymateb yn ddiogel ac yn gyflym i risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chleifion. Cawsom wybod am ddigwyddiadau a materion penodol mewn perthynas â llwybrau gofal, a gwelsom enghreifftiau ohonynt
- Roedd yr ardaloedd clinigol a'r coridorau yn anniben ac yn llawn cyfarpar, cyfarpar glanhau, hylifau a throlïau
- Nid oedd digon o fesurau diogelwch, ymarferion, hyfforddiant na gwiriadau ar waith i sicrhau bod y babanod yn cael eu cadw'n ddiogel
- Nid oedd archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf ym mis Awst 2022
- Nid oedd gweithgareddau archwilio atal a rheoli heintiau eraill yn cael eu cynnal fel mater o drefn ac ni allai'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth i ddangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd, eu holrhain a'u monitro o ganlyniad i'r archwiliadau a gwblhawyd.

Cyhoeddwyd llythyr sicrwydd ar unwaith arall yn dilyn yr arolygiad ym mis Mawrth 2023 (roedd y materion hyn yn cynnwys materion y gofynnwyd am sicrwydd yn eu cylch ym mis Tachwedd 2022 nad oeddent wedi'u datrys):

- Nid oedd meddyginiaethau, gan gynnwys cyffuriau a reolir, yn cael eu storio'n ddiogel mewn rhai ardaloedd yn yr uned
- Nid oedd tymereddau storio meddyginiaethau yn cael eu monitro'n rheolaidd mewn rhai ardaloedd yn yr uned
- Nid oedd hylifau glanhau niweidiol yn cael eu storio'n briodol ac yn ddiogel
- Nid oedd y broses rheoli gwastraff ar gyfer offer miniog yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn ddiogel
- Gwelsom fod ardaloedd y theatrau (ym mis Tachwedd 2022) a'r ystafelloedd gofal a thriniaeth (ym mis Mawrth 2023) yn amlwg yn fudr, ac roedd y budreddi hynny'n edrych yn debyg i waed a hylifau'r corff
- Nid oedd yr amserlenni glanhau rheolaidd wedi'u cwblhau
- Nid oedd y gwiriadau dyddiol o'r cyfarpar mamolaeth hanfodol, gan gynnwys dadebrwyr a diffibrilwyr, bob amser yn cael eu cofnodi
- Nid oedd cynlluniau amserol ar waith i sicrhau diogelwch ac urddas y menywod a'r babanod pe na fyddai unrhyw un o'r lifftiau yn gweithio yn yr uned
- Trefniadau annigonol ar gyfer rheoli a diogelu gwybodaeth gyfrinachol am gleifion.

Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad C.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu lefelau staffio 24 awr ar gyfer theatrau mamolaeth yn unol ag arbenigeddau eraill
- Adolygu defnydd partneriaid geni o sgryps / PPE effeithiol wrth ddod i'r theatr ar gyfer toriad cesaraidd a chynnal asesiadau risg
- Sicrhau bod cyflenwadau a chyfarpar meddygol hanfodol bob amser ar gael i'r staff ac y caiff system fwy cadarn ei rhoi ar waith ar gyfer monitro ac olrhain cyfarpar.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelwyd trefniadau gweithio da gan y tîm amlddisgyblaethol ar draws gwasanaethau fel y gwasanaethau newyddenedigol, fferylliaeth, theatrau ac anestheteg
- Roedd y gwelliannau effeithlonrwydd mewn perthynas â'r system trefnu apwyntiadau ar-lein ac arbedion effeithlonrwydd eraill a oedd yn gysylltiedig ag awtomeiddio prosesau drwy'r fydwraig ddigidol wedi rhoi mwy o amser i ddarparu gofal

- Roedd gwybodaeth hybu iechyd dda ar gael ym mhob rhan o'r uned a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth a gwasanaethau perthnasol
- Roedd cofnodion y cleifion yn nodi mai anghenion clinigol oedd prif ffocws y gwaith o gynllunio gofal.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, nodwyd rhai newidiadau o ran yr uwch-dîm. Roedd Cyfarwyddwr Is-adrannol newydd wedi'i benodi, roedd cynlluniau ar waith i recriwtio Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth ac roedd y Cyfarwyddwr Clinigol wedi penderfynu ymddiswyddo. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd llywodraethu rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym eu bod yn anelu at gael eu gweld ar yr uned a'u bod yn ceisio meithrin hyder ac ymddiriedaeth rhwng staff yr uned a'r uwch-reolwyr. Rhoddodd y staff bydwreigiaeth adborth cadarnhaol am eu rheolwyr llinell uniongyrchol gan nodi, ar y cyfan, y gellid dibynnu arnynt i helpu â thasgau anodd.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff bydwreigiaeth y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'u llwythi gwaith a'r amgylcheddau gwaith gwael. Roedd yr ymatebion i'r cwestiynau yn ein harolygon staff (ym mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023) ar welededd uwch-aelodau o'r staff, llwythi gwaith ac ansawdd y gofal yn gymysg iawn. Gwelsom welliant bach yn yr ymatebion hyn rhwng yr arolygiadau. (Ceir rhagor o wybodaeth yn adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad).

Roedd gennym bryderon am brinder staff ac ym mis Mawrth 2023, cadarnhawyd y bydd buddsoddiad o fwy na £2 filiwn yn cael ei ddefnyddio i gynyddu lefelau staffio yn yr adran. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn obeithiol y byddai lefelau staff yn gwella.

Ni chawsom sicrwydd bod diwylliant cefnogol ar waith a oedd yn hyrwyddo atebolrwydd a gofal cleifion diogel na bod y trefniadau rheoli ac arwain yn ddigon penodol a chadarn. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad dilynol, nodwyd rhai gwelliannau gennym mewn perthynas â'r broses ymchwiliadau o ganlyniad i benodi aelodau allweddol o staff a dyrannu Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwreagedd i'r broses ymchwilio.

Cyhoeddwyd y materion canlynol yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn dilyn yr arolygiad ym mis Tachwedd 2022 a chafodd y materion eu cau ym mis Mawrth 2023. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#):

- Yn aml, nid oedd digon o staff ar yr unedau, neu nid oedd cymysgedd sgiliau digonol i gynnal safonau diogelwch sylfaenol
- Roedd terfynau amser estynedig wedi'u pennu ar gyfer ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol ac nid oedd yr adolygiadau cychwynnol bob amser yn nodi materion pwysig er mwyn gallu dysgu ohonynt ar unwaith
- Roedd lefelau cydymffurfiaeth gwael â hyfforddiant gorfodol yn cynnwys hyfforddiant sgiliau clinigol allweddol.

Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ailgyflwyno cyfarfodydd tîm i'r Gweithwyr Cymorth Mamolaeth, bydwragedd tîm band 5 a band 6
- Adolygu effeithiolrwydd y rotas o ran gallu bydwragedd anghlinigol i gefnogi maes clinigol
- Rhoi prosesau recriwtio a chadw staff effeithiol ar waith
- Adolygu a gwella'r broses sefydlu ar gyfer staff band 5
- Egwyliau neu gyfnodau seibiant digonol i'r staff
- Ystyried pa gamau y mae angen eu cymryd yn sgil y themâu a'r sylwadau llai ffafriol yn ein harolwg staff
- Adolygu'r ffordd yr ymchwilir i ddigwyddiadau a phryderon
- Monitro hyfforddiant gorfodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelwyd bod aelodau o'r tîm band 7 yn gefnogol ac yn frwdfrydig am eu rôl wrth gefnogi'r staff a'u hannog i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus
- Gwaith ymchwil ym maes obstetreg, wedi'i dreialu a'i arwain gan y bwrdd iechyd, sydd bellach yn cael ei gyflwyno ledled y DU
- Unigolion a mentrau yn yr adrannau yn cael eu henwebu am wobrau arferion gorau
- Arbedion effeithlonrwydd mewn perthynas â phrosesau er mwyn rhoi mwy o amser i ddarparu gofal
- Roedd y Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd yn rhoi cymorth da pan oedd eu llwythi gwaith yn caniatáu i hyn ddigwydd.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron ar-lein a holiaduron papur er mwyn cael gwybod barn cleifion a'u teuluoedd am y gwasanaeth. Cafwyd cyfanswm o 370 o ymatebion. Yn ogystal, gwnaethom siarad â llawer o gleifion yn ystod yr arolygiad.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur am eu barn gyffredinol am y gwasanaeth ac roedd tua thri chwarter o'r rhai a atebodd o'r farn bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd chwarter o'r farn ei fod yn 'wael' neu'n 'wael iawn'. Cawsom 228 o sylwadau gan gleifion am eu profiadau; roedd rhai o'r sylwadau a ddaeth i law yn cynnwys y canlynol:

“Cefais brofiad mor gadarnhaol, fyddwn i ddim wedi newid unrhyw beth.”

“Roedd fy mhrofiad geni yn wych ac roedd staff UHW yn ardderchog!”

“Roedd y lleoliad yn berffaith; Cafodd fy maban ei eni yn yr uned a arweinir gan fydwragedd ac roedd y cyfleusterau y tu hwnt i'm disgwyliadau... Roedd yr ystafell ôl-enedigol yn llythrennol fel cartref oddi cartref, roedd gen i breifatrwydd a chysur, doedd hi ddim yn teimlo fel ysbyty o gwbl.”

“Roedd y ward esgor yn hollol wych. Roedd pob aelod o'r staff y daethom ar ei draws yn gwbl eithriadol. Roedd y ward adfer yn wych hefyd... Roedd y ward ôl-enedigol yn brin iawn o staff ....fy arhosiad yno oedd y rhan fwyaf trawmatig o'r profiad geni... Doedd dim cyfathrebu o gwbl o ran y trefniadau ar gyfer fy rhyddhau...”

“Mae fy mhrofiad yn yr ysbyty hwn wedi cael effaith emosiynol andwyol difrifol arna i.”

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â chlaf Du a ddywedodd wrthym ei bod yn teimlo nad oedd y staff yn gwrando arni cystal nac yn rhoi'r un lefel o wybodaeth a gofal iddi â'r cleifion eraill. Dywedodd wrthym fod hyn wedi cael effaith negyddol ar ei phrofiad.

Daeth sylwadau pellach i law o'r cwestiynau a ofynnwyd i'r claf am wahaniaethu ar sail ethnigrwydd.

“Roedd yn teimlo fel petai rhai o'r bydwragedd yn fy nhrin yn wahanol gan fy mod yn fewnfudwr”

“Rwyf wedi meddwl ers hynny tybed a oedd fy mhrofiad gyda'r fydwraig..... o ganlyniad i'm hil. Rwy'n fenyw Affricanaidd Brydeinig Ddu.”

**Ymdriniwyd â'r mater hwn i ddechrau o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn. Cafodd y mater hwn yr oedd angen sicrwydd yn ei gylch ar unwaith ei gau yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023.**

Yn ystod yr arolygiad dilynol, gwnaethom edrych ar dystiolaeth a oedd yn ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth i fydwragedd a staff mamolaeth ehangach. Roedd lefelau cydymffurfiaeth o 80% ar gyfer hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac roedd y gyfradd hon wedi bod yn cynyddu ers mis Tachwedd 2022. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw ar bob lefel fod mentrau wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn ceisio gwella diogelwch a phrofiad menywod Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol sy'n defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth. Yn ystod ein cyfnod ar y safle, clywsom y peiriant cyfieithu yn cael ei ddefnyddio er mwyn gwella gallu'r staff i gyfathrebu â chlaf. Gwnaethom edrych ar adnoddau “cardiau fflach” effeithiol a oedd yn cael eu defnyddio yn yr uned famolaeth fel cymorth cyfathrebu i fenywod nad oeddent yn siarad Saesneg. Gwnaethom siarad â menywod o amrywiol gefndiroedd ac ethnigrwyddau ar ddiwrnodau'r arolygiad a ddywedodd wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal a gawsant.

Nodwyd y gwasanaeth arbenigol i fenywod beichiog sy'n ceisio noddfa yn ogystal â tîm Elan sy'n rhoi cymorth ychwanegol i rai menywod, er enghraifft y rhai hynny â phroblemau iechyd meddwl, rhieni ifanc a goroeswyr trawma, fel enghreifftiau o arferion da. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod capasiti staff yn cyfyngu ar y gwasanaeth hwn ac, oherwydd pwysau ychwanegol darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth â'r tîm ehangach, weithiau fod y gwasanaeth o dan bwysau sylweddol.

**Rydym yn argymhell y dylid ystyried capasiti gwasanaeth Elan a'r gwasanaeth i fenywod sy'n ceisio noddfa o ystyried bod aelodau'r tîm yn rhoi hyfforddiant ychwanegol ac yn cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth yn ychwanegol at eu gwaith clinigol.**

Roedd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad dilynol yn canmol y staff yn fawr a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn teimlo eu bod wedi cael gofal da a bod y staff yn gwrando arnynt.

Gwelsom dystiolaeth o welliannau effeithlonrwydd ac arferion da mewn perthynas ag apwyntiadau cyntaf digidol a threfniadau ar gyfer awtomeiddio prosesau a oedd yn cymryd cryn dipyn o amser y staff cyn hynny. Canmolwyd gwaith y fydwraig ddigidol mewn perthynas â'r gwelliannau effeithlonrwydd hyn.

## Cadw'n iach

### Diogelu a Gwella Iechyd

Roedd gwybodaeth hybu iechyd i'w gweld ym mhob rhan o'r uned. Roedd yn cynnwys gwybodaeth am fwydo ar y fron, cyngor ar gyswllt croen â chroen, iechyd meddwl ôl-enedigol, a chyngor cyffredinol ar gadw'n iach cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd.

Roedd yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig, ac roedd y gwaharddiad hwn yn cynnwys e-sigaréts/anwedd. Gwelsom wybodaeth briodol yn rhoi cymorth rhoi'r gorau i smygu ym mhob rhan o'r uned.

Gwelsom lechen ar y wal yn datgan bod yr uned wedi cyflawni Achrediad Baby Friendly UNICEF yn 2018. Cawsom wybod hefyd fod yr uned newydd gyflawni'r achrediad ar gyfer 2022 a'i bod yn aros am lechen newydd i'w harddangos.

Roedd dulliau hybu hylendid dwylo ar waith ym mhob rhan o'r uned ac i'w gweld hefyd yn y toiledau a chyfleusterau'r gegin.

## Gofal ag urddas

### Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn mewn ffordd dosturiol a charedig tuag at y cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch a chwarteisi. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am eu profiadau o gael gofal.

Gwnaethom edrych ar y baeau yn y ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor. Nodwyd gennym fod cleifion yn agos at ei gilydd a oedd yn cael effaith andwyol ar breifatrwydd ac urddas, ac yn atal cyfrinachedd. Codwyd rhai pryderon tebyg gan gleifion yn ein harolwg:

*“Does dim preifatrwydd yn y ward ysgogi, gallwch glywed popeth y mae'r staff yn ei drafod. Ddim yn broffesiynol.”*

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu cynllun y ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor a'r gofod rhwng y gwelyau er mwyn sicrhau cyfrinachedd, preifatrwydd ac urddas i bob un sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, roedd preifatrwydd ac urddas yn achosi rhywfaint o bryder o hyd i rai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw. Dywedodd un claf nad oedd yn teimlo'n ddiogel nac yn gyfforddus yn yr amgylchedd ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor.

Roedd cyfleusterau en-suite ar gael ym mhob un o'r ystafelloedd geni ac mewn rhai o'r ystafelloedd ôl-enedigol, a oedd yn helpu i hybu cysur ac urddas y menywod yn ystod eu harhosiad. Lle nad oedd unrhyw gyfleusterau en-suite, roedd toiledau ac ystafelloedd cawod cyffredinol ar gael gerllaw.

Roedd dwy ystafell brofedigaeth bwrpasol yn yr uned. Dangosodd ein trafodaethau â'r staff fod gofal profedigaeth yn cael ei ddarparu mewn modd amserol a sensitif. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant profedigaeth ac y byddent yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r polisiâu cywir i'w galluogi i roi gofal priodol i rieni a theuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Dywedwyd wrthym hefyd fod Clinig Enfys wedi cael ei gyflwyno'n llwyddiannus, sef clinig a grëwyd i ofalu am fenywod a'u teuluoedd sydd wedi colli baban yn ystod beichiogrwydd neu'n fuan ar ôl geni. Mae'r tîm o fydwragedd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn helpu'r menywod i ddygymod â'u colled, ac wrth iddynt ymdopi â'r teimladau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r beichiogrwydd nesaf. Oherwydd effaith gadarnhaol y cymorth ymarferol ac emosiynol hwn i fenywod a'u teuluoedd, dywedwyd wrthym y byddai'r math hwn o wasanaeth yn cael ei gyflwyno ledled Cymru.

Dywedwyd wrthym nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu cynnig parhad yn ystod genedigaethau. Bydwragedd cymunedol sy'n cynnal clinigau cynenedigol ac nid ydynt yn darparu gofal yn ystod genedigaethau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym hefyd eu bod rhwng 6 a 12 wythnos yn feichiog pan gawsant eu hapwyntiad cyntaf. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn gadarnhaol wrth drafod y dewisiadau a gynigiwyd iddynt o ran ble i gael eu baban, ond nododd un sylw yn yr holiaduron:

*“Dylid rhoi'r un flaenoriaeth i fenywod sydd am ddefnyddio gwasanaethau a arweinir gan fydwragedd â'r rhai hynny y mae angen iddynt ddefnyddio ward esgor. Rydych yn ein hamlygu i fwy o risg!! Rydych wedi cael gwared ar ein dewisiadau yn llwyr!! Y dewis a gefais oedd belt symudol ward esgor yr ysbyty, neu felt symudol ward esgor yr ysbyty! Mae'n gwbl annerbyniol.”*



Cadarnhaodd uwch-fydwagedd, oherwydd prinder staff, fod yr uned a arweinir gan fydwagedd wedi cael ei chau sawl gwaith yn ystod y misoedd cyn mis Tachwedd 2022. Nid oedd opsiwn i fenywod eni eu baban gartref ychwaith yn ystod y cyfnodau lle cafwyd prinder staff. Dywedwyd wrthym fod y penderfyniadau hyn wedi'u gwneud er mwyn sicrhau lefelau staffio diogel ar y brif uned eni. Cawsom sicrwydd fod y pwysau hyn wedi cael eu lleddfu i raddau helaeth drwy recriwtio bydwragedd newydd, a bod cleifion yn cael dewis ble i eni eu baban unwaith eto.

Yn ystod yr arolygiad dilynol, cawsom wybod am heriau pellach mewn perthynas â lefelau staffio a dywedwyd wrthym weithiau bod hynny'n effeithio ar ddewis cleifion, er nad oedd hynny'n digwydd mor aml ag ym mis Tachwedd 2022. Cadarnhaodd uwch-arweinwyr fuddsoddiad o fwy na £2 filiwn a fyddai'n gwella lefelau staffio'r uned famolaeth.

Dywedwyd wrthym am rota ar alwad a oedd yn dyrannu bydwragedd anghlinigol i gefnogi'r maes clinigol ar adegau lle roedd y lefel rhybudd wedi'i chodi (prinder staff / adran brysur). Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn ymwybodol o'r rota hon. Dywedodd rhai wrthym fod y rota hon ar waith rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac weithiau nad oedd rhai o'r staff a oedd wedi'u nodi ar y rota yn gallu dod i'r gwaith.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu effeithiolrwydd y rota ar alwad ar gyfer bydwragedd anghlinigol er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben.**

Tynnwyd ein sylw at rai enghreifftiau o ofal anghyson, lle nad oedd menywod risg isel weithiau yn cael gofal priodol a arweinir gan fydwagedd (er enghraifft yn yr uned a arweinir gan fydwagedd) oherwydd yr adnoddau yr oedd eu hangen i ofalu am fenywod risg uchel, a oedd yn aml wedi cael eu trosglwyddo'n briodol o unedau eraill, ond heb ddarparu staff ychwanegol ar eu cyfer.

Roedd yr ysbyty yn darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd eglwys aml-ffydd yn yr ysbyty at ddefnydd cleifion a'u teuluoedd. Dywedodd y staff wrthym am drefniadau i alluogi cleifion o wahanol ffydd i ddefnyddio'r ystafelloedd gweddi er mwyn diwallu eu hanghenion ysbrydol.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn gyffredinol gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddynt a'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur ym mis Tachwedd 2022 eu bod wedi teimlo'n hyderus yn gofyn am help neu gyngor pan oedd ei angen arnynt. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion hefyd fod y staff bydwreigiaeth a'r staff meddygol wedi gwrando arnynt yn

ystod eu harhosiad a bod y staff wedi trafod eu dewisiadau geni â nhw. Cafodd hyn ei ategu gan sylwadau fel:

*“Gofal rhagorol gan y fydwraig a arhosodd gyda fi drwy gydol y cyfnod esgor ac wrth i mi eni. Mae'n ased i'r tîm ac roedd fel eiriolwr ar fy rhan...”*

*“Diolch i fydwraidd Caerdydd a'r Fro a phob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall y daethom ar eu traws... mae pob un ohonoch chi'n ardderchog ac yn gwneud gwaith gwych bob dydd!”*

*“Mae pob bydwraig, nyrs neu feddyg ymgynghorol rwyf wedi'u gweld wedi bod yn hyfryd, yn gefnogol, yn wybodus ac yn barod i helpu.”*

*“Roedd y staff yn gyfeillgar iawn ac yn barod iawn i helpu: rwy'n teimlo eu bod yn gwrando arna i a bod gen i'r hawl i leisio barn.”*

Fodd bynnag, cawsom rai sylwadau negyddol am argaeledd staff (dyfyniadau o fis Tachwedd 2022) a chymorth gan y staff:

*“Mae'n amlwg nad oes digon o adnoddau nac arian wedi'u dyrannu i'r gwasanaeth ac mae angen mwy ar y staff er mwyn gallu gwneud eu gwaith i'r safon a'r lefel y maent wedi'u hyfforddi i'w cyrraedd. Maent yn haeddu mwy.”*

*“Dywedais wrthyn nhw nad oeddwn i'n gallu ymdopi â'r teimladau negyddol roeddwn i'n eu profi, a dywedwyd wrtha i fod hynny'n normal.”*

*“Bob tro y gofynnais am help, roedden nhw'n gwneud esgus... roeddwn i'n teimlo fy mod yn achosi anghyfleustra iddyn nhw bob tro y byddwn i'n canu'r gloch...”*

Yn ystod yr arolygiad dilynol, dywedodd cleifion wrthym ar y pryd eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da a bod y staff yn gwrando arnynt. Ni chlywsom unrhyw enghreifftiau o gleifion yn aros am gyfnodau hir i staff ymateb pan fyddent yn canu'r gloch, a gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd garedig ac yn rhoi gofal mewn modd amserol.

Gwnaethom edrych ar hysbysfwrdd a oedd yn nodi pa aelodau o'r staff oedd ar ddyletswydd.

Gwnaethom edrych ar dudalen Facebook Gwasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a nodwyd gennym fod ganddi 5,900 o ddilynwyr a bod gwybodaeth am wasanaethau mamolaeth yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gan y

staff. Nodwyd gennym hefyd pan fydd cleifion yn cyflwyno adolygiadau o'r gofal mamolaeth fod y staff yn ymateb gan ddiolch i'r unigolyn hwnnw. Dywedodd y staff y gwnaethom gyfweld â nhw wrthym fod yr adborth a geir drwy'r grŵp Facebook yn fuddiol iawn, ond nid oedd rhai ohonynt yn siŵr sut roedd y data hyn yn cael eu defnyddio i wella gwasanaethau lle roedd angen gwneud hynny.

**Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y sylwadau a wnaed gan gleifion yn ein harolwg a'r dudalen cyfryngau cymdeithasol, ac ystyried sut y gellir eu defnyddio i wella gwasanaethau.**

### **Gwybodaeth i gleifion**

Gwnaethom ystyried a oedd pob rhan o'r uned yn hawdd i'r cleifion ddod o hyd iddi. Er bod y cyfarwyddiadau ar gyfer cyrraedd rhannau o'r uned fel y clinig cynenedigol yn glir, nid oedd cyfarwyddiadau ar gyfer cyrraedd y wardiau mamolaeth eraill i'w gweld yn glir drwy'r ysbyty. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i bobl ddod o hyd i'r lle priodol i gael gofal. Nodwyd gennym hefyd fod yr uned wedi'i rhannu'n eang dros wahanol lorïau'r ysbyty, a allai ddrysu cleifion. Roedd sawl gwelliant amgylcheddol yn mynd rhagddo yn yr uned ar adeg yr arolygiad, a dywedwyd wrthym unwaith y byddai'r gwaith wedi'i gwblhau, y byddai arwyddion yn cael eu dangos yn glir.

**Dylai'r bwrdd iechyd wella'r arwyddion a llunio map safle yn nodi'r holl ardaloedd sy'n darparu gofal mamolaeth yn Ysbyty Athrofaol Cymru.**

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, gwelsom fod arwyddion dros dro ychwanegol wedi cael eu gosod o brif fynedfa'r ysbyty i brif ardal yr uned famolaeth. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion clir ar gyfer pob rhan o'r uned famolaeth ac nid oedd yn hawdd dod o hyd i bob rhan ohoni. Cadarnhawyd yr heriau hyn mewn sgysiau â chleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael yn y bwrdd iechyd a sut y gallent gael gafael arnynt. Roedd y bydwagedd a oedd yn siarad Cymraeg yn gwisgo laniard neu logo siaradwr Cymraeg ar eu gwsg i ddangos hyn. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o'r llinell iaith.

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, dywedodd staff wrthym am fentrau pellach i hyrwyddo a chefnogi mwy o ddefnydd o'r "cyfieithydd ar olwynion". Roedd yr uned hon ar gael i unrhyw gleifion yr oedd angen gwasanaethau cyfieithu arnynt. Clywodd y tîm arolygu enghreifftiau ohoni'n cael ei defnyddio â chleifion yn yr uned famolaeth.

Gwnaethom siarad ag un claf a gadarnhaodd ei bod wedi cael pob rhan o'i gofal yn ystod ei genedigaeth a rhywfaint o'r gofal mamolaeth arall a gafodd drwy gyfrwng y Gymraeg (dewis iaith y claf). Wrth edrych ar sampl o gofnodion y cleifion, nodwyd gennym fod iaith y claf wedi'i chofnodi ar bob cofnod a welsom.

Gwelsom fod byrddau cipolwg ar statws cleifion yn cael eu defnyddio a bod y byrddau hyn yn cael eu diweddarau fel y bo'n ofynnol ac yn cael eu defnyddio'n rheolaidd drwy gydol y dydd gan y timau amlldisgyblaethol er mwyn cyfleu materion diogelwch cleifion, cynlluniau gofal dyddiol, y cymorth unigol gofynnol a threfniadau rhyddhau.

## **Gofal amserol**

### **Mynediad Amserol**

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym fod y staff yn barod iawn i helpu a'u bod yn diwallu eu hanghenion mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu.

Gwelsom wardiau carfanau cymysg, a chawsom wybod am wardiau o'r fath, a oedd yn cynnwys menywod ôl-enedigol a chynenedigol, yn ogystal â menywod a oedd yn y cyfnod esgor. Oherwydd lefelau staffio, hyfforddiant a diffygion o ran cymorth ar lefel uwch, ni chawsom sicrwydd fod y staff yn yr ardal hon yn gallu ymateb yn ddiogel ac yn gyflym i risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chleifion. Dywedwyd wrthym nad oedd y staff yn teimlo'n hyderus wrth uwchgyfeirio ac ymdrin â menywod yn ddiogel, yn gyflym ac yn effeithiol. Nid oedd y llwybrau i gleifion yn glir ac o ganlyniad, roedd y staff yn gweithio gyda menywod ôl-enedigol a chynenedigol yn yr un ardaloedd, gan ymdrin â menywod a oedd yn y cyfnod esgor hefyd.

Nododd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw ar y ward ôl-enedigol nad oeddent bob amser yn cael meddyginiaethau lleddfu poen mewn modd amserol pan oedd eu hangen arnynt. Roeddent o'r farn mai prinder staff a llwythi gwaith oedd yn gyfrifol am hyn.

### **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaethau lleddfu poen priodol eu rhoi mewn modd amserol.**

Ym mis Mawrth 2023, er bod y wardiau carfannau cymysg a oedd yn cynnwys menywod ôl-enedigol a chynenedigol wedi lleihau, fod yr arfer hwn weithiau i'w weld o hyd. Dywedwyd wrthym mai problemau capasiti yn yr uned oedd yn bennaf cyfrifol am hyn. Weithiau, roedd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod rhai menywod ag anghenion hygyrchedd penodol yn gallu cael gofal priodol ac amserol. Cawsom

wybod am brosesau dyddiol priodol a oedd ar waith i roi gwybod i uwch-arweinwyr y bwrdd iechyd (Trefn Reoli Aur) am brinder gwelyau, oedi wrth roi gofal oherwydd capasiti, lefelau staffio isel a phroblemau â'r lifftiau yn yr uned famolaeth, drwy gyfarfod SITREP. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei hasesu gan y Drefn Reoli Aur, ynghyd â gwybodaeth am yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, amseroedd aros am ambiwlansys, cotiau newyddenedigol a phob rhan arall o'r ysbyty er mwyn gwneud penderfyniadau i liniaru'r risg o niwed i fenywod a babanod. Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym fod y broses hon wedi helpu i sicrhau bod gofal cleifion yn yr uned yn cael ei reoli'n ddiogel.

**Er ein bod yn deall, oherwydd problemau staffio, bod angen wardiau carfanau cymysg er mwyn rheoli risg, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i wneud yn siŵr mai dim ond pan fetho popeth arall y cânt eu defnyddio.**

Gwnaethom edrych ar gofnodion tri chlaf o uned T2 a ddangosodd fod meddyginiaethau lleddfu poen priodol wedi cael eu rhoi mewn modd amserol.

Gwnaethom siarad ag aelodau pellach o'r staff ym mis Mawrth 2023 a gadarnhaodd eu bod yn ymwybodol o'r prosesau uwchgyfeirio. Dywedodd rhai o'r bydwagedd wrthym eu bod yn amharod i uwchgyfeirio materion ymhellach na Band 7 hyd yn oed os na fyddai'r mater yn cael ei ddatrys yn effeithiol. Gallai hyn beri risg i ddiogelwch cleifion.

**Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o brosesau uwchgyfeirio priodol a diogel a'u bod yn eu defnyddio i hyrwyddo diogelwch cleifion.**

Gwelsom fod adnodd sgrinio sepsis ar gael a oedd yn helpu i nodi cleifion a allai fynd yn sâl neu ddatblygu sepsis. Gwelsom fod y camau y mae angen eu cymryd ar gyfer claf â sepsis wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd trin. Gwelsom hefyd fod y bydwagedd a'r meddygon yn adnabod arwyddion a symptomau sepsis yn gyflym ac yn gweithredu'n unol â'r canllawiau cenedlaethol.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Roedd y cyfleusterau yn ddigon hygyrch i gleifion ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom dystiolaeth yn nodiadau'r cleifion o asesiadau parhaus o anghenion, ynghyd ag atgyfeiriadau at ymarferwyr arbenigol a grwpiau cymorth fel y bo'n briodol. Roedd cynlluniau geni unigol wedi'u dogfennu ac yn cynnwys dymuniadau ac anghenion unigol penodol y claf.

Gwnaethom edrych ar naw set o gofnodion cleifion, gan gadarnhau fod credoau personol a dewisiadau crefyddol y cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cynenedigol.

### **Hawliau pobl**

Gwelsom y gallai partneriaid geni fod yn rhan o'r gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd y cofnodion a welsom yn cadarnhau bod hyn yn digwydd. Fodd bynnag, nododd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw nad oeddent yn glir pryd a ble y gallai eu partneriaid geni ymweld a rhoi cymorth iddynt. Rydym yn deall y gallai hyn fod o ganlyniad i'r cyfyngiadau a oedd ar waith yn ystod y pandemig COVID-19 diweddar.

### **Dylid cyfleu'r canllawiau ar gyfer partneriaid geni yn effeithiol yn ystod y cyfnod cynenedigol.**

Darparodd y staff enghreifftiau hefyd lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchoddedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth. Dywedwyd wrthym hefyd fod dolen sain ar gael yn hawdd pe byddai ei hangen.

### **Gwranddo a dysgu o adborth**

Roedd gwybodaeth am y weithdrefn y dylai cleifion ei dilyn er mwyn rhoi gwybod am bryderon neu gwynion am eu gofal i'w gweld ar wefan y bwrdd iechyd. Dywedodd y tîm uwch-reolwyr wrthym fod staff yr uned yn gwybod sut i ddelio â chwynion. Cadarnhawyd hyn gan y staff y gwnaethom siarad â nhw, a ddywedodd wrthym fod manylion y Cyngor Iechyd Cymuned yn cael eu rhoi i gleifion ynghyd â chanllawiau Gweithio i Wella.

Dywedodd y staff wrth y tîm arolygu eu bod yn cyfathrebu'n barhaus â chleifion a'u teuluoedd yn ystod unrhyw ymchwiliad i gŵyn, a bod teuluoedd yn cael y cyfle i gyfarfod ag uwch-aelodau o'r staff i drafod pryderon.

Gofynnodd ein harolwg staff a oes adborth gan gleifion yn cael ei gasglu yn eu hadran, ac roedd tua dwy ran o dair o'r 149 o staff a atebodd yn cytuno bod trefniadau ar waith. Fodd bynnag, nododd traean o'r ymatebwyr hynny nad ydynt yn cael diweddariadau rheolaidd yn deillio o adborth gan gleifion.

### **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff eu hysbysu'n rheolaidd am adborth a chanmoliaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.**

Fel rhan o'n hadolygiad ym mis Mawrth 2023, gwelsom fod codau QR yn cael eu hyrwyddo er mwyn annog y cleifion i roi adborth i'r bwrdd iechyd.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Gofal Diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, roedd prosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau, ac i gynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd clychau galw yn ystafell pob claf i'w defnyddio mewn argyfwng. Ar y cyfan, roedd yr uned yn ymddangos ei bod wedi'i goleuo'n briodol ac wedi'i hawyru'n dda. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ardaloedd clinigol a'r coridorau yn anniben ac yn llawn cyfarpar, cyfarpar glanhau, hylifau a throlïau.

Gwnaethom ystyried y mesurau diogelwch sydd ar waith i wneud yn siŵr bod babanod yn ddiogel. Roedd mynediad i bob ardal wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi, na ellid eu hagor heb bws staff neu heb i aelod o'r staff gymeradwyo mynediad. Fodd bynnag, pan wnaethom gyrraedd, cawsom fynediad i'r uned heb i unrhyw aelod o'r staff ofyn am fanylion adnabod na holi beth oedd diben ein hymweliad.

Dywedodd y staff wrthym fod yr ymarfer herwgydio babanod diwethaf wedi cael ei gynnal 18 mis yn ôl, a nodwyd gennym fod y polisi yn nodi y dylid cynnal ymarferion o'r fath bob blwyddyn. Ni chawsom sicrwydd fod hyfforddiant herwgydio wedi'i gynllunio i staff yr uned.

Mae'r obstetregwyr ymgynghorol sydd ar alwad naill ai'n aros mewn preswylfannau ar y safle neu'n teithio i'r uned mewn ffordd brydlon ac amserol. Fodd bynnag, cawsom wybod gan lawer o'r staff meddygol fod prinder staff ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn aml yn cael effaith negyddol ar hyn.

Ymdriniwyd â'r materion diogelwch hyn uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn. Cafodd y mater hwn yr oedd angen sicrwydd yn ei gylch ar unwaith ei gau yn ystod yr arolygiad dilynol.

Yn ystod arolygiad dilynol mis Mawrth 2023, gwelwyd tystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod dau ymarfer herwgydio babanod wedi cael eu cynnal ers mis Tachwedd 2022. Gwelsom dystiolaeth fod y gwersi a ddysgwyd wedi'u rhannu a gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff a gadarnhaodd hyn.

Gwelsom fod llai o gyfarpar, cyfarpar glanhau a throliau yn y coridorau ym mhob rhan o'r uned. Er bod rhai eitemau yno o hyd, nid oeddent yn achosi rhwystr nac yn peri risg i'r cleifion a'r staff.

Gwelsom nad oedd hylifau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel. Roeddent wedi'u cadw mewn ystafell amlbwrpas heb ei chloi yn yr uned famolaeth. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod hylifau glanhau a allai fod yn niweidiol yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn lleihau'r risg o fynediad heb awdurdod.

**Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â storio hylif glanhau a ddisgrifir uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad C o'r adroddiad hwn.**

Nid oedd tri o'r pedwar lifft a oedd yn gwasanaethu'r uned famolaeth yn gweithio rhwng 27 a 29 Mawrth 2023. Roedd hyn yn golygu bod risg o oedi i gleifion y byddai angen eu trosglwyddo ar frys i'r uned eni neu'r theatr (llawr 2) o rannau eraill o'r uned famolaeth a risg y byddai'r unig lifft a oedd yn gweithio o hyd yn methu. Disgrifiwyd llwybr amgen fel llwybr posibl mewn argyfwng, ond roedd y llwybr hwn yn hwy a byddai'n rhaid i'r menywod fynd drwy rannau cyhoeddus o'r ysbyty. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod cynlluniau amserol ar waith i sicrhau diogelwch ac urddas y menywod a'r babanod pe na fyddai unrhyw un o'r lifftiau yn gweithio yn yr uned.

**Ymdriniwyd â'r mater mewn perthynas â throsglwyddo cleifion yn gyflym ac yn ddiogel rhwng ardaloedd o'r uned famolaeth mewn argyfwng meddygol o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad C o'r adroddiad hwn.**

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, cawsom gyfle i edrych ar amgylchedd y theatr a'r lefelau staffio cysylltiedig. Nodwyd nifer o heriau ac aneffeithlonrwyddau gennym o ran lefelau staffio.

- Dywedwyd wrthym pe byddai menywod yn cael toriadau cesaraidd y tu allan i oriau arferol, yna mai bydwragedd fyddai'n gofalu amdanynt yn ystod y cyfnod adfer yn hytrach na staff theatr arbenigol
- Roedd cynorthwyydd gofal mamolaeth yn gweithio fel rhedwr ar gyfer y theatr, yn ychwanegol at ei rôl ar y ward esgor. Roedd y pellter rhwng y ddwy ardal yn golygu nad oedd y rôl ddeuol hon yn effeithlon nac yn realistig
- Roedd un nyrs sgyrb ac un Ymarferydd o'r Adran Weithredu wedi'u dyrannu i'r theatr, ond byddai arferion da yn awgrymu y dylid neilltuo tîm penodedig i'r theatr. Er enghraifft, dwy nyrs sgyrb theatr, rhedwyr theatr a staff adfer 24/7.



**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu lefelau staffio 24 awr y theatr famolaeth yn unol ag arbenigeddau eraill a sicrhau lefelau staffio cyson er mwyn gwneud yn siŵr bod cleifion yn ddiogel.**

#### **Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd**

Gwnaethom edrych ar gofnodion naw claf, a gwelsom fod y rhestrau gwirio priodol wedi'u cwblhau, a bod risgiau parhaus yn cael eu monitro.

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, gwnaethom edrych ar chwe set arall o gofnodion cleifion a gwelsom nad oedd cofnodion dau glaf yn cynnwys asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer atal briwiau pwyso, er gwaethaf y ffaith bod hynny'n ofyniad clinigol.

**Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob asesiad risg perthnasol ar gyfer briwiau pwyso a niwed i feinweoedd yn cael ei gwblhau pan fo hynny'n ofyniad clinigol.**

#### **Atal cwympiadau**

Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer cleifion yn yr uned yn ogystal â'r rheini sy'n defnyddio'r pyllau geni. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw achosion o glaf yn cwmpo yn cael eu cofnodi drwy system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd iechyd.

#### **Atal a rheoli heintiau**

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y gweithdrefnau golchi dwylo cywir i'w dilyn. Gwelsom fod y staff yn golchi eu dwylo'n briodol ac yn defnyddio hylif diheintio dwylo pan fo angen. Roedd posterï hylendid dwylo a chanllawiau ar olchi dwylo i'w gweld yn nhoiledau'r cleifion. Nodwyd gennym nad oedd archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf ym mis Awst 2022.

Roedd yr amgylchedd ar gyfer rhoi gofal a thriniaeth ym mhob ardal yn dangos ôl traul ac yn fudr yr olwg. Gwelsom fod ardaloedd y theatr a'r ystafelloedd ar gyfer rhoi gofal a thriniaeth yn amlwg yn fudr, ac roedd y budreddi hynny'n edrych yn debyg i waed a hylifau'r corff. Nodwyd hyn mewn ardaloedd lle nad oedd cleifion. Gwelsom fod cadeiriau a oedd wedi rhwygo yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom fod marciau ar walïau'r uned famolaeth a'u bod yn frwnt. Nodwyd bod angen eu hailbaentio. Nodwyd gennym hefyd fod drysau'r lifft yn derring o faw.

Cawsom wybod hefyd nad oedd ymweliadau atal a rheoli heintiau corfforaethol na gweithgareddau archwilio atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal fel mater o

drefn. Ni allai'r uned ddarparu tystiolaeth i ddangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd, eu holrhain a'u monitro o ganlyniad i'r archwiliadau a gwblhawyd. Roedd lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant atal a rheoli heintiau hefyd yn isel ar adeg yr arolygiad.

**Ymdriniwyd â'r materion hyn mewn perthynas â glendid ac atal a rheoli heintiau o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn [Atodiad B](#) ac [Atodiad C](#) o'r adroddiad hwn.**

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, gwelsom welliant o ran safonau glendid rhai rhannau o'r uned gan gynnwys y theatr, yr ardal ôl-enedigol, y ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor a'r uned a arweinir gan fydwragedd. Fodd bynnag, gwnaethom edrych ar dair ystafell eni wag (a oedd wedi'u "glanhau" ac yn barod i'w defnyddio) ar yr uned eni ar 29 Mawrth 2023 ac roeddent yn amlwg yn frwnt. Roedd hyn yn peri risg o haint a niwed i'r menywod, y babanod a'r staff. Gwelsom waed, baw a staenau ar y bysellfyrddau, y lloriau ac o amgylch y comodau a oedd "wedi'u glanhau" yn y tair ystafell.

Roedd hyn yn destun pryder gan ein bod wedi cael sicrwydd blaenorol gan y bwrdd iechyd fod prosesau ar waith i sicrhau bod yr uned yn lân. Gwnaethom hysbysu'r uwch-arweinwyr ar unwaith a roddodd sicrwydd i ni y byddai camau yn cael eu cymryd ar unwaith i lanhau'r tair ystafell hyn yn drylwyr.

Roedd y cynllun sicrwydd ar unwaith a gwblhawyd gan y bwrdd iechyd dyddiedig mis Rhagfyr 2022 yn cadarnhau y byddai labeli â dyddiadau arnynt yn cael eu defnyddio i ddangos bod cyfarpar wedi'i lanhau. Ni welsom unrhyw dagiau yn cael eu defnyddio ar unrhyw gyfarpar yn unrhyw ran o'r uned famolaeth ym mis Mawrth 2023.

Gwnaethom edrych ar y rhestrau gwirio glanhau a chadarnhawyd nad oedd rhai o'r rhestrau gwirio glanhau hyn yn cael eu gwirio'n gyson. Roedd dyddiad mis Tachwedd 2022 wedi'i nodi ar y rhestrau gwirio glanhau ar y ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor ac ni welwyd unrhyw restr wirio ar gyfer mis Mawrth 2023.

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn cyfeirio at ymweliadau a champau atal a rheoli heintiau rheolaidd, ond o ystyried ein canfyddiadau ym mis Mawrth 2023, dylid gwella effeithiolrwydd y broses hon.

**Ymdriniwyd â'r materion hyn mewn perthynas â glendid ac atal a rheoli heintiau (diweddarwyd mis Mawrth 2023) o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn [Atodiad B](#) ac [Atodiad C](#) o'r adroddiad hwn.**

Nodwyd pryderon pellach mewn perthynas â defnyddio biniau offer miniog yn ddiogel yn ystod yr arolygiad dilynol. Ar 27 a 28 Mawrth 2023, gwelsom finiau offer miniog gorllawn heb ddyddiadau arnynt ym mhob rhan o'r uned. Roedd y Weithdrefn ar gyfer Rheoli Offer Miniog yn disgrifio'r broses ar gyfer labelu diogel, storio ac ailarchebu offer yn lle'r offer a oedd wedi'i roi yn y bin, ac ni chawsom sicrwydd fod y biniau yn cael eu defnyddio'n unol â gweithdrefn y bwrdd iechyd.

**Ymdriniwyd â'r materion mewn perthynas â biniau offer miniog o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad C o'r adroddiad hwn.**

Yn ystod yr arolygiad dilynol, nododd ein tîm fod y partneriaid geni sy'n bresennol yn ystod triniaethau toriad cesaraidd i eni eu babanod yn cael dod i'r theatr yn gwisgo eu dillad eu hunain heb fawr PPE a heb sgrÿbs.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal asesiadau risg o ddefnydd partneriaid geni o sgrÿbs / PPE effeithiol gan ystyried gweithdrefnau rheoli heintiau a diweddarau arferion er mwyn gwneud yn siŵr na chaiff diogelwch cleifion mewn theatrau ei roi yn y fantol.**

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf COVID-19 cyn cael ei derbyn neu adeg ei derbyn ar gyfer triniaeth ddewisol a drefnwyd. Gwnaethom gadarnhau hyn drwy weld canlyniadau profion. Dywedwyd wrthym pe byddai claf yn cael canlyniad positif, y byddai'n cael ei hynysu'n unol â hynny.

### **Maeth a hydradu**

Roedd cyfleusterau ar gael i staff y wardiau wneud bwyd a diodydd i gleifion y tu allan i oriau craidd, ac mae gwasanaeth troli ar gael ar gyfer prydau poeth lle gall cleifion archebu bwyd ymlaen llaw.

Dywedwyd wrthym fod menywod y trefnwyd triniaethau toriadau cesaraidd dewisol ar eu cyfer yn wynebu oedi wrth gael eu trosglwyddo i'r theatr yn rheolaidd, a oedd yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch, profiad a lefelau pryder y claf. Roedd yn golygu hefyd fod cleifion nad oeddent yn cael bwyta er mwyn paratoi ar gyfer y driniaeth weithiau yn cael eu gadael am gyfnodau estynedig heb fwyd a diod.

**Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn. Cafodd y mater hwn yr oedd angen sicrwydd yn ei gylch ar unwaith ei gau yn ystod yr arolygiad dilynol.**

Yn ystod yr arolygiad dilynol, nodwyd gennym fod achosion o oedi wrth gynnal triniaethau toriadau cesaraidd yn cael eu monitro bob dydd a bod yr uwch-arweinwyr yn cael gwybod amdanynt drwy broses SITREP ddyddiol er mwyn cynllunio ar gyfer gofal diogel. Dywedodd aelodau o'r staff ar yr uned wrthym fod

amlder yr achosion o oedi wrth gynnal triniaethau toriadau cesaraidd wedi lleihau ers mis Tachwedd 2022, er bod oedi weithiau.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel.

Roedd cymorth fferyllol ar gael i'r uned ac roedd system gyfrifiadurol y tu allan i oriau yn galluogi'r staff i gadarnhau cyflenwadau cyffuriau ar draws yr ysbyty er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw oedi cyn rhoi meddyginiaeth i gleifion. Roedd cyflenwad o feddyginiaeth y gellid ei defnyddio gartref hefyd, er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol.

Gwelsom fod siartiau cyffuriau yn cael eu cwblhau'n gywir ar y cyfan gan y staff bydwreigiaeth a'r staff meddygol a oedd yn gyfrifol am roi'r feddyginiaeth.

Gwnaethom ofyn am dystiolaeth i ddangos bod tymereddau'r oergelloedd storio meddyginiaeth yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n rheolaidd. Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw dystiolaeth i gadarnhau bod pob gwiriad priodol yn cael ei gwblhau a'i gofnodi fel y bo angen. Felly, ni allem gael sicrwydd fod meddyginiaethau sy'n sensitif i dymheredd yn cael eu storio'n unol â'r tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr, na bod system gadarn ar waith i nodi unrhyw anghysondebau.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd roi system gadarn ar waith i gadarnhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar dymereddau storio oergelloedd a bod camau yn cael eu cymryd fel y bo angen (diweddarwyd Mawrth 2023, ychwanegwyd at y materion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch). Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad C o'r adroddiad hwn.**

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, nodwyd gennym fod meddyginiaethau yn cael eu storio mewn cypyrddau nad oeddent wedi'u cloi ac oergell mewn ystafell nad oedd wedi'i chloi ac nad oedd angen cerdyn llithro i gael mynediad iddi. Gwelsom hefyd nad oedd cyffuriau yn cael eu storio'n ddiogel a'u bod wedi'u gadael lle gallai'r cleifion gael gafael arnynt mewn un rhan o'r uned.

Nid oedd y gwiriadau dyddiol o dymereddau'r oergell bob amser wedi'u cofnodi'n unol â Chod Meddyginiaethau'r bwrdd iechyd. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch cleifion.

**Ymdriniwyd â'r mater mewn perthynas â storio meddyginiaethau yn ddiogel o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad C o'r adroddiad hwn.**

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg**

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Gallai staff y wardiau gael gafael ar weithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy'r fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu.

Roedd Bydwraig Ddiogelu Arweiniol wedi'i phenodi ar gyfer y bwrdd iechyd, a oedd yn darparu cymorth a hyfforddiant i'r staff. Roedd pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu sy'n cynnwys arweiniad ynghylch anffurfio organau cenhedlu menywod, cam-drin domestig, cam-drin rhywiol, camfanteisio a chleisiau ar fabanod nad ydynt yn gallu symud eto. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau cyffredinol ar gyfer hyfforddiant gorfodol ar adeg yr arolygiad yn wael.

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, nodwyd gwelliant sylweddol gennym o ran lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu i bob aelod o'r staff a chawsom sicrwydd fod amser hyfforddi ar gael i'r staff gwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.

Nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad dilynol pan fo cynllun geni gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol goruchwyllo'r fam a'r baban drwy gydol y dydd a'r nos, mai staff y ward sy'n ymgymryd â'r gwaith goruchwyllo hwn gan nad yw'r Awdurdod Lleol yn darparu unrhyw staff. Gall hyn fod yn anodd i'r staff ar ddyletswydd, yn enwedig os oes prinder staff. Er mwyn amddiffyn cleifion a staff, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ddarparu staff i ymgymryd â'r gwaith goruchwyllo 24 awr hwn.

**Dylai'r bwrdd iechyd weithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod staff gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu i ymgymryd â gwaith goruchwyllo 24 awr ac i sicrhau na fydd angen i staff yr uned famolaeth ymgymryd â'r gwaith goruchwyllo hwn.**

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw nad oedd cyfarpar meddygol hanfodol bob amser ar gael iddynt allu rhoi gofal i'r cleifion. Roedd hyn yn peri risg pe na ellid cynnal arsylwadau prydlon mewn modd amserol. Gwnaeth un aelod o'r staff y sylw canlynol yn yr holiadur:

*“Darparu mwy o gyfarpar i'r ystafelloedd geni, gan gynnwys cyfarpar monitro CTG, cyffiau pwysedd gwaed a thermomedrau. Ar un adeg, roedd prinder strapiau CTG a phadiau anymataliaeth ac o ganlyniad, roedd ein gwaith fwy neu lai'n amhosibl.”*

Yn ystod yr arolygiad dilynol, nododd sawl aelod o staff ddiffyg cyfarpar a ddelir â llaw (gan gynnwys cymhorthion sonig, dinamapiau a CTG cynenedigol). Cadarnhawyd hyn gan ganlyniadau'r arolwg staff. Nododd 85% o'r unigolion hynny a gwblhaodd yr arolwg nad oedd ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Dywedodd y staff wrthym am achosion o oedi wrth roi gofal i gleifion a rhwystredigaethau wrth orfod treulio amser yn chwilio am gyfarpar a ddelir â llaw er mwyn gallu rhoi gofal clinigol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyflenwadau a chyfarpar meddygol hanfodol bob amser ar gael i'r staff ac y caiff system fwy cadarn ei rhoi ar waith ar gyfer monitro ac olrhain cyfarpar.**

Gwelwyd cyfarpar gwagio mewn argyfwng yn ystafelloedd y pyllau geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau yn codi yn ystod genedigaeth ddŵr.

Gwnaethom archwilio'r troli brys a fyddai'n cael ei ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, a chadarnhawyd gennym ei fod yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Roedd y cyffuriau brys hefyd yn cael eu storio ar y troli dadebru brys. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal yn gyson o'r stoc brys a'r dyddiadau cynnal a chadw ar y cyfarpar hwn.

Wrth edrych eto yn ystod yr arolygiad dilynol, roedd yn siomedig nodi nad oedd y gwiriadau dyddiol gofynnol o gyfarpar mamolaeth hanfodol, gan gynnwys dadebrwyr a diffibrilwyr, bob amser wedi cael eu cofnodi. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal i nodi diffygion ar gyfarpar y gallai fod ei angen mewn argyfwng.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC (diweddarwyd mis Mawrth 2023) a chyfeirir ato yn [Atodiad B ac Atodiad C](#) o'r adroddiad hwn.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Gwelsom aelodau o'r staff yn blaenoriaethu anghenion clinigol a gofal cleifion yn effeithiol yn yr uned ar adeg yr arolygiad. Gwnaethom edrych ar gofnodion y cleifion a oedd yn dangos mai anghenion clinigol oedd prif ffocws y gwaith o

gynllunio gofal. Ar y cyfan, roedd y gwaith o gynllunio gofal a thriniaeth yn effeithiol, ond cawsom wybod am ddigwyddiad lle na chafwyd ymateb amserol ac effeithiol i argyfyngau obstetrig. Wrth ymchwilio i'r digwyddiad hwn, gwnaethom edrych ar y nodiadau meddygol a ddangosodd, yn ôl pob golwg, nad oedd camau dadebru wedi cael eu dechrau ar unwaith yn unol â chanllawiau a safonau cenedlaethol a lleol.

Mewn achos yn ystod yr arolygiad cyntaf, cawsom wybod gan nifer o staff y theatr am ddigwyddiad clinigol yn y theatr lle nad oedd claf o bosibl wedi cael gwiriadau clinigol a chamau dilynol effeithiol yn unol â'r argymhellion ar ôl digwyddiad. (Rydym wedi rhannu mwy o wybodaeth â'r lleoliad).

**Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.**

Oherwydd lefelau staffio, hyfforddiant a diffygion o ran cymorth ar lefel uwch, ni chawsom sicrwydd fod y staff yn gallu ymateb yn ddiogel ac yn gyflym i risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chleifion. Dywedodd nifer o'r staff wrthym am y materion canlynol, ac fe'u gwelsom yn ystod yr arolygiad:

- Nid oedd y trefniadau ar gyfer rheoli'r llwybrau ar gyfer cleifion cynenedigol, genedigol ac ôl-enedigol yn ddigonol ac nid oeddent yn galluogi'r staff i deimlo'n hyderus wrth uwchgyfeirio ac ymdrin â menywod yn ddiogel ac yn effeithiol
- Nid oedd y llwybrau yn glir ac o ganlyniad, roedd y staff yn gweithio gyda menywod ôl-enedigol a chynenedigol yn yr un ardaloedd, ac weithiau, roeddent yn ymdrin â menywod y cadarnhawyd eu bod yn y cyfnod esgor hefyd. Roedd niferoedd staffio isel hefyd yn gwaethygu'r sefyllfa hon.
- Dywedwyd wrthym gan sawl aelod o'r staff nad oedd y prosesau uwchgyfeirio yn hawdd i'w dilyn, a oedd yn peri risg i'r cleifion. Er enghraifft, yn ystod yr arolygiad, pan ofynnodd y tîm arolygu am wybodaeth am nifer y cleifion a oedd wedi geni baban mewn manau ac eithrio ystafell eni, ni ellid darparu'r wybodaeth honno.
- Cawsom wybod am adegau lle roedd menywod y cadarnhawyd eu bod yn y cyfnod esgor wedi'u lleoli yn yr uned ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor, lle nad oedd y lefel staffio ar yr uned honno ar y pryd yn cyrraedd y lefelau gofynnol ar gyfer rhoi cymorth un-i-un yn ystod y cyfnod esgor. Roedd hyn yn peri risg sylweddol i'r menywod, y babanod a'r staff.

- Roedd problemau sylweddol o ran diffyg cotiau i fabanod newyddenedigol. Roedd hyn yn effeithio ar allu'r uned i ysgogi'r cyfnod esgor ac i gynnal triniaethau toriadau cesaraidd am resymau diogelwch. O ganlyniad, roedd menywod a oedd yn aros am driniaethau toriadau cesaraidd yn wynebu oedi hir, gan olygu nad oedd y menywod hynny yn cael bwyta nac yfed unrhyw beth a'u bod yn cael eu gadael yn aml am gyfnodau hir heb unrhyw fwyd na diod.
- Gwnaethom ofyn i'r staff yn ein harolwg a oeddent yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn gallu eu rhoi i'r cleifion, a chafwyd ymateb cadarnhaol gan 53% o'r staff. Mewn perthynas â gallu darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol, dywedodd bron pob un o'r unigolion a ymatebodd i'r arolwg staff (95%) nad oedd digon o staff a nododd 74% ohonynt eu bod yn teimlo bod gormod o flaenoriaethau yn cystadlu â'i gilydd.

**Ymdriniwyd â'r materion uchod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.**

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, nodwyd gwell ymwybyddiaeth gennym ymhlith staff yr uned famolaeth o'r gweithdrefnau uwchgyfeirio ar gyfer rheoli cleifion yn ddiogel.

Dywedodd rhai meddygon a bydwragedd wrthym y bu gwelliant o ran lefelau staffio diogel ar yr uned ac nad oedd prinder staff ar gyfer shifftiau yn digwydd mor aml. Cadarnhaodd yr uwch-arweinwyr y dylai'r cynnydd mewn cyllid i ddarparu mwy o staff barhau i wella'r sefyllfa.

Yn yr holiadur staff diweddaraf (lle cafwyd ymateb gan 50 o aelodau o staff), roedd 89% o'r staff yn anghytuno bod digon o staff yn y sefydliad iddynt wneud eu gwaith yn iawn, sef gostyngiad bach o gymharu â'r ganran o 95% ym mis Tachwedd 2022. Dangosodd arolwg staff mis Mawrth 2023 fod 64% o'r staff yn teimlo bod gormod o flaenoriaethau yn cystadlu, sef gostyngiad o 10% o gymharu â mis Tachwedd 2022.

Gwnaethom ofyn i'r staff yn ein harolwg ym mis Mawrth 2023 a oeddent yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth roeddent yn gallu eu rhoi i'r cleifion, a chafwyd ymateb cadarnhaol gan 60% o'r staff, sef gwelliant o 7% o gymharu â mis Tachwedd 2022.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd SITREP yn cael eu cynnal bob dydd er mwyn rhannu gwybodaeth am yr uned ag uwch-arweinwyr y bwrdd iechyd, a dywedwyd wrthym am y camau a oedd yn cael eu cymryd i leihau'r risg i gleifion.



**Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff er mwyn llenwi'r swyddi gwag ar bob lefel, gan leihau'r risg i gleifion a gwella profiadau a chanlyniadau cleifion.**

#### **Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**

Roedd yn galonogol gweld nifer y prosiectau ymchwil a'r gwelliannau ansawdd sydd ar waith yn y bwrdd iechyd ar hyn o bryd. Gwelsom lawer o enghreifftiau o gydweithio â byrddau iechyd lleol eraill ar brosiectau gwella fel dysgu o ddiwyddiadau, a hyfforddiant i fydwagedd dan hyfforddiant.

Gwelsom fwletin newyddion misol ac roedd y materion pwnc yn cynnwys diolch i'r staff a'r newyddion diweddaraf.

Yn ystod yr arolygiad dilynol, clywsom am sawl menter a sawl aelod o'r staff a oedd wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobrau.

#### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu**

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn yr uned. Yn anffodus, gwelsom drolïau nodiadau nad oeddent wedi'u cloi, ac felly nid oedd y nodiadau yn cael eu cadw'n ddiogel, ac nid oedd modd sicrhau cyfrinachedd cleifion.

**Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.**

Ym mis Mawrth 2023, gwelsom sawl achos lle y gallai ymwelwyr a oedd yn mynd heibio neu gleifion eraill fod wedi gweld gwybodaeth am gleifion. Serch hynny, roedd nifer yr achosion hyn wedi lleihau ers mis Tachwedd 2022. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gwybodaeth gyfrinachol am gleifion yn cael ei storio'n unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

**Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.**

Dywedwyd wrthym fod gan y staff fanylion mewngofnodi personol er mwyn defnyddio'r cyfrifiaduron, ond dywedodd bydwagedd band 5 wrthym y bu oedi sylweddol wrth ddarparu manylion mewngofnodi iddynt.

**Dylai'r bwrdd iechyd wella'r broses o sefydlu a chynefino staff newydd er mwyn gwneud yn siŵr nad oes oedi o ran gallu defnyddio'r systemau cyfrifiadurol.**

Nododd yr arolygiad dilynol welliant yn y maes hwn a chadarnhaodd y staff nad oedd manylion mewngofnodi na mynediad i'r cyfrifiaduron yn broblem ym mis Mawrth 2023.

### **Cadw cofnodion**

Yn ogystal ag edrych ar gofnodion cleifion ar y safle, gwnaethom gynnal adolygiad pellach o gofnodion pedwar claf ar ôl yr arolygiad. Wrth edrych ar y cofnodion hyn, gwelsom dystiolaeth o waith tîm da rhwng y meddygon, y bydwagedd a'r timau amlddisgyblaethol eraill. Roeddent yn cydweithio er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal gorau.

Ar y cyfan, gwelsom fod y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion o safon dderbyniol, a bod cynlluniau gofal yn cael eu dogfennu'n dda rhwng timau amlddisgyblaethol. Ac eithrio'r materion a nodir uchod, gwelsom siartiau arsylwi, llwybrau gofal a bwndeli gofal priodol yn cael eu defnyddio.

Roedd dogfennau fel asesiadau risg cynenedigol, MEWS a NEWS yn cael eu cwblhau'n gyson, ac roedd asesiadau manwl yn y cofnodion a welsom. Fodd bynnag, gwelsom rai anghysondebau yng nghofnodion rhai o'r cleifion. Er enghraifft, nid oedd taflenni llofnodi i'w gweld ac mewn rhai achosion, roedd y llofnodion meddygol yn anodd i'w darllen.

### **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff archwiliadau dogfennaeth rheolaidd eu cynnal ac y caiff gwersi eu dysgu o'r canfyddiadau.**

Yn ystod yr arolygiad dilynol, gwnaethom edrych ar chwe set ychwanegol o gofnodion cleifion. Roedd pob cofnod yn hawdd i'w ddilyn a oedd yn helpu i sicrhau gofal cleifion diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, mewn un set o gofnodion, nid oedd y siart PROMPT wedi'i chwblhau ac nid oedd enwau'r clinigwyr wedi'u dogfennu'n effeithiol. Dim ond yr enwau cyntaf oedd wedi'u nodi ac nid oedd unrhyw lofnod ar ddogfen a oedd wedi'i chwblhau a oedd yn cyfeirio at waedlif ar ôl geni. Mewn cofnod arall, gwelsom nad oedd y staff wedi archwilio iechyd meddwl y claf yn rheolaidd er gwaethaf y ffaith ei bod yn cymryd meddyginiaeth ar gyfer gorbryder ac iselder.

### **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff menywod â phroblemau iechyd meddwl eu holi'n rheolaidd am eu hiechyd meddwl drwy gydol eu gofal.**

Gwnaethom nodi arferion da mewn perthynas â'r ffurflen Genedigaeth drwy'r Wain ar ôl Toriad Cesaraid (VBAC) a oedd yn cael ei chwblhau yn ystod yr apwyntiad cynenedigol cyntaf ac yn cael ei hailadrodd yn ystod wythnos 36-39.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o 152 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd ymatebion y staff yn gymysg. Dywedodd ychydig dros hanner eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth maent yn eu rhoi i gleifion, ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu hysbyty ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu. Byddai ychydig llai na hanner y staff yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio.

Roedd bron pob un a ymatebodd, sef 144 allan o'r 152 o aelodau o staff, yn teimlo nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Dywedodd y staff wrthym hefyd nad oes ganddynt ddigon o amser i roi'r gofal sydd ei angen ar gleifion. Dywedwyd wrthym:

*“Rwy'n pryderu o ddifrif am y risg o niwed i'r menywod a'r babanod yn sgil y lefelau staffio dros y deunaw mis diwethaf.”*

*“Rydym wedi gweithio'n rheolaidd â 25% yn llai o fydwragedd nag sydd eu hangen yn ystod y rhan fwyaf o'r 10 mis diwethaf. Nid yw'n sefyllfa y gellir ei chynnal, ac mae'r risgiau yn amlwg...”*

*“Rydym yn ei chael hi'n anodd pan na fydd digon o staff i ofalu am y nifer o fenywod ag anghenion risg uchel cynyddol...”*

*“Mae prinder staff difrifol yn yr uned ac o ganlyniad, mae pethau'n cael eu methu, ac mae'r bydwagedd yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro.”*

Dywedodd y staff meddygol wrthym fod y cymorth roeddent yn ei gael gan yr uwch-aelodau o staff o safon uchel iawn. Fodd bynnag, roeddent hefyd o'r farn fod y niferoedd staff cyfredol yn y tîm meddygol yn golygu y gallai'r pwysau gwaith ychwanegol ar y staff greu amgylchedd anniogel o bosibl iddynt weithio o'i fewn. Roedd y sylwadau a gawsom drwy'r holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Mae gwaith y tîm amlldisgyblaethol yn yr uned yn rhagorol. Oherwydd natur newidiol gofal mamolaeth e.e. cynnydd yn y gyfradd o achosion lle caiff y cyfnod esgor ei ysgogi a chynnydd yn nifer y toriadau cesaraidd, nid oes digon o welyau yma mwyach i ni allu ymdopi. Yn amlach na pheidio, mae'r wardiau yn llawn sy'n cynyddu'r pwysau ar yr uned gyfan. Nid oes*

*digon o uwch-staff meddygol mewn ardaloedd fel yr uned asesu obstetreg na'r wardiau ôl-enedigol ychwaith."*

Dyweddodd staff o wahanol broffesiynau gofal iechyd wrthym fod y lefelau staffio ar gyfer y bydwragedd, y meddygon a'r staff ategol yn aml yn llawer is na'r lefelau disgwyledig a'r lefelau diogel.

Roedd adnodd Birthrate plus ar gael i bennu lefelau staff bydweigiaeth. Fodd bynnag, cawsom wybod yn aml nad oedd y lefelau hyn yn cael eu cyrraedd gan nad oedd cymysgedd sgiliau digonol ar gael. Cawsom wybod am enghreifftiau lle roedd aelodau iau o staff wedi cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd cymhleth nad oeddent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer ac nad oedd ganddynt ddigon o brofiad i ymdrin â nhw. Dywedwyd wrthym mai dim ond un fydwraig oedd yn gweithio yn yr ardal ôl-enedigol weithiau, yn hytrach na dwy.

Yn ogystal â Birthrate plus, dywedwyd wrthym fod y staff meddygol yn aml yn gorfod ymgymryd â gwahanol rolau meddygol oherwydd prinder staff difrifol. Roedd hyn yn cynnwys uwch-feddygon a meddygon iau er mwyn sicrhau bod y rota ar alwad yn gweithredu'n ddiogel.

Dyweddwyd wrthym fod tua 30 o fydwragedd newydd gymhwyso wedi cael eu recriwtio a'u sefydlu gan y bwrdd iechyd yn ddiweddar. Gwelsom dystiolaeth o raglen sefydlu a oedd ar waith ar gyfer staff bydweigiaeth a staff meddygol, a dywedodd y staff wrthym fod y rhaglen hon wedi bod o gymorth iddynt pan wnaethant ddechrau yn eu rôl. Fodd bynnag, bu rhywfaint o oedi wrth ddarparu manylion mewngofnodi cyfrifiadurol, cyflwyno'r rhaglen sefydlu, darparu gwisgoedd digonol a thalu cyflogau mewn modd amserol ar gyfer y garfan hon, a dywedwyd wrthym fod morâl ymhlith yr aelodau hyn o staff yn isel a'u bod yn teimlo'n rhwystredig.

Yn ogystal â'r heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â sefydlu 30 o fydwragedd newydd, cawsom wybod nad oedd y bydwragedd hyn, yn ystod eu cyfnod tiwtoriaeth, yn cael eu cyfnod cymorth llawn. Weithiau, roedd rhai ohonynt wedi cael cais i ofalu am fydwragedd dan hyfforddiant. Dywedwyd wrthym hefyd am rai bydwragedd newydd gymhwyso a oedd wedi cael llwyth achosion llawn. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*"Mae bydwragedd newydd gymhwyso, yn arbennig, yn cael eu symud drwy'r amser i feysydd eraill, er gwaethaf y ffaith na ellir eu cyfrif fel staff ychwanegol yn y meysydd hyn, ac maent yn cael eu trin yr un fath â'r staff sydd wedi bod yno am gyfnodau llawer hwy."*

**Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses sefydlu ar gyfer staff newydd a'i gwella.**

Ymdriniwyd â'r mater mewn perthynas â lefelau staffio annigonol (niferoedd a chymysgedd sgiliau) o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.

Yn ystod yr arolygiad dilynol ym mis Mawrth 2023, ailadroddodd AGIC yr holiadur staff a chafodd 55 o ymatebion. Roedd yr ymatebion gan y staff yn gymysg a gwelwyd rhai gwelliannau bach mewn rhai meysydd.

Mae'n werth nodi bod ychydig dros ddwy ran o dair (33/55) yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i'r cleifion, bod y rhan fwyaf (41/55) yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarparwyd gan eu hysbyty ar eu cyfer nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu, a thros hanner (30/55) yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio. Roedd y ffigurau hyn, er eu bod yn seiliedig ar gyfradd ymateb is, yn dangos gwelliant bach o gymharu â mis Tachwedd 2022.

### **Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd**

Roedd aelodau'r tîm arwain yn teimlo bod y cymorth roeddent yn ei roi a'u hymrwymiad i'r staff o safon uchel, ond roedd ymatebion y staff mewn cyfweiliadau yn gymysg wrth drafod i ba raddau roeddent yn teimlo bod y tîm uwch-reolwyr yn eu gwerthfawrogi ac yn eu cefnogi. Nododd rhai o'r staff nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod eu harferion gwaith o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, dywedodd dwy ran o dair o'r staff a gwblhaodd yr holiadur y gellir dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i helpu gyda thasg anodd yn y gwaith. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan staff yn yr holiadur roedd:

*“... mae'r staff band 7 yn ardderchog ac yn gefnogol iawn... Mae fy rheolwr llinell hefyd yn wych, ac rwy'n teimlo y gallaf fynd ato ag unrhyw broblem ac y bydd bob amser yn barod i helpu.”*

*“Mae'r staff band 7 sy'n gyfrifol am y shifftiau yn gweithio hyd eithaf eu gallu o dan amgylchiadau heriol iawn o ran lefelau staffio ac yn ceisio rhoi cymaint o gymorth ag y gallant...”*

*“... nid ydym bob amser yn cael y cymorth sydd ei angen arnom ar achosion anodd/cymhleth gan nad oes unrhyw un ar gael i helpu hyd yn oed pe byddent am wneud hynny.”*

O ran gwelededd, unwaith eto, roedd yr ymatebion yn gymysg a nododd tua hanner y staff yn yr holiadur eu bod o'r farn bod yr uwch-reolwyr yn weladwy. Nododd y staff:

*“Mae'r uwch-reolwyr yn weladwy ac mae'n ddigon hawdd mynd atynt...”*

*“Dim ond os bydd rhywbeth drwg wedi digwydd y mae'r uwch-reolwyr i'w gweld! Prin iawn yw'r cymorth a gynigir neu a geir mewn ymateb i ganlyniadau gwael.”*

*“Nid wyf o'r farn ein bod yn gweld digon o'r uwch-reolwyr ar y wardiau ac ati. Gallent fod yn fwy hygyrch a rhoi cymorth mwy ymarferol i'r uned.”*

Cydnabu'r tîm gweithredol fod angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â diwylliant y staff ac o ran gwella cydberthnasau rhwng y staff a'r uwch-reolwyr. Er mwyn pontio'r bwlch rhwng uwch-reolwyr a staff yr uned, dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym eu bod i'w gweld yn amlwg yn yr uned a'u bod yn ceisio meithrin hyder ac ymddiriedaeth rhwng staff yr uned a'r uwch-reolwyr. Fodd bynnag, roedd yn amlwg drwy'r cyfweiliadau â'r staff a'r holiaduron nad oedd y staff bob amser yn teimlo bod yr uwch-reolwyr yn eu gwerthfawrogi nac yn eu cefnogi. Soniodd y staff fod gormod o newidiadau wedi bod o ran rheolwyr, a bod hyn wedi gwneud i'r staff deimlo'n anesmwyth.

Dywedwyd wrthym yn y cyfweiliadau fod *“staff wedi ymlâdd a'i bod yn ei chael hi'n anodd gweithio o dan yr amodau presennol.”* Dywedwyd wrthym hefyd fod *“staff ar y dibyn”*.

**Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y themâu a'r sylwadau yn deillio o'n harolwg staff mewn perthynas â gwelededd, cymorth a gwerthfawrogiad, ac ymateb iddynt.**

Ym mis Mawrth 2023, dywedwyd wrthym am newidiadau yn yr uwch-dîm. Nodwyd bod y Cyfarwyddwr Clinigol wedi penderfynu ymddiswyddo a bod Cyfarwyddwr Is-adrannol newydd wedi cael ei benodi'n ddiweddar (Mawrth 2023). Roedd cynlluniau ar y gweill hefyd i recriwtio Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth.

Dywedodd rhai o'r meddygon wrthym am ddiffyg cysylltiad rhwng y meddygon ymgynghorol a'r uwch-reolwyr / tîm gweithredol. Dywedodd sawl meddyg wrthym am bryderon o ran cydnabod sgiliau arbenigol wrth gefnogi, datblygu a recriwtio meddygon ymgynghorol newydd. Dywedwyd wrthym hefyd am yr arfer parhaus lle roedd meddygon ymgynghorol yn gweithredu fel meddygon iau o ganlyniad i lefelau staffio annigonol. Dywedodd rhai o'r bydwreagedd wrthym am ddiffyg cysylltiad parhaus rhwng y bydwreagedd clinigol a'r uwch-reolwyr.

Dywedodd y tîm gweithredol wrthym am amrywiaeth o fentrau a oedd wedi'u rhoi ar waith er mwyn anelu at ymgysylltu â'r staff er mwyn gwella trefniadau cyfathrebu, morâl a threfniadau rhannu gwybodaeth. Roedd y mentrau hyn yn cynnwys sesiynau gwybodaeth/holi cwestiynau amser cinio, cylchlythyrau, sesiynau galw heibio am goffi (ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i hynny). Dywedwyd wrthym

fod y Pennaeth Bydwreigiaeth yn rhoi adborth wythnosol ar ganfyddiadau'r fenter "lleisiau'r staff" a'r camau gweithredu yn deillio ohonynt. Gwelsom dystiolaeth o Sesiynau Briffio Diogelwch dyddiol a oedd yn cynnwys y gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau, polisiâu newydd a diweddariadau eraill.

Roedd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn croesawu'r mentrau hyn, ond dywedodd aelodau eraill o staff wrthym eu bod yn dal i deimlo diffyg cysylltiad â'r uwch-swyddogion gweithredol. Nododd yr arolwg staff er bod 80% o'r ymatebwyr yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr, fod 64% o'r farn nad oedd yr uwch-reolwyr yn weladwy. Dywedodd 74% nad oedd y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol a dywedodd 74% nad oedd yr uwch-reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig. Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff (meddygon a bydwragedd) a ddywedodd nad oedd unrhyw ymgynghori â nhw ac nad oeddent yn cael eu hannog i gyfrannu at y broses o lunio nac adolygu canllawiau na gweithdrefnau. Dywedodd rhai ohonynt eu bod yn teimlo nad oedd eu sgiliau yn cael eu defnyddio gan fod staff arbenigol yn cael eu penodi i fod yn gyfrifol am feysydd penodol o waith clinigol a fyddai'n cael eu cyflawni fel arall gan aelodau mwy cyffredinol o'r staff. Dywedodd ychydig o'r staff eu bod wedi cael eu hannog i gyfrannu at newidiadau cadarnhaol yn y gwasanaethau amenedigol.

**Dylai'r bwrdd iechyd ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd yn sgil y themâu a'r sylwadau llai ffafriol yn ein harolwg staff.**

Roedd systemau a phrosesau penodol ar waith i sicrhau bod yr uned famolaeth yn canolbwyntio ar wella ei gwasanaethau yn barhaus. Cadarnhaodd y tîm uwch-reolwyr y caiff camau gweithredu ac argymhellion o archwiliadau mamolaeth cenedlaethol eu rhannu. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd y cyfarfodydd hynny yn cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth, cyfarfod bwrdd gwella gofal mamolaeth a gofal newyddenedigol, grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth misol, cyfarfod adolygu archwiliadau misol a chyfarfodydd amlldisgyblaethol wythnosol.

Mae'r cyfarfod risg a llywodraethu amlldisgyblaethol misol yn cynnig fforwm ar gyfer trafod a dadansoddi adroddiadau o ddigwyddiadau, rheoli ymchwiliadau, dysgu a rhoi camau gweithredu a newidiadau ar waith. Fodd bynnag, yn ystod pob cyfweiliad ag aelodau o staff arbenigol, dywedwyd wrthym nad oedd y gwersi i'w dysgu na'r gwelliannau i'w gwneud bob amser yn cael eu rhoi ar waith.

Roedd ôl-groniadau sylweddol wrth reoli digwyddiadau ac ymdrin â nhw. Roedd hyn yn golygu nad oedd y gwersi i'w dysgu yn cael eu rhoi ar waith mewn modd amserol ac effeithiol er mwyn lleihau'r risg y byddai'r digwyddiad yn digwydd eto.

Nodwyd bod terfynau amser estynedig wedi'u pennu ar gyfer ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol ac nad oedd yr adolygiadau cychwynol bob amser yn nodi materion pwysig er mwyn gallu dysgu ohonynt ar unwaith.

Nid oedd y camau gweithredu a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith o ganlyniad i ddigwyddiadau difrifol bob amser yn cael eu rhoi ar waith a'u rheoli'n effeithiol. Roedd un enghraifft o hyn yn deillio o ddigwyddiad diweddar a arweiniodd at niwed catastroffig. Daeth yr adolygiad i'r casgliad na ddylid cau'r llenni ar y ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor pan nad oedd y menywod yn cael eu monitro. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y llenni yn cael eu cau fel mater o drefn, ac nad oedd staff yn monitro'r menywod yn ddigon aml i atal digwyddiad o'r fath rhag digwydd eto.

**Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â dysgu o ddigwyddiadau o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn. Cafodd y mater hwn yr oedd angen sicrwydd yn ei gylch ar unwaith ei gau ym mis Mawrth 2023.**

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff mai anaml y maent yn cael unrhyw adborth ffurfiol yn dilyn digwyddiadau, a bod hynny'n gyfle a gollwyd i ddysgu a gwella. Dywedwyd wrthym hefyd gan sawl aelod o'r staff fod ymchwiliadau i achosion o'r fath yn gosbol iawn eu natur ac roedd yn amlwg eu bod o'r farn bod diwylliant o fwrw bai ar waith.

**Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r broses ar gyfer rhoi gwybod am bryderon a digwyddiadau clinigol, ymchwilio iddynt a'u rheoli a gwerthuso'r lefel o gefnogaeth a roddir i'r staff.**

Ar ôl cynnal adolygiad i ddigwyddiadau, cwynion neu ganmoliaeth, dywedwyd wrthym fod crynodeb o'r adolygiad ac argymhellion yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm misol. Caiff camau gweithredu hefyd eu trafod yn ystod Briffiadau Diogelwch Dyddiol. Fodd bynnag, yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, dywedodd rhai nad oedd cyfarfodydd tîm bob amser yn cael eu cynnal.

Ym mis Mawrth 2023, gwelsom dystiolaeth fod llai o ddigwyddiadau o bwys "ar agor". Roedd y nifer wedi lleihau o 30 i 15 rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023. Dywedwyd wrthym fod Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd ar gael fel mater o drefn i roi cymorth i fydwragedd ar ddechrau ymchwiliadau i unrhyw ddigwyddiad o bwys, a dywedodd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y cymorth hwn yn gadarnhaol ac yn gefnogol. Gwelsom dystiolaeth fod themâu yn cael eu nodi a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd ar unwaith. Roedd pob



aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn teimlo y gallent roi gwybod am ddigwyddiadau yn briodol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, a'u bod yn cynnig proses ystyrlon, gefnogol a gwerthfawr i'r staff.**

Gwelsom fod proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Gwnaethom edrych ar lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol a Hyfforddiant Amlbroffesiynol Obstetreg Ymarferol (PROMPT). Ar adeg yr arolygiad, roedd cyfraddau hyfforddiant PROMPT yn isel, ar 61%. Nodwyd gennym hefyd nad oedd y cyfraddau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant gorfodol arall yn cyrraedd y safon ofynnol ychwaith. Felly, ni chawsom sicrwydd fod y staff wedi cael yr hyfforddiant cyfredol perthnasol na'u bod yn meddu ar y sgiliau cyfredol perthnasol i roi gofal a thriniaethau diogel i gleifion a babanod.

**Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn. Cafodd y mater hwn yr oedd angen sicrwydd yn ei gylch ar unwaith ei gau ym mis Mawrth 2023.**

Gwnaethom ofyn i'r staff yn ein harolwg a oeddent wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'u rôl ac roedd dwy ran o dair yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol. Dywedodd y staff wrthym:

*“Yn fy marn i, nid oedd yr holl hyfforddiant yn ein paratoi'n llawn i ymgymryd â'n rôl, er enghraifft, ni ddangoswyd i ni sut i ddefnyddio safleoedd clinigol allweddol fel y porth clinigol, na sut i wneud cais am waed, ac nid oes cyfarpar allweddol ar gael i ni...”*

*“Hyfforddiant sefydlu rhagorol pan ddechreuais yn fy swydd. Cefais yr holl hyfforddiant perthnasol.”*

*“Mae'r bwrdd yn cynnig adnoddau hyfforddiant i'r staff sy'n aml yn rhagorol, a hynny ar gyfer hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant ychwanegol; fodd bynnag, nid yw'n rhoi amser priodol i'r staff gwblhau'r hyfforddiant hwn, gan ddisgwyl yn aml i ni ymgymryd â'r hyfforddiant yn ystod ein hamser sbâr. Yn aml, nid oes modd cwblhau'r hyfforddiant yn unol â'r terfynau amser, gan nad oes unrhyw amser i ni wneud hynny fel rhan o lwyth gwaith sydd eisoes yn uwch na'r arfer...”*

Yn ystod mis Mawrth 2023, nodwyd gennym fod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant PROMPT a CTG wedi gwella. Roedd gan y ddau faes hyfforddiant

gorfodol hyn lefel gydymffurfiaeth o 90%. Gwnaethom siarad â'r fydwraig ddigidol arweiniol a chawsom sicrwydd fod data cydymffurfiaeth â hyfforddiant byw ar gael ar gyfer pob aelod o'r staff mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu â'r staff bob dydd er mwyn rhoi blaenoriaeth i unrhyw fylchau. Dywedodd sawl aelod o'r staff wrthym am y broses o neilltuo amser penodedig i hyfforddi a fyddai'n dechrau ym mis Ebrill 2023.

Nodwyd gennym fod y cyfraddau hyfforddiant trallwysiadau gwaed a oedd wedi'u dogfennu yn nodi lefelau cwblhau isel; fodd bynnag, cawsom sicrwydd fod yr ail ran o'r hyfforddiant hwn wedi'i threfnu ar gyfer mis Ebrill 2023.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro'r holl gyfraddau hyfforddiant gorfodol a rhoi blaenoriaeth i gyfraddau cydymffurfiaeth isel.**

## **Y Gweithlu**

Gwelsom fod proses uwchgyfeirio ar waith i'w defnyddio pan fo prinder staff, ac roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i ddod o hyd i'r polisi a sut i uwchgyfeirio materion staffio. Fodd bynnag, dywedodd sawl aelod o'r staff wrthym nad oedd yr uwch-dîm na swyddogion gweithredol y bwrdd iechyd yn gwrando ar bryderon uwchgyfeirio nac yn ymateb iddynt.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio materion staffio eu dilyn a'u cyfathrebu'n effeithiol.**

Ym mis Mawrth 2023, nodwyd gwelliant gennym o ran ymwybyddiaeth o'r polisi uwchgyfeirio mewn perthynas â staffio.

Dywedodd sawl aelod o'r staff wrthym yn aml nad oedd amser i gymryd egwyliau digonol i ffwrdd o'r ardaloedd clinigol oherwydd pwysau staffio.

Ym mis Mawrth 2023, roedd sylwadau adborth y staff yn awgrymu o hyd na allai llawer o'r staff gymryd egwyliau digonol i ffwrdd o'r ardaloedd clinigol, gan nodi unwaith eto mai pwysau staffio oedd y prif reswm am hyn.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu cymryd egwyliau neu seibiannau digonol yn ystod eu shifftiau.**

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom siarad â llawer o fydwragedd dan hyfforddiant, a siaradodd yn gadarnhaol am y cymorth y maent wedi'i gael gan y staff sy'n eu mentora neu'n eu cefnogi. Fodd bynnag, gwnaethant sôn hefyd am brinder staff a oedd weithiau'n gallu cael effaith negyddol ar eu profiad dysgu.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau ei fod yn cael adborth gan fyfyrwyr er mwyn gwneud yn siŵr nad yw materion fel lefelau staffio yn effeithio ar eu hyfforddiant.**

Dyweddod y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael arfarniadau. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff wrthym hefyd nad oeddent yn teimlo bod y broses yn un ystyrlon ac nad oeddent o'r farn bod y cyfarfodydd hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol. Dywedodd y staff wrthym hefyd nad oeddent yn cael fawr ddim adborth cadarnhaol gan y rheolwyr ar eu perfformiad.

Dyweddod y staff wrthym nad yw'r rheolwyr yn rhoi adborth iddynt yn dilyn sylwadau gan gleifion am eu gofal.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y broses arfarnu ei gwerthuso a'i bod yn ystyrlon i'r staff.**

**Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi adborth i'r staff am themâu, sylwadau a chanmoliaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.**

Daeth thema gyffredin i'r amlwg mewn perthynas â'r ffaith na allai'r staff gamu ymlaen yn eu rôl; dywedodd y mwyafrif o'r staff y gwnaethom siarad mai prin oedd y cyfleoedd iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff trefniadau i'r staff gamu ymlaen yn eu gyrfa eu gwerthuso a'u cyfleu'n glir i'r staff.**

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad D: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni ddatryswyd unrhyw bryderon yn ystod yr arolygiadau			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith (Tachwedd 2022)

**Gwasanaeth:** Uned Famolaeth, Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Dyddiad yr arolygiad:** 8, 9 a 10 Tachwedd 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

## Ansawdd Profiad y Claf

### Canfyddiadau

Dywedwyd wrthym fod rhai menywod yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol oherwydd eu hethnigrwydd a lliw eu croen. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â menywod o gefndir Du Affricanaidd. Roeddent yn teimlo nad oedd y staff yn gwrando arnynt ac nad oeddent yn cael yr un lefel o wybodaeth a gofal. Roedd hyn yn golygu nad oedd y gwasanaeth na'r bwrdd iechyd yn cyflawni eu dyletswydd gofal tuag at y mamau hyn.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau nad yw mamau o gefndiroedd amrywiol o dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

### Safon 6.2 Hawliau Pobl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi pwyslais mawr ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn anelu at drin pob claf ag urddas a pharch. Mae ein staff yn ymwybodol o'r risgiau penodol y mae menywod o gefndir BAME yn eu hwynebu mewn perthynas â beichiogrwydd a gwneir pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael gofal teg.

Mae dangosfwrdd Mamolaeth Caerdydd a'r Fro yn cysylltu â system data mamolaeth Euroking a'r Adnodd Adolygu Marwolaethau Amenedigol (PMRT) i roi gwybodaeth gywir am y canlyniadau i fenywod, gan gynnwys y rhai hynny o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae'r data hyn wedi cael eu casglu ers cyhoeddi adroddiad MBRRACE-UK Saving Lives, Improving Mothers Care yn

2021, a ddangosodd gyfraddau marwolaeth uwch ar gyfer menywod o gymunedau BAME. Mae'r data (wedi'u golygu) yn enghraifft o'r dangosfwrdd mamolaeth. Caiff y data hyn eu cyflwyno i Gyfarfodydd Diogelwch ac Ansawdd y Gyfarwyddiaeth a'u goruchwyllo yn ystod Cyfarfod Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Clinigol er mwyn sicrhau ymateb digonol.

Caiff data sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau mewn canlyniadau eu rhannu â'r staff yn ystod diwrnodau hyfforddiant gorfodol gan ein Bydwraig Arbenigol ar gyfer menywod sy'n ceisio noddfa a goroeswyr arfer niweidiol (atodiad 1). Caerdydd yw'r unig Fwrdd Iechyd Prifysgol yng Nghymru ag unigolyn yn ymgymryd â'r rôl arbenigol hon. Mae'r fydwraig arbenigol hon yn cefnogi teuluoedd o leiafrifoedd ethnig, gan eu helpu i gael y gofal mamolaeth diogel a theg sydd ei angen arnynt. Caiff y rôl hon ei hategu ymhellach gan dîm ELAN sy'n rhoi cymorth i deuluoedd agored i niwed yn ein cymunedau.

Mae'r hyfforddiant gorfodol ar fydwreigiaeth yn ychwanegol at y modiwlau e-ddysgu sy'n rhan o'r Cofnodion Staff Electronig. Yn ystod COVID-19, cyflwynwyd yr hyfforddiant gorfodol ychwanegol ar ffurf e-ddysgu rhithwir. Gan fod cyfyngiadau COVID-19 wedi llacio erbyn hyn, ailddechreuwyd yr hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae'r rhaglen ar gyfer yr hyfforddiant hwn wedi'i chynnwys yn atodiad 2. Caiff cydymffurfiaeth â hyfforddiant ei monitro drwy Gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch y Gyfarwyddiaeth a'r Bwrdd Clinigol a chyflwynir adroddiadau ar y broses fel rhan o adolygiad y Tîm Gweithredol / Bwrdd Clinigol.

Ym mis Ebill 2023, bydd pob aelod o'r staff yn cael wythnos o hyfforddiant wyneb yn wyneb er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant ehangach. Tan hynny, mae 7.5 awr o amser gwarchoddedig yn cael ei neilltuo i'r staff er mwyn iddynt gwblhau eu hyfforddiant gorfodol ar-lein. Y gyfradd gydymffurfiaeth bresennol ar gyfer hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yw 70.19% ar gyfer yr e-ddysgu gorfodol bob 3 blynedd ym maes obstetreg a gynaecoleg. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, rhagwelir y bydd y Gyfarwyddiaeth Obstetreg a Gynaecoleg yn cyflawni cyfradd gydymffurfiaeth o 90%.

Mae'r fydwraig arbenigol hefyd yn mynd i Brifysgol Caerdydd er mwyn rhannu'r data hyn â'r myfyrwyr bydwreigiaeth israddedig. Yn ogystal, trefnwyd nifer o sesiynau cinio a dysgu gan un o ganghennau'r RCM yn canolbwyntio ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Arweinydd: Bydwraig Ymgynghorol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd**

**Amserlen: Parhaus**

Caiff adroddiad diweddar MBRACE ar anghydraddoldebau mewn gofal mamolaeth ei drafod yn y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch Mamolaeth a chyfarfod Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Clinigol ym mis Ionawr 2023 a chaiff cynllun gwella ei ddatblygu a'i gyflwyno i Bwyllgor Effeithiolrwydd Clinigol BIP Caerdydd a'r Fro ym mis Ebrill 2023.

### **Arweinydd: Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol**

**Ebrill 2023**

Mae gan y Bwrdd lechyd eisoes brotocol (atodiad 3) i hwyluso trefniadau cyfathrebu effeithiol â menywod nad ydynt yn siarad Saesneg. Caiff dehonglwyr wyneb yn wyneb eu defnyddio ar gyfer ymgynghoriadau mamolaeth cymhleth a defnyddir y Llinell Iaith yn rheolaidd ar gyfer ymgynghoriadau fideo.

Mae gan y Gyfarwyddiaeth ganllaw dehongli sy'n rhan o ganllaw'r gwasanaethau mamolaeth. Bu'r canllaw hwn ar waith ers 2012 ac rydym wedi ei gynnwys yn atodiad 4. Mae canllaw hefyd a ddatblygwyd yn lleol ar gyfer dehonglwyr mewn gwasanaethau mamolaeth (atodiad 4). Mae'r canllaw hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd; caiff y fersiwn ddiwygiedig ei chyhoeddi ddechrau 2023. Mewn ymateb i arolygiad AGIC, datblygwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol (atodiad 5) fel canllaw cyfeirio cyflym er mwyn rhoi mwy o gymorth i'r staff wrth roi gofal i fenywod nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Cafodd ei dosbarthu drwy e-bost i bob aelod o'r staff ac mae copïau wedi'u lamineiddio ar gael ym mhob ardal glinigol. Cafodd y Weithdrefn Weithredu Safonol ei chymeradwyo drwy'r Fforwm Proffesiynol ar gyfer Mamolaeth a'r Fforymau Proffesiynol ar gyfer Gynaecoleg. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyfieithu'r holl lenyddiaeth i gleifion i'r pump iaith fwyaf cyffredin. Mae cardiau fflach hefyd ar gael ym mhob ardal er mwyn helpu menywod nad Saesneg yw eu mamiaith.





Gwneir pob ymdrech i recriwtio menywod o bob cymuned i bwyllgor cyswllt y Gwasanaeth Mamolaeth. Mae'r fforwm yn allweddol wrth gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ac wrth ddatblygu gwasanaethau.

**Arweinydd: Bydwraig Ymgynghorol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd**

**Amserlen: Parhaus**

Mae llwyfan profiad y claf Civica bellach yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd a chaiff codau QR eu harddangos ym mhob ardal glinigol o fis Ionawr 2023. Mae'r llwyfannau yn helpu i gasglu gwybodaeth am brofiad cleifion mewn 12 o ieithoedd ac Iaith Arwyddion Prydain ac mae fersiwn sain ar gael o bob arolwg. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Civica i

gynyddu nifer yr ieithoedd y gellir cwblhau a chyflwyno'r arolygon ynddynt er mwyn gwneud yn siŵr bod y Bwrdd Iechyd yn cael gwybod am brofiad cleifion o bob cymuned a wasanaethir ganddo.

**Arweinydd : Cyfarwyddwr Cynorthwyol Profiad y Claf**

**Amserlen: Ionawr 2023**

Hyd yn hyn yn 2023, gwariwyd £82k ar ddefnyddio gwasanaethau dehongli.

Penodwyd llysgenhadon cynhwysiant ar gyfer y naw nodwedd warchoddedig er mwyn cefnogi ymrwymiad y gwasanaeth i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Diben grŵp y llysgenhadon cynhwysiant yw hybu a chodi ymwybyddiaeth o'r nodweddion gwarchoddedig fel y'u nodir yng nghyfraith y DU drwy Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cynhaliwyd Cyfarfod Cyntaf Llysgenhadon Cynhwysiant y Bwrdd Clinigol ar gyfer Plant a Menywod ar 21/12/2022 er mwyn cymeradwyo telerau cylch gorchwyl y grŵp. Rôl y Llysgenhadon Cynhwysiant yw cyfleu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn cefnogi cynhwysiant ac amrywiaeth yn y gweithle, gan geisio sicrhau bod BIP Caerdydd a'r Fro yn lle mwy diogel, mwy caredig a mwy cynhwysol i gael gofal ac i weithio ynddo. Bydd pob llysgennad yn ymgysylltu â'r grŵp nodweddion gwarchoddedig ehangach y mae'n Llysgennad Cynhwysiant ar ei gyfer, Tîm Cydraddoldeb y BIP a Rhwydweithiau'r Trydydd Sector er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Bwrdd Clinigol ei rhannu a dysgu oddi wrthi. Er mwyn cyfleu digwyddiadau allweddol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd warchoddedig a'u cefnogi lle y bo'n bosibl er mwyn lleihau anghydraddoldebau, hyrwyddo cynhwysiant a pharchu amrywiaeth. Mae'r cylch gorchwyl a'r Agenda ar gyfer y grŵp wedi'u cynnwys fel rhan o atodiad 6 a 7

**Arweinydd: Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol ar gyfer Plant a Menywod**

**Amserlen: Parhaus**

Ystyriwyd y posibilrwydd o fabwysiadu'r dull ar y we a ddatblygwyd o fewn BIPAB mewn partneriaeth ag Iechyd y Cyhoedd er mwyn cefnogi iechyd cyn cenhedlu ac a gyflwynwyd drwy wefan Iachach Gyda'n Gilydd. Fodd bynnag, teimlwyd y gallai aelodau o rai cymunedau amrywiol wynebu cyfyngiadau wrth gyrchu'r wefan. Yn hytrach, caiff cysylltiadau eu hatgyfnerthu er mwyn ymgysylltu â menywod yn ein cymunedau lleol amrywiol. Gwneir hyn drwy sefydliadau'r trydydd sector, a'r cysylltiadau â gwasanaethau a staff sydd gennym eisoes â phartneriaid.

**Arweinydd: Bydwraig Profiad y Claf**

**Amserlen: Parhaus**

### Llywodraethu Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018) yn yr uned. Nodwyd gennym yn y Ward ar gyfer Ysgogi'r Cyfnod Esgor nad oedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei rheoli na'i storio'n ddiogel er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod, a sicrhau cyfrinachedd cleifion. Roedd hyn yn cynnwys troliau ar olwynion a oedd yn cynnwys cofnodion nifer o wahanol gleifion, nad oeddent wedi'u cloi nac wedi'u goruchwyllo. Pan godwyd hyn â'r staff, dywedwyd wrthym nad oedd wedi'i gloi gan nad oedd unrhyw un yn ymwybodol o rif y bysellbad a'i fod yn arfer safonol gadael y troli heb ei gloi.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi sicrwydd bod dogfennaeth yn cael ei storio'n unol â'r GDPR.

Cafodd y briffiadau diogelwch eu diweddarau i atgoffa'r staff o'u cyfrifoldeb i gloi troliau nodiadau pan na fydd unrhyw un yn eu goruchwyllo (atodiad 8). Ers arolygiad AGIC, mae uwch-aelodau o'r tîm bydwreigiaeth bellach yn cerdded o amgylch yr amgylchedd bob dydd a chaiff llwyfan archwilio Tendable ei ddefnyddio er mwyn helpu i archwilio ac arolygu wardiau. Ceir enghraifft o archwiliad Tendable yn atodiad 9. Rydym wrthi'n ei addasu ar gyfer y gwasanaethau mamolaeth. Cyn cyflwyno Tendable, ni oedd unrhyw archwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal o'r troliau nodiadau. Caiff canlyniadau'r archwiliadau eu cyflwyno a'u monitro drwy'r Cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch misol a'u cyflwyno i'r Bwrdd Clinigol.

Roedd archwiliadau dogfennaeth blaenorol yn canolbwyntio ar ansawdd y ddogfennaeth yn hytrach na'r trefniadau ar gyfer ei storio'n ddiogel. Gwnaed gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer storio cofnodion meddygol yn ddiogel, gan gynnwys troliau y gellir eu cloi. Mae cydymffurfiaeth â'r safon hon bellach yn cael ei harchwilio.

**Arweinydd: Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth**

**Amserlen: Parhaus**

## Diogelwch

Ystyriodd y tîm arolygu hefyd ddiogelwch babanod newyddanedig yn yr ystafelloedd geni. Cawsom wybod fod yr ymarfer herwydio diwethaf wedi cael ei gynnal 18 mis yn ôl ac ni chafwyd sicrwydd ynghylch trefniadau uwchgyfeirio na chynlluniau i gynnal unrhyw hyfforddiant herwydio yn y dyfodol i bob aelod o staff yn yr unedau.

## Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod mesurau ar waith i wneud yn siŵr bod babanod yn ddiogel ym mhob rhan o'i wasanaethau mamolaeth er mwyn atal babanod rhag cael eu herwydio

Cynhaliwyd ymarfer herwydio llwyddiannus yn yr uned a arweinir gan Obstetreg ar 18 Tachwedd a llwyddwyd i atal baban rhag cael ei symud o ardal y ward. Mae'r adroddiad archwilio o'r ymarfer hwn wedi'i gynnwys fel rhan o atodiad 10 a cheir copi o bolisi herwydio plant y BIP yn atodiad 11. Yn ystod 2023, caiff ymarfer herwydio ei gynnal bob chwarter, a hynny am yn ail yn yr Uned a Arweinir gan Obstetreg a'r Uned a Arweinir gan Fydwagedd. Cafodd pob aelod o'r staff ei atgoffa o'i gyfrifoldeb i gadarnhau manylion adnabod pob unigolyn sy'n ymweld â'r ward esgor er mwyn sicrhau bod y mamau a'r babanod yn ddiogel. Ceir tystiolaeth o hyn yn atodiad 8.

**Arweinydd: Arweinwyr Gweithredol Band 7**

**Amserlen: Parhaus**

## Hyfforddiant

Nid oedd yr hyfforddiant gorfodol hanfodol yn cyrraedd y safonau gofynnol. Felly, ni chawsom sicrwydd fod y staff wedi cael yr hyfforddiant cyfredol perthnasol na'u bod yn meddu ar y sgiliau cyfredol perthnasol i roi gofal a thriniaethau diogel i fenywod a babanod. Mae'r meysydd sy'n peri pryder fel a ganlyn:

- Lefelau cydymffurfiaeth islaw 70% â hyfforddiant PROMPT. Mae hyfforddiant PROMPT yn hanfodol er mwyn i fydwagedd a gweithwyr obstetreg proffesiynol eraill allu ymateb yn effeithiol i amrywiaeth o argyfyngau obstetreg ac ymdrin â nhw.

Darparwyd ystadegau ar gyfer hyfforddiant CTG ond roedd lefelau presenoldeb a chydymffurfiaeth yn isel iawn, sef 39%. Roedd hyn yn golygu nad oedd dros hanner y staff yr oedd yn ofynnol iddynt ymgymryd â'r hyfforddiant diogelwch hanfodol hwn wedi cael yr hyfforddiant hwnnw. Roedd hyn yn golygu bod menywod a babanod yn wynebu lefel risg annerbyniol oherwydd na allem gael sicrwydd bod y staff yn gymwys na'u bod wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf i gyflawni'r ddyletswydd hon.

Roedd cyfraddau hyfforddiant gorfodol yn isel ar y cyfan ar draws y rhan fwyaf o bynciau. Roedd hyn yn golygu na allem gael sicrwydd fod y staff wedi'u hyfforddi i'r safonau gofynnol i gyflawni eu rolau yn effeithiol ac yn ddiogel.

Ni chawsom sicrwydd fod y staff yn cael hyfforddiant dadebru newyddenedigol na hyfforddiant rheoli argyfyngau penodol. Mae hyn yn golygu bod babanod newyddanedig yn wynebu risg annerbyniol o niwed a bod risg sylweddol na fydd babanod y mae angen eu dadebru adeg eu geni yn cael cymorth amserol ac effeithiol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau y caiff hyfforddiant ei gwblhau mewn modd amserol ac yn unol â'r lefelau cydymffurfiaeth a argymhellir gan y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau diogelwch cleifion.

Yn ystod pandemig COVID-19, cafodd yr holl hyfforddiant wyneb yn wyneb ei atal. Lle roedd hynny'n bosibl, datblygwyd dulliau dysgu ar-lein / rhithwir. Nid oedd hyn yn bosibl ar gyfer PROMPT a gwnaed penderfyniad ledled Cymru i atal hyfforddiant PROMPT. Ers llacio cyfyngiadau COVID-19, ailddechreuwyd yr holl ddiwrnodau astudio hyfforddiant gorfodol. Disgwylir y bydd cydymffurfiaeth yn gwella i 95% erbyn diwedd 2022, gan gydnabod na fydd unigolion ar gyfnod o absenoldeb tymor hir yn gallu mynychu. Yn ystod misoedd yr haf yn 2022, bu'n rhaid gohirio rhai diwrnodau astudio ar fyr rybudd er mwyn cynnal lefelau staffio diogel yn yr uned famolaeth. Rhoddwyd gwybod i PROMPT Cymru am bob achos o ohirio gan ddefnyddio'r ddogfennaeth briodol (atodiad 12).

Mae rhaglen PROMPT Caerdydd a'r Fro ar gyfer 2022/23 i'w gweld yn atodiad 13.

Nodir y cyfraddau cydymffurfiaeth cyfredol cywir fesul grwpiau o staff unigol isod:

Hyfforddiant PROMPT i Obstetegwyr Ymgynghorol - cydymffurfiaeth o 92% (nid oedd un aelod o'r staff wedi ymgymryd â'r cwrs gloywi eto oherwydd cyfnod o absenoldeb salwch tymor hir).

Cydymffurfiaeth staff meddygol â hyfforddiant PROMPT - cydymffurfiaeth o 61%.

Cydymffurfiaeth bydwragedd â PROMPT - 220 allan o 246, sef cyfradd o 89.3% ym mis Rhagfyr 2022 CTG

Mae'r data canlynol yn cynrychioli ein cyfraddau cydymffurfiaeth cyfredol:

Obstetegwyr Ymgynghorol 92%, Bydd cyfraddau cydymffurfiaeth meddygon ymgynghorol yn cyrraedd 100% unwaith y bydd yr unig feddyg ymgynghorol nad yw wedi cyflawni'r hyfforddiant diweddaraf wedi mynychu cwrs ar 14/12/22. Mae'r diffyg hwn o ganlyniad i salwch tymor hir.

Ymhlith ein uwch haen, dim ond un hyfforddai y mae angen diweddarau ei hyfforddiant, a disgwylir i'r unigolyn hwnnw fynychu cwrs ym mis Ionawr.

Mae ein cofnod cydymffurfiaeth yn golygu y gellir cydymffurfio â'n canllaw gwylidwriaeth ffetysol lleol sy'n nodi bod yn rhaid i unrhyw bryderon CTG gael eu hadolygu gan ST6 neu'n uwch.

Cydymffurfiaeth staff bydweigiaeth ag addysgu diwrnod llawn wyneb yn wyneb - 91% (225 o fydwragedd allan o 246).

Ers i'r bydwragedd newydd gymhwyso ymuno â'r sefydliad ar ddiwedd mis Hydref 2022 (gan gael eu cynnwys ar y rhestrau gweithio o 24 Hydref 2022), cynhaliwyd diwrnodau astudio gwylidwriaeth ffetysol ychwanegol gan ddilyn dull wedi'i dargedu ar gyfer y staff yr oedd angen diweddarau eu hyfforddiant. Cafodd bydwaig ei phenodi i fod yn gyfrifol am wylidwriaeth ffetysol ar 14 Tachwedd 2022 (ceir proffil rôl yn atodiad 14). Bydd lefelau cydymffurfiaeth yn uwch na 95% erbyn diwedd mis Chwefror 2023. Caiff pob elfen o gydymffurfiaeth â hyfforddiant ei chofnodi ar Allocate er mwyn sicrhau bod lefelau cydymffurfiaeth ar bob shift yn cael eu goruchwyllo. Er mwyn ystyried y 10.6% o fydwragedd y mae angen hyfforddiant PROMPT arnynt a'r 9% y mae angen hyfforddiant CTG arnynt.

**Arweinydd: Pennaeth Bydweigiaeth a'r Cyfarwyddwr Clinigol**

**Amserlen: Parhaus**

Cynnal bywyd newyddenedigol (hyfforddiant mewnol)

Mae'r hyfforddiant rhaeadru uniongyrchol mewnol blynyddol mewn Cynnal Bywyd Newyddenedigol (NLS) yn flaenoriaeth i bob aelod o staff bydweigiaeth sy'n darparu gofal i fabanod newyddanedig er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i argyfyngau. Caiff yr hyfforddiant hwn ei ddarparu fel rhan o ddiwrnod astudio PROMPT a cheir lefel gydymffurfiaeth o 67.2% ymhlith y bydwragedd. Erbyn diwedd mis Ionawr 2023, rhagwelir lefel gydymffurfiaeth o 95%. Penodwyd 12 o hyfforddwyr rhaeadru NLS

er mwyn cyflwyno hyfforddiant NLS ychwanegol ac mae cynlluniau ar waith i hyfforddi chwe hyfforddwr rhaedru arall yn ystod y flwyddyn nesaf.

Caiff y cwrs hyfforddiant Cynnal Bywyd Newyddenedigol estynedig a gynhelir bob tair blynedd ei gynnal yn fewnol gan y tîm dadebru, o dan arweiniad dau feddyg newyddenedigol ymgynghorol o ardal Caerdydd a'r Fro. Caiff yr hyfforddiant hwn ei flaenoriaethu ar gyfer staff a fydd o bosibl yn dadebru babanod newyddenedigol y tu allan i amgylchedd yr ysbyty ac uwch-aelodau o staff bydwreigiaeth. Mae 12.7% o'r bydwagedd wedi'u hyfforddi'n llwyddiannus fel ymarferwyr NLS yn dilyn cwrs hyfforddiant undydd dwys. Mae'r garfan sydd wedi cael hyfforddiant yn cynnwys ein cydgysylltwyr yn ystod genedigaethau a'n Bydwagedd Cymunedol. Cafodd hyfforddiant NLS ei atal yn ystod y pandemig.

Mae'r lleoedd a gomisiynwyd ar gyfer y Cwrs Hyfforddiant Cynnal Bywyd Newyddenedigol Estynedig wedi cynyddu i 20 ar gyfer 2023/24. Bydd gwaith yn parhau i gynyddu'r lleoedd ar gyfer staff bydwreigiaeth. Byddwn yn parhau i roi blaenoriaeth i Fydwragedd Cymunedol a Bydwagedd yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd hyd nes y bydd cynnydd yn y lleoedd a gomisiynir.

Bydd y rota yn parhau i gydnabod staff sydd wedi cael hyfforddiant NLS er mwyn sicrhau bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ym mhob ardal.

Cafodd NLS ei gynnwys yn y diwrnod astudio proffesiynol ar gyfer bydwreigiaeth (atodiad 15) a rhaglen PROMPT (atodiad 13).

Ar hyn o bryd, mae'r Cofnodion Staff Electronig yn cynnwys cofnodion hyfforddiant e-ddysgu gorfodol y BIP. Mae'r Fydwraig Ddigidol yn gweithio gyda'r Cofnodion Staff Electronig er mwyn cynnwys yr holl hyfforddiant gorfodol i fydwagedd ac obstetregwyr. O ganlyniad, bydd PROMPT, Gwylidwriaeth Ffetysol ac NLS wedi'u cynnwys ar y Cofnodion Staff Electronig. Bydd gan bob aelod o'r staff un cofnod hyfforddiant cyflawn. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o fonitro a gwirio cydymffurfiaeth.

#### **Arweinydd: Bydwraig Ddigidol**

#### **Amserlen: Parhaus**

Ym mis Mawrth 2023, caiff yr holl hyfforddiant gorfodol ei gynnwys fel rhan o wythnos astudio flynyddol i staff bydwreigiaeth er mwyn sicrhau lefelau cydymffurfiaeth uchel. Caiff amser gwarchodedig ei neilltuo i bob aelod o'r staff er mwyn iddynt fynychu cwrs wythnos o hyd oddi ar y safle. Mae materion o ran rheolwyr sydd oddi ar ddyletswydd, y gallu i gael gafael ar hyfforddwyr a chyfleusterau hyfforddi yn golygu nad oes modd rhoi'r dull hwn ar waith cyn mis Mawrth 2023. Tan i'r wythnos astudio ddechrau, bydd y staff yn parhau i fynychu diwrnodau astudio gorfodol ar y dyddiadau a drefnwyd eisoes ar eu cyfer a chaiff 7.5 awr o amser gwarchodedig ei neilltuo i'r rheini â gofynion hyfforddi ar-lein er mwyn iddynt ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol.

### Llwybrau Gofal

Cawsom wybod am ddigwyddiadau lle na chafwyd ymateb amserol ac effeithiol i argyfyngau obstetrig. Mewn rhai o'r achosion hyn, roedd y menywod a'r babanod wedi cael niwed difrifol a chatastroffig. Roedd hyn yn cynnwys achos lle roedd (Wedi'i olygu) .

Mewn achos arall, cawsom wybod gan aelod o staff na ddilynwyd y canllawiau a argymhellwyd (wedi'i olygu) yn dilyn digwyddiad clinigol yn y theatr.

Oherwydd lefelau staffio, hyfforddiant a diffygion o ran cymorth ar lefel uwch, ni chawsom sicrwydd fod y staff yn gallu ymateb yn ddiogel ac yn gyflym i risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chleifion. Cawsom wybod am y canlynol a gwelsom enghreifftiau ohonynt:

- Nid oedd y trefniadau ar gyfer rheoli'r llwybrau ar gyfer cleifion cynenedigol, genedigol ac ôl-enedigol yn ddigonol ac nid oeddent yn galluogi'r staff i deimlo'n hyderus wrth uwchgyfeirio ac ymdrin â menywod yn ddiogel ac yn effeithiol

Nid oedd y llwybrau yn glir ac o ganlyniad, roedd y staff yn gweithio gyda menywod ôl-enedigol a chynenedigol yn yr un ardaloedd, ac weithiau, roeddent yn ymdrin â menywod y cadarnhawyd eu bod yn y cyfnod esgor hefyd. Roedd niferoedd staffio isel hefyd yn gwaethygu'r sefyllfa hon.

Dywedwyd wrthym gan sawl aelod o'r staff nad oedd y prosesau uwchgyfeirio yn hawdd i'w dilyn. Roedd hyn yn peri risg i'r cleifion.

Cawsom wybod pan oedd menywod y cadarnhawyd eu bod yn y cyfnod esgor ar yr uned ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor (IOL), eu bod yn cael meddyginiaeth fel pethidine a ddefnyddir ar ôl cadarnhau'r cyfnod esgor. Nid oedd y lefel staffio ar yr uned honno yn bodloni'r lefelau sydd eu hangen er mwyn gallu rhoi cymorth un i un i fenywod y cadarnhawyd eu bod yn y cyfnod esgor. Roedd hyn yn peri risg sylweddol i'r menywod, y babanod a'r staff.



Roedd problemau sylweddol o ran argaeledd cotiau i fabanod newyddenedigol. Roedd hyn yn effeithio ar allu'r uned i ysgogi'r cyfnod esgor ac i gynnal triniaethau toriadau cesaraidd am resymau diogelwch oherwydd diffyg argaeledd. O ganlyniad, roedd menywod a oedd yn aros am driniaethau toriadau cesaraidd yn wynebu oedi hir, gan olygu nad oedd y menywod hynny yn cael bwyta nac yfed unrhyw beth a'u bod yn cael eu gadael yn aml am gyfnodau hir heb unrhyw fwyd na diod.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau bod menywod yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd diogel ac amserol os bydd eu cyflwr yn gwaethygu

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau y caiff pob menyw y cadarnhawyd ei bod yn y cyfnod esgor ei nodi'n briodol ac mewn modd amserol er mwyn gwneud yn siŵr y caiff ei gofal ei uwchgyfeirio ac y caiff gymorth un i un.

Cafodd y Canllawiau ar gyfer Ysgogi'r Cyfnod Esgor (IOL) eu hadolygu a'u cadarnhau'n ddiweddar yn y Fforwm Proffesiynol Mamolaeth (MPF) a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2022 (mae cofnodion y Fforwm i'w gweld yn atodiad 16) er mwyn darparu dull safonol ar gyfer uwchgyfeirio achosion sy'n gysylltiedig ag ysgogi'r cyfnod esgor, a chaiff y canllawiau hyn eu hategu drwy ddatblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Trosglwyddo Menywod yn Ddiogel ac mewn modd Amserol o'r Ward Ysgogi i'r Uned a Arweinir gan Obstetreg. Yn ogystal, ceir Canllawiau ar gyfer Trosglwyddo o'r Uned Bydwagedd Gysylltiedig Cafodd y diweddariad canllaw misol ei rannu â phob aelod o'r staff a'i gynnwys yng Nghylchlythyr y Goruchwylydd ar gyfer Bydwagedd (atodiad 18).

Bydd ymwybyddiaeth o'r polisiau hyn bellach yn rhan o'r holl hyfforddiant sefydlu i aelodau newydd o staff. Caiff polisiau a phrotocolau diwygiedig eu lanlwytho i'r porth clinigol ar gyfer canllawiau mamolaeth er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch. Bydd y Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd yn darparu sesiynau datblygu i helpu staff i fod yn ymwybodol o'r canllawiau hyn a'u darllen a'u deall a gofynnir i'r staff lofnodi i gadarnhau eu bod wedi cael y diweddariad hwn.

Yn ystod arolygiad AGIC, nododd y staff nad oedd y llwybrau uwchgyfeirio yn glir. Mewn ymateb i hyn, datblygwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Uwchgyfeirio ac fe'i rhannwyd â phob aelod o'r staff (atodiad 19). Nod y Weithdrefn Weithredu Safonol yw cynnig canllaw uwchgyfeirio cyflym sy'n hygyrch i bob aelod o'r staff. Mae cynnwys y Weithdrefn yn seiliedig ar ganllaw 2022 ar gyfer Ysgogi'r Cyfnod Esgor (atodiad 17) ac mae'n tynnu sylw at y ffaith ei bod yn ofynnol i fenywod sy'n cael pethidine ar y ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod geni gael CTG cyn iddynt gael y pethidine a'i bod yn ofynnol eu monitro gan ddefnyddio dull Clustfeinio Ysbeidiol (IA) o gyfradd curiad calon y ffetws (FHR) bob awr. Bu'r mesur hwn ar waith ers 2016 a cheir tystiolaeth ohono yng nghanllaw 2021 ar gyfer Ysgogi'r Cyfnod Esgor (atodiad 21).

Gwnaed penderfyniad hefyd mai dim ond ar gyfer archwiliadau anodd drwy'r wain ac wrth drosglwyddo menywod i'r ystafelloedd geni y dylid defnyddio Entonox. Dim ond pan gaiff gofal un i un ei ddarparu y gellir defnyddio Entonox yn barhaus. Cynhelir archwiliadau o nodiadau achos ddwywaith y flwyddyn er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r protocolau hyn. Cafodd hyn ei gyfleu i'r staff drwy negeseuon e-bost, briffiad diogelwch, dulliau dysgu bwrdd gwaith drwy'r goruchwylwyr ar gyfer bydwragedd a thrwy ddiweddariadau cyfathrebu gan y Pennaeth Bydwreigiaeth.

Os bydd unrhyw oedi wrth ddarparu gofal neu wrth drosglwyddo o'r ward ar gyfer Ysgogi'r Cyfnod Esgor, yna rhaid rhoi gwybod i'r Rheolwr Bydwreigiaeth ar alwad. Bydd y Rheolwr Bydwreigiaeth yn gyfrifol am roi gwybod i'r rheolwr safle ar alwad. Mae manylion am y timau ar alwad bellach ar gael ym mhob ardal glinigol i'r staff eu gweld os bydd angen uwchgyfeirio achos. Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer Uwchgyfeirio yn gweithio ochr yn ochr â'r cardiaid / canllaw Uwchgyfeirio Mamolaeth (atodiad 20).

Cynhelir archwiliad o achosion o oedi wrth ddarparu gofal bob blwyddyn ac mae archwiliad ôl-weithredol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i adolygu 30 set o nodiadau. Caiff y canfyddiadau eu cyflwyno yn ystod cyfarfod Archwilio a Llywodraethu mis Chwefror a bydd y broses yn parhau bob blwyddyn.

Caiff staff eu hatgoffa fod canllawiau uwchgyfeirio ar gefn siartiau MEWS. Caiff staff eu hatgoffa drwy neges e-bost ac ychwanegir y wybodaeth at y Briffiad Diogelwch. Mae'r uned newyddenedigol a'r uned famolaeth yn casglu gwybodaeth ddyddiol am gapasiti a lefelau staffio. Caiff y wybodaeth hon ei chyflwyno i'r Rheolwr Safle ac i'r Tîm Gweithredol.

Mae'r uned newyddenedigol a'r uned famolaeth yn casglu gwybodaeth ddyddiol am gapasiti a lefelau staffio. Caiff y wybodaeth hon ei chyflwyno i'r Rheolwr Safle ac i'r Tîm Gweithredol. Ceir enghraifft o'r adroddiad SITREP Mamolaeth dyddiol yn atodiad 22. Caiff y wybodaeth ei rhannu â'r Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio, y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Prif Swyddog

Gweithredu, a'r Tîm Llif Cleifion. Caiff y risgiau eu trafod a'u cynnwys yn y SITREP sefydliadol ehangach a bydd y tîm gweithredol yn ymateb gan ddibynnu ar lefelau'r risgiau ac unrhyw gamau lliniaru sy'n bodoli eisoes.

Ers mis Tachwedd 2022, cafodd y SITREPs eu rhannu'n rheolaidd â'r Tîm Gweithredol, ac ers y cyfnod hwnnw, mae'r garfan newydd o fydwragedd wedi dechrau yn eu swyddi, gan leihau rhywfaint o'r pwysau ar y staff. Yn y gorffennol, pan ystyriwyd nad oedd lefelau staffio yn ddiogel, gwnaed penderfyniad i gau'r gwasanaethau geni gartref ac i ganoli'r gwasanaethau mamolaeth.

Caiff sgrym ddyddiol ei chynnal rhwng arweinwyr clinigol ym maes Obstetreg a gwasanaethau Meddygol a Nyrsio / Bydwagedd Newyddenedigol er mwyn cynllunio ar gyfer risgiau, lliniaru ar eu cyfer a'u huwchgyfeirio mewn modd amserol. Ceir tystiolaeth o'r sgrymiau yn yr adroddiad SITREP ar gyfer mamolaeth a babanod newyddenedigol.

Penodwyd Bydwraig Ysgogi'r Cyfnod Esgor yn 2022 a bydd ei rôl yn cynnwys goruchwyllo ac archwilio'r broses ysgogi ac uwchgyfeirio. Caiff cynllun archwilio ei ddatblygu i roi sicrwydd ac i oruchwyllo'r broses a chaiff canlyniadau archwiliadau eu cyflwyno yn ystod cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Clinigol. Mae proffil rôl y fydwrraig arweiniol ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor i'w weld yn atodiad 23.

**Arweinydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Amserlen: Parhaus**

### Yr Hyn sydd Angen ei Wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau y caiff gofal ôl-ddadebru digonol a phriodol ei roi yn unol â chanllawiau cenedlaethol i unrhyw fenywod a babanod y mae angen rhoi unrhyw lefel o ddadebru iddynt.

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ei Bolisi Gofal Ôl-ddadebru penodol ei hun ond mae'n defnyddio canllawiau Cynnal Bywyd Uwch Cyngor Dadebru'r DU sydd hefyd yn ymdrin â gofal ôl-ddadebru - Algorithm Gofal Ôl-ddadebru i Oedolion 2021. Caiff polisi dadebru'r BIP ei ddiwygio i gynnwys canllawiau Cyngor Dadebru'r DU ar ofal ôl-ddadebru.

**Arweinydd: Uwch-nyrs y Gwasanaethau Dadebru**

**Amserlen: Chwefror 2023**

Mae hyfforddiant PROMPT yn cynnwys Ataliad y Galon ymysg Mamau. Er mwyn gwella gwybodaeth am ofal ôl-dadebru, caiff yr Algorithm Gofal Ôl-ddadebru Cynnal Bywyd Uwch ei gynnwys yn y senario ar gyfer Ataliad y Galon ymysg Mamau ar gyrsiau PROMPT. Mae'n bwysig nodi na fyddai'r canllaw hwn wedi bod yn berthnasol i'r achos y tynnwyd sylw ato yn ystod yr arolygiad.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r posibilrwydd o ddatblygu canllaw lleol yn dilyn cywasgu'r frest yn ystod bradycardia rhwng llawdriniaethau. Diben hyn yw cynnwys ECG 12 gwifren ac atgyfeirio'r achos i'r adran gardioleg os bydd yn abnormal, yn ogystal â chynnal pelydr-X o'r frest os ceir canlyniad abnormal i'r weithdrefn glustfeinio neu os amheuir bod asennau wedi torri. Byddai hyn wedi bod yn ofal priodol ar gyfer yr achos a drafodwyd.

**Arweinydd: Cyfarwyddwr Clinigol**

**Amserlen: Chwefror 2023**

### Atal a Rheoli Heintiau

Nid oedd y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau er mwyn diogelu menywod, babanod a staff rhag y risg o haint yn ddigonol ac roedd pobl yn wynebu risg o niwed sylweddol. Nodwyd y canlynol gennym:

- Roedd yr amgylchedd ar gyfer rhoi gofal a thriniaeth ym mhob ardal yn dangos ôl traul a budreddi ac nid oedd yn lân. Gwelsom fod ardaloedd y theatr a'r ystafelloedd ar gyfer rhoi gofal a thriniaeth yn amlwg yn fudr, ac roedd y budreddi hynny'n edrych yn debyg i waed a hylifau'r corff. Nodwyd hyn mewn ardaloedd lle nad oedd cleifion.
- Roedd archwiliadau amgylcheddol yn dangos patrwm parhaus o achosion o ddiffyg cydymffurfio â safonau atal a rheoli heintiau hanfodol. Roedd y cyfraddau cydymffurfiaeth islaw 80% yn gyson. Ni chawsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod camau gweithredu wedi cael eu cymryd, eu holrhain a'u monitro o ganlyniad i'r materion hyn.
- Roedd ardaloedd y coridorau yn anniben ac yn llawn cyfarpar a malurion. Roedd hylifau glanhau a throfiâu wedi'u gadael allan heb eu cloi. Roedd hyn yn peri risg sylweddol o niwed i unrhyw un a fyddai'n ymweld â'r uned.
- Nid oedd archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Cwblhawyd yr archwiliad diwethaf ym mis Awst 2022.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau y caiff menywod a babanod eu diogelu rhag heintiau y gellid eu hosgoi.

Mewn ymateb i ganfyddiadau AGIC, cynhaliodd y Tîm Cadw Tŷ Ymateb Cyflym raglen o waith glanhau estynedig ym mhob rhan o'r ôl troed clinigol mamolaeth ac obstetreg ar 12 a 13 Tachwedd 2022. Mae archwiliadau glanhau ychwanegol wedi'u trefnu.

**Arweinydd: Pennaeth Cyfleusterau**

**Amserlen: Wedi'i gwblhau**

Gwnaed newidiadau i'r rota cadw tŷ er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r adran.

**Arweinydd: Pennaeth Cyfleusterau**

**Amserlen: Wedi'i gwblhau**

Mae'r Tîm Gwastraff Amgylcheddol wedi symud yr holl gyfarpar a oedd yn cael ei gadw yn y coridorau a'r holl gyfarpar a oedd wedi'i ddifrodi ac wedi cael gwared arno. Archebwyd cadeiriau a dodrefn newydd a rhoddwyd seddi dros dro lle roedd eu hangen.

**Arweinydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Amserlen: Wedi'i gwblhau**

Caiff archwiliadau hylendid misol eu cynnal a'u cyflwyno yn ystod y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch misol.

**Arweinydd: Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol ar gyfer Plant a Menywod**

**Amserlen: Wedi'i gwblhau**

Caiff archwiliadau eu cynnal bob mis gan y tîm Atal a Rheoli Heintiau ac mae Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol hefyd yn cerdded o amgylch yr amgylchedd ac yn cynnal archwiliadau Tendable yn rheolaidd

**Arweinydd: Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol ar gyfer Plant a Menywod**

**Amserlen: Wedi'i gwblhau**

Mae rhaglen o archwiliadau safonol craidd Tendable yn cael ei theilwra ar hyn o bryd ar gyfer yr Uwch-dîm Bydwreigedd.

**Arweinydd: Nyrsio Corfforaethol**

**Amserlen: Ionawr 2023**

Bydd y llwyfan archwilio digidol a gaffaelwyd yn ddiweddar, sef Tendable, yn helpu'r tîm uwch-reolwyr i oruchwylio archwiliadau atal a rheoli heintiau rheolaidd yn well. Caiff sgoriau glanhau wardiau eu hychwanegu at Tendable (atodiad 24).

**Arweinydd: Uwch-dîm Bydwreigiaeth**

**Amserlen: Wedi'i gwblhau**

## Cyfarpar

Nid oedd gwiriadau sylfaenol yn cael eu cynnal ar gyfarpar hanfodol gan gynnwys cyfarpar dadebru.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau bod yr holl gyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Atgyfnerthwyd y trefniadau ar gyfer gwirio, glanhau ac ailgyflenwi cyfarpar mamolaeth hanfodol, yn enwedig y dadebrwr, mewn ymateb i ganfyddiadau AGIC. Yn dilyn arolygiad AGIC, cafodd y rhestrau gwirio eu hadolygu a'u symleiddio. Mae'r rhestrau gwirio a oedd yn bodoli eisoes a'r rhestrau gwirio newydd wedi'u cynnwys yn atodiad 25. Cynhaliwyd archwiliad diweddar o gydymffurfiaeth â gwiriadau dyddiol a gwelwyd gwelliant sylweddol. Mae'r canlyniadau hyn hefyd i'w gweld yn atodiad 25.

Mae cyfrifoldeb ar bob bydwaig i wirio'r cyfarpar yn yr ystafelloedd y mae'n eu defnyddio bob dydd neu ar ôl eu defnyddio. Pan na fydd ystafelloedd wedi cael eu defnyddio am ddiwrnod llawn, gofynnir i fydwaig benodol ymgymryd â'r gwiriadau hyn.

Caiff cydymffurfiaeth â rhestrau gwirio'r dadebrwr ei monitro gan yr Uwch-fydwaig neu'r Pennaeth Bydwreigiaeth drwy lwyfan archwilio Tendable.

**Arweinydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Amserlen: Parhaus**

### Arweinyddiaeth a Llywodraethu

Canfyddiadau Ni chawsom sicrwydd fod y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ar lefel leol nac ar lefel y bwrdd yn sicrhau goruchwyliaeth na rheolaeth ddiogel mewn perthynas â diogelwch yn y gwasanaeth mamolaeth. Roedd hyn yn cynnwys diffyg cysylltiad, yn ôl pob golwg, rhwng arweinwyr is-adrannol a staff rheng flaen:

Roedd ôl-groniadau sylweddol wrth reoli digwyddiadau ac ymdrin â nhw. Roedd hyn yn golygu nad oedd y gwersi i'w dysgu yn cael eu rhoi ar waith mewn modd amserol ac effeithiol er mwyn lleihau'r risg y byddai'r digwyddiad yn digwydd eto.

Roedd terfynau amser estynedig wedi'u pennu ar gyfer ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol ac nid oedd yr adolygiadau cychwynnol bob amser yn nodi materion pwysig er mwyn gallu dysgu ohonynt ar unwaith. Roedd hyn yn amlwg mewn un digwyddiad diweddar lle y bu farw baban newyddanedig.

Nid oedd y camau gweithredu a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith o ganlyniad i ddigwyddiadau difrifol bob amser yn cael eu rhoi ar waith a'u rheoli'n effeithiol. Roedd un enghraifft o hyn yn deillio o ddigwyddiad diweddar a arweiniodd at niwed catastroffig. Ni ddylid cau'r llenni o amgylch menywod ar y ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor os nad oeddent yn cael eu monitro. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y llenni yn cael eu cau fel mater o drefn, ac nad oedd staff yn monitro'r menywod yn ddigon aml i atal digwyddiad o'r fath rhag digwydd eto.

Dywedodd staff o wahanol broffesiynau gofal iechyd wrthym fod y lefelau staffio ar gyfer y bydwagedd, y meddygon a'r staff ategol yn aml yn llawer is na'r lefelau disgwylidig a'r lefelau diogel. Er bod y bwrdd iechyd wedi cydnabod hyn, ni lwyddwyd i liniaru'r lefel risg gysylltiedig a achoswyd gan y sefyllfa yn ddigonol. Roedd hyn yn cynyddu'r risg y byddai menywod a babanod yn cael niwed y gellid ei osgoi. Mae'r enghreifftiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

Gwelsom lefelau staffio isel iawn yn y tîm bydwreigiaeth a'r tîm meddygol, a chlywsom am enghreifftiau o hynny.

Yn aml, nid oedd digon o staff ar yr uned i gynnal safonau diogelwch sylfaenol. Cawsom wybod yn aml nad oedd y cyflenwad gofynnol o 24 o fydwragedd ar draws yr unedau yn cael ei fodloni a'i fod weithiau mor isel ag 17, sef 70% o'r lefel ofynnol.

Roedd BirthRate plus ar gael i bennu lefelau staffio. Fodd bynnag, cawsom wybod yn aml nad oedd y lefelau hyn yn cael eu cyrraedd gan nad oedd cymysgedd sgiliau digonol ar gael. Cawsom wybod am enghreifftiau lle roedd aelodau iau o staff wedi cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd cymhleth nad oeddent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer ac nad oedd ganddynt ddigon o brofiad i ymdrin â nhw. Dywedwyd wrthym mai dim ond un fydwraig oedd yn gweithio yn yr ardal ôl-enedigol weithiau, yn hytrach na thair. Roedd menywod cynenedigol yn yr ardal hon hefyd weithiau.

Roedd staff band 5 yn cael eu cynnwys yn y niferoedd er gwaethaf y ffaith eu bod yn ymgymryd â chyfnodau tiwtoriaeth dan oruchwyliaeth.

Dywedwyd wrthym mai dim ond un fydwraig oedd yn gweithio yn yr ardal ôl-enedigol weithiau, yn hytrach na thair. Roedd menywod cynenedigol yn yr ardal hon hefyd weithiau.

Dywedodd y staff meddygol eu bod yn aml yn gorfod ymgymryd â gwahanol rolau meddygol h.y. roedd uwch-staff yn ymgymryd â rolau staff iau ar y rota ar alwad oherwydd problemau staffio difrifol. Roedd hyn yn cynnwys tair swydd hyfforddi wag o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth nad oeddent wedi'u llenwi.

Darparwyd tystiolaeth i ddangos bod lefelau staffio isel wedi cyfrannu at ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â diogelwch cleifion. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys digwyddiad lle cafodd y gwaed anghywir ei drallwysu i'r claf anghywir.

Cawsom wybod fod bydwagedd ag arbenigedd ym maes rheoli achosion risg isel yn aml yn cael cyfarwyddyd i weithio mewn ardaloedd risg uchel, gan beri mwy o risg yn y pen draw i'r menywod, y babanod a'r staff eu hunain. Roedd hyn yn cynnwys adegau lle roedd bydwagedd cymunedol yn gweithio gyda menywod yr oedd angen gofal dibyniaeth uchel arnynt.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau bod prosesau a systemau llywodraethu effeithiol ar waith rhwng y wardiau a'r bwrdd er mwyn gwneud yn siŵr y caiff risgiau eu nodi a'u lliniaru.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau y caiff digwyddiadau a'r gwersi cysylltiedig i'w dysgu eu cofnodi, yr ymchwilir iddynt ac y cânt eu rhannu mewn modd amserol.

Mewn ymateb i adroddiad Ockenden, lluniwyd adroddiad sicrwydd yn defnyddio graddau Coch Melyn a Gwyrdd gan feincnodi yn erbyn yr 89 o gamau gweithredu y mae angen eu cymryd ar unwaith. Sefydlwyd Grŵp Goruchwyllo mamolaeth o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, er mwyn adolygu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn. Mae aelodau ychwanegol o'r tîm gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y grŵp hwn. Ceir copi o adroddiad sicrwydd Ockenden yn atodiad 26 a 27 a cheir enghreifftiau o agendâu'r Grŵp Goruchwyllo Mamolaeth a Babanod Newyddenedigol o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol yn atodiad 28

### **Arweinydd: Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Nyrsio**

### **Amserlen: Parhaus**

Oherwydd achosion o absenoldeb salwch tymor hir ac absenoldeb mamolaeth, mae'r Gyfarwyddiaeth Mamolaeth ac Obstetreg un haen yn brin o hyfforddeion meddygol. Cafodd y risg gysylltiedig ei lliniaru drwy gynyddu cyfraddau locwm ar bob haen, defnyddio staff o asiantaethau locwm allanol a lle y bo'n bosibl, gynyddu ymrwymadau ar alwad ein hyfforddeion academaidd, ymchwil a ffrwythlondeb. Weithiau, mae'n rhaid i feddygon ymgynghorol weithredu ar lefel is er mwyn llenwi bylchau yn unol â chontract Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi dechrau cynnal trafodaethau ag AaGIC er mwyn sicrhau dyraniad teg o



hyfforddeion ar draws byrddau iechyd. Cafodd pum swydd ar gyfer meddygon iau nad ydynt yn hyfforddeion eu hysbysebu a bydd y Bwrdd Iechyd yn talu cyflogau'r unigolion a gaiff eu penodi i'r swyddi hynny. Ar hyn o bryd, penodwyd unigolion i dair swydd. Meddygon rhyngwladol yw'r tri ohonynt (nid oedd unrhyw ymgeiswyr o'r DU). Mae oedi sylweddol rhwng adeg penodi'r meddygon hyn a'r adeg y byddant yn dechrau yn eu swydd oherwydd trefniadau mewnfudo. Unwaith y byddant yn eu swydd, bydd angen eu cefnogi a'u hasesu hefyd cyn y gallant gyfrannu at ein rotas ar alwad. Rydym yn barod i dderbyn unrhyw awgrymiadau o ran sut y gallwn wella'r sefyllfa hon ymhellach.

### **Arweinydd: Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol**

### **Amserlen: Parhaus**

Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a'r Bwrdd wedi cael briffiad llafar llawn ar y sefyllfa o ran mamolaeth a chafodd canfyddiadau uniongyrchol y cynllun gwella eu rhannu yn y ddwy sesiwn breifat, sef y drefn arferol hyd nes y caiff adroddiadau AGIC eu cyhoeddi. Ar ôl eu cyhoeddi, cyflwynir yr adroddiad a'r cynllun gwella llawn i'r pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cyhoeddus a chaiff cynnydd ei fonitro drwy'r pwyllgor.

Mae llwyfan Tendable wedi bod ar waith yn yr uned famolaeth ers mis Tachwedd 2022 ac ers hynny, cynhaliwyd 24 o archwiliadau er mwyn goruchwyllo safonau atal a rheoli heintiau a safonau craidd. Mae'r Tîm Gweithredol yn goruchwyllo pob archwiliad a gynhelir ar Tendable.

Mae Swyddog Cyfrifol wedi'i ddynodi ar gyfer pob ymchwiliad sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion erbyn hyn ac mae pob ymchwiliad ar y trywydd cywir i gael ei gwblhau o fewn yr amserlen benodedig. Cynhelir cyfarfodydd bob mis i drafod ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion er mwyn adolygu pob digwyddiad y mae angen rhoi gwybod amdano ar lefel genedlaethol (NRI). Caiff y digwyddiadau hyn eu rhannu yn ystod sesiynau Ansawdd a Diogelwch a sesiynau Archwiliadau Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Clinigol er mwyn monitro cynnydd ag ymchwiliadau a'r cynlluniau gwella cysylltiedig a rheoli cyfyngiadau. Caiff cynnydd a chyfyngiadau eu trafod bob mis fel rhan o adolygiadau'r Bwrdd Clinigol / Tîm Gweithredol.

Mae wyth digwyddiad y mae angen rhoi gwybod amdanynt ar lefel genedlaethol yn destun ymchwiliad yn y Gwasanaethau Mamolaeth. Cafodd tri eu cwblhau ers yr arolygiad. O'r digwyddiadau y mae angen rhoi gwybod amdanynt ar lefel genedlaethol sydd ar agor o hyd, mae pedwar ymchwiliad wedi mynd y tu hwnt i'r dyddiad cwblhau disgwylidig ac mae'r Uned Gyflawni yn aros am yr adroddiadau cysylltiedig. Mae tri o'r ymchwiliadau hyn ar fin cael eu cwblhau a disgwylir i'r adroddiadau gael eu cyflwyno i'r Uned Gyflawni yn ystod mis Ionawr 2023. Mae'r pedwerydd yn cael ei gynnal gan ymchwilwyr allanol a rhagwelir y caiff ei gwblhau yn y dyfodol agos.

Mae 16 o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion wedi'u cofnodi fel digwyddiadau na chawsant eu hadolygu o fewn 30 diwrnod. Ar adeg yr arolygiad, roedd dros 200 o ddigwyddiadau o'r fath. Mae Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol a'r Arweinydd Risg a Llywodraethu yn darllen ac yn adolygu pob digwyddiad ar ôl cael gwybod amdanynt ac mae'r tîm clinigol yn goruchwyllo ac yn rheoli pob digwyddiad.

Er mwyn helpu i glirio'r ôl-groniad o achosion Datix a sicrhau y caiff digwyddiadau eu hadolygu mewn modd amserol ac y caiff gwersi eu dysgu ohonynt, cafodd y Tîm Llywodraethu ei gynyddu i gynnwys Bydwraig Datix band 6 a Dirprwy Brif Nyrs band 6 ar gyfer yr ystafelloedd geni. Caiff cyfarfodydd Datix eu cynnal bob wythnos i drafod pob digwyddiad ac i nodi achosion y mae angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod risg glinigol tîm amlddisgyblaethol y Gyfarwyddiaeth a gynhelir bob pythefnos.

Rhoddyd canllawiau cynllunio swyddi newydd y bwrdd iechyd sy'n awgrymu y dylid neilltuo hanner sesiwn yr wythnos fel rhan o gynlluniau swyddi eu rhoi ar waith er mwyn gwella capasiti staff Obstetreg i gefnogi ymchwiliadau sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion. Adolygwyd cynlluniau swyddi staff Obstetreg i gynnwys y sesiynau hyn. Mae tair sesiwn ar gyfer Obstetreg ac un sesiwn ar gyfer gwasanaethau babanod newyddenedigol bellach ar waith.

**Arweinydd: Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol ar gyfer Plant a Menywod**

**Amserlen: Parhaus**

Cafodd hyfforddwy'r rhaeadru eu nodi a'u hyfforddi mewn cymwyseddau trallwysu gwaed. Caiff pob aelod o'r staff ei hyfforddi erbyn 30 Rhagfyr 2022

**Arweinydd: Bydwraig Datblygu Ymarfer**

**Amserlen: Parhaus**

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar gymwysterau addas ac sydd wedi cael hyfforddiant addas ar gael ar bob shift yn y gwasanaeth mamolaeth.

Y cyflenwad gofynnol o fydwragedd yn seiliedig ar asesiad BirthRate+ 2019 yw 244 o aelodau o staff rheng flaen band 5-7 Cyfwerth ag Amser Cyflawn. Yn ystod mis Gorffennaf, Awst a Medi, roedd 24 o swyddi gwag cyfwerth ag amser cyflawn yn yr

adran, ac roedd lefelau absenoldeb salwch tymor byr yn uwch oherwydd COVID-19. Er mwyn lliniau'r pwysau hyn ar lefelau staffio, cafodd bydwagedd anghlinigol eu symud i weithio yn yr ardaloedd clinigol.

Ym mis Hydref 2022, ymunodd 26.4 o fydwragedd newydd gymhwys cyfwerth ag amser cyflawn â'r BIP. Ymgwymerodd y bydwagedd hyn â chyfnod sefydlu o 4 wythnos a cheir enghraifft o'r cyfnod sefydlu yn atodiad 29. O 24 Hydref 2022, daeth yr aelodau newydd o staff yn rhan o'r niferoedd o fydwragedd a oedd ar gael i'w cynnwys yn y rhestrau gweithio ar gyfer shifftiau rheng flaen. Ar hyn o bryd, mae cyflenwad o 246.4 o fydwragedd cyfwerth ag amser cyflawn, sef 2.46 o fydwragedd cyfwerth ag amser cyflawn dros y nifer gofynnol. Ar hyn o bryd, mae 10 bydwraig cyfwerth ag amser cyflawn ar absenoldeb mamolaeth a disgwylir i wyth bydwraig arall cyfwerth ag amser llawn ddechrau eu habsenoldeb mamolaeth yn 2023.

Er mwyn sicrhau lefelau staffio diogel, cytunwyd y dylai'r Gyfarwyddiaeth barhau â'i hymdrechion recriwtio parhaus a phenodi y tu hwnt i'r cyflenwadau y cytunwyd arnynt er mwyn darparu cadernid yn y gweithle a lliniaru effeithiau cyfnodau sylweddol o absenoldeb mamolaeth. Rydym yn ystyried y posibilrwydd o recriwtio bydwagedd o dramor ar hyn o bryd. Mae atodiad 30 yn cynnwys y data recriwtio bydwagedd.

#### **Arweinydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

#### **Amserlen: Parhaus**

Er mwyn cefnogi'r ardaloedd clinigol yn ystod cyfnodau lle ceir lefelau staffio isel neu lefelau aciwtedd uchel, rhoddwyd rota uwchgyfeirio ar waith ar gyfer y bydwagedd anghlinigol. Ceir copi o rota fis Rhagfyr yn atodiad 30.

#### **Arweinydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

#### **Amserlen: Parhaus**

Rydym wedi cael nifer o sgysiau ag AaGIC i ystyried y cyfleoedd ar gyfer derbyn nifer uwch o fyfyrwyr a derbyn dwy garfan bob blwyddyn er mwyn lleihau'r heriau recriwtio. Byddai angen cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Er mwyn ymateb i lefelau staffio bydwreigiaeth isel, cafodd y Gwasanaethau Geni Gartref eu hatal a chafodd yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd ei chau am gyfnod o amser. Yn ogystal, cafodd gwasanaethau cymunedol eu canoli a chynigiwyd cyfraddau goramser uwch i staff a symudwyd bydwagedd band 6 profiadol i gefnogi ardaloedd lle roedd angen gofal ar fenywod ag anghenion cymhleth. O ganlyniad, gofynnwyd i staff a fyddai fel arfer wedi bod yn gweithio mewn ardaloedd risg isel fel y gwasanaethau cymunedol weithio yn y ward esgor. Cynhelir asesiadau risg parhaus o aciwtedd gwasanaethau mamolaeth er mwyn llywio'r penderfyniadau hyn, a chaiff y broses ei goruchwyllo gan y Bwrdd.

Mae pob bydwaig wedi cael hyfforddiant priodol ac yn gymwys i weithio ym mhob rhan o'r uned famolaeth. Caiff bydwagedd eu neilltuo i ran benodol o'r uned am gyfnod penodol, ond mae pob un ohonynt wedi'u cyflogi ar gontract cylchdroi. Mae'n well gan fydwagedd weithio mewn rhan benodol o'r uned ac er mwyn osgoi cael eu cylchdroi, byddant o bosibl yn awgrymu nad ydynt yn gymwys i weithio mewn ardal glinigol benodol. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i ddatblygu cynllun gwaith blynyddol lle y bydd pob bydwaig yn cylchdroi drwy bob maes clinigol yn ystod cyfnod o 12 mis.

Mae'r gweithlu presennol a'r cymysgedd sgiliau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at waith cenedlaethol i ddeall rôl Ymarferwyr Cynorthwyol Band 4 ac mae'n dibynnu ar gyfarwyddeb genedlaethol

**Arweinydd: Pennaeth Bydwreigiaeth**

**Amserlen: Parhaus**

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: Suzanne Rankin**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd: Prif Weithredwr**

**Dyddiad: derbyniwyd drwy Objective Connect 23 Rhagfyr 2022**

# Atodiad C - Cynllun gwella ar unwaith (Mawrth 2023)

Gwasanaeth: Ysbyty Athrofaol Cymru - Uned Famolaeth

Dyddiad yr arolygiad: 27, 28 a 29 Mawrth 2023

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p> <p>storio meddyginiaethau a ddefnyddir yn yr uned famolaeth yn ddiogel er mwyn helpu i atal achosion o fynediad heb awdurdod iddynt</p> <p>dangos bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar dymheredd priodol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr</p>	Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Rhodddwyd system mynediad TDSI ar waith gan ystadau/diogelwch er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod i ystafell anestheteg T2 lle mae'r cyffuriau brys ar gyfer gwaedlifau yn cael eu storio yn yr oergell.</p> <p>Cafodd y broses o gofrestru pob aelod o staff Band 7 ar system Tendable a gofyn iddynt gwblhau archwiliadau wythnosol ym mhob rhan o'r uned famolaeth (gan gynnwys archwiliad o dymhereddau oergelloedd) eu trafod yn y cyfarfod Band 7 ar 4 Ebrill 2023.</p> <p>Bydd yr uwch-dîm yn goruchwyllo'r archwiliadau a gaiff eu cwblhau.</p> <p>Datblygwyd archwiliad mamolaeth ar Tendable sy'n cynnwys diogelwch meddyginiaethau a'r safonau craidd eraill.</p> <p>Mae pob bydwraig band 7 weithredol sy'n ymdrin â chleifion mewnol bellach wedi'i</p>	<p>Diogelwch</p> <p>Tîm yr Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>wedi'i gwblhau</p>

<p>dangos bod Cyffuriau a Reolir yn cael eu gwirio'n rheolaidd.</p>		<p>chofrestru ar Tendable. Er mwyn atgyfnerthu'r cam gweithredu hwn ymhellach, gofynnwyd i gydgyssylltwyr band 7 yr ystafelloedd geni gofrestru ar Tendable hefyd a chaiff y broses hon ei chwblhau erbyn 8 Mai 2023.</p> <p>Cafodd rheolwyr Band 7 a chydgyssylltwyr shifftiau'r ystafelloedd geni eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb dros gynnal y gwiriadau diogelwch meddyginiaethau saith diwrnod yr wythnos. Caiff cyfarfodydd 1:1 eu cynnal bob mis gan Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth â'r bydwragedd Band 7 Gweithredol i drafod cydymffurfiaeth barhaus a chymau gwella</p>	<p>Bydwragedd Arweiniol Gweithredol ar gyfer pob maes a Thîm yr Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p>	<p>30 Ebrill 2023 - ar ôl cael mis llawn i ystyried cydymffurfiaeth</p>
---	--	---	--	---

#### Canfyddiadau

##### Diogelwch -

Ar 27, 28 a 29 Mawrth 2023, nododd AGIC nad oedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ym mhob rhan o'r uned famolaeth.

Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio yn y ddau gwpwrdd ac oergell yn yr ystafell anesthetig nad oedd wedi'i chloi yn T2, lle nad oedd dull mynediad â chardiau llithro ar waith

Nid oedd clo a oedd yn gweithio ar yr oergell meddyginiaethau yn ystafell amlbwrpas eitemau glân y ward ôl-enedigol ac roedd drws yr ystafell amlbwrpas, er bod bysellbad â chod arni, wedi'i gadw ar agor drwy gydol yr arolygiad.

Nid oedd adrenalin yn cael ei storio'n ddiogel yn yr Uned a Arweinir gan Fydwagedd, er i'r staff fynd ati i selio'r blwch yn ystod yr arolygiad.

Mae Cod Meddyginiaethau'r bwrdd iechyd a ddarparwyd i AGIC yn cyfeirio at storio meddyginiaethau yn ddiogel; mae'n nodi bod angen cloi cypyrddau ac oergelloedd pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

---

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod meddyginiaethau a gaiff eu storio ar yr Uned Famolaeth, a ddylai gael eu storio mewn cwpwrdd y gellir ei gloi neu oergell y gellir ei chloi, yn cael eu storio mewn ffordd addas i leihau'r risg o fynediad heb awdurdod. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion ac unigolion eraill a all gael gafael ar feddyginiaeth nad yw ar eu cyfer a'i llyncu.

Storio -

Ar 27 Mawrth 2023, nododd AGIC nad oedd y gwiriadau dyddiol o dymereddau'r oergelloedd bob amser wedi cael eu cofnodi ar gyfer oergelloedd ym mhob rhan o'r Uned Famolaeth. Er enghraifft, roedd pedwar bwlch yng nghofnodion oergell y Gogledd ar gyfer mis Chwefror 2023, ac roedd naw bwlch yng nghofnodion oergell y ward esgor ar gyfer mis Chwefror a naw bwlch ar gyfer mis Mawrth 2023. Roedd y cofnodion a sganiwyd ar gyfer tymereddau'r oergelloedd ar gyfer mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2023 yn nodi nad oedd y duedd o beidio â chofnodi tymereddau'r oergelloedd bob dydd wedi gwella yn ystod y cyfnod hyd at fis Mawrth 2023.

Mae'r Cod Meddyginiaethau a ddarparwyd i AGIC yn cyfeirio at oergelloedd meddyginiaethau. Mae'r cod yn nodi (6.1.6) bod yn rhaid monitro a chofnodi tymereddau oergelloedd meddyginiaethau bob dydd.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod tymereddau'r oergelloedd meddyginiaethau ar yr uned famolaeth yn cael eu monitro'n barhaus i gadarnhau a dangos bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar dymheredd priodol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant cleifion y byddant o bosibl yn cael meddyginiaethau nad ydynt wedi cael eu storio'n briodol ac felly na fyddant o bosibl mor effeithiol wrth eu trin.

Cyffuriau a Reolir -

Ar 27 Mawrth 2023, gwelodd AGIC fod y Cyffuriau a Reolir yn cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd gwiriadau stoc dyddiol o'r Cyffuriau a Reolir yn ardal yr Ystafelloedd Geni bob amser wedi cael eu cofnodi. Gwelsom wyth bwlch yn y cofnodion ar gyfer mis Mawrth 2023. Mae Cod Meddyginiaethau'r bwrdd iechyd a ddarparwyd i AGIC yn nodi bod yn rhaid cysoni balansau stoc yr holl Gyffuriau a Reolir o leiaf unwaith bob dydd a bod yn rhaid cofnodi'r broses.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gwiriadau o'r Cyffuriau a Reolir ar yr uned famolaeth yn cael eu cynnal bob dydd yn unol â Chod Meddyginiaeth y bwrdd iechyd ac er mwyn hybu trefniadau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli'r cyffuriau hyn yn unol â'r gofynion rheoliadol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Safon/ Rheoliad

Cam gweithredu'r gwasanaeth

Swyddog cyfrifol

Amserlen

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddefnyddio biniau offer miniog yn ddiogel</p>	<p>Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Cynhaliwyd adolygiad o'r holl finiau offer miniog sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon ofynnol</p> <p>Mae Cod Meddyginiaethau'r BIP bellach wedi'i gyhoeddi ar WISDOM (adnodd canllawiau) ac ar dudalen SharePoint y staff.</p> <p>Rhannwyd gwybodaeth am ddyddiadau defnyddio ar flychau offer miniog drwy'r briffiadau diogelwch ym mhob rhan o'r uned famolaeth. Caiff y broses o wirio blychau offer miniog ei chynnwys fel rhan o archwiliadau Tendable.</p>	<p>Tîm yr Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p> <p>Bydwraig Ymgynghorol a'r Fydwraig Ddigidol</p> <p>Bydwragedd arweiniol gweithredol ar gyfer pob ardal</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
---	--	--	---	---

## Canfyddiadau

### Gwastraff -

Ar 27 a 28 Mawrth 2023, gwelodd AGIC finiau offer miniog gorllawn heb ddyddiadau arnynt ym mhob rhan o'r uned famolaeth. Yn yr uned a arweinir gan fydwragedd, gwelsom fin offer miniog llawn â dyddiad 28 Hydref 2021 arno. Cafwyd gwared â'r bin hwn ar 29 Mawrth 2023 a rhoddwyd dyddiadau priodol ar y biniau offer miniog eraill a chafwyd gwared arnynt os oeddent yn llawn.

Roedd y Weithdrefn ar gyfer Rheoli Offer Miniog a ddarparwyd i AGIC yn disgrifio'r prosesau ar gyfer labelu, storio ac ailarchebu cynwysyddion offer miniog yn ddiogel.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod biniau offer miniog yn yr uned famolaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn ddiogel yn unol â gweithdrefn y bwrdd iechyd. Ni chawsom sicrwydd fod y risg gysylltiedig y caiff cleifion ac ymwelwyr â'r ward eu croes-heintio neu eu hanafu wedi'i lliniaru cymaint â phosibl.



<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i hyrwyddo trefniadau effeithiol ar gyfer atal a rheoli heintiau a dihalogi.</p>	<p>Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Cafodd rheolwyr Band 7 eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb o ran cynnal archwiliadau a gwiriadau atal a rheoli heintiau. Caiff cyfarfodydd 1:1 eu cynnal bob mis gan Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth â'r bydwragedd Band 7 Gweithredol i drafod cydymffurfiaeth barhaus a chamau gwella.</p> <p>Caiff pob aelod o staff Band 7 ei gofrestru ar system Tendable. Datblygwyd archwiliad mamolaeth ar Tendable sy'n cynnwys atal a rheoli heintiau a'r safonau craidd eraill. Mae pob bydwraig band 7 weithredol sy'n ymdrin â chleifion mewnol bellach wedi'i chofrestru ar Tendable. Er mwyn atgyfnerthu'r cam gweithredu hwn ymhellach, gofynnwyd i gydgyssylltwyr band 7 yr ystafelloedd geni gofrestru ar Tendable hefyd a chaiff y broses hon ei chwblhau erbyn 8 Mai 2023.</p> <p>Caiff gohebiaeth ei dosbarthu drwy friffiadau diogelwch, negeseuon e-bost a chaiff ei chynnwys fel rhan o sesiynau goruchwyllo grŵp er mwyn atgoffa pob aelod o'r staff o'i gyfrifoldeb i sicrhau</p>	<p>Tîm yr Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p> <p>Tîm yr Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p> <p>Rheolwr Band 7 yr Ystafelloedd Geni, cydgysylltwyr Band 7 a'r tîm Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>wedi'i gwblhau</p> <p>wedi'i gwblhau</p>
---	--	---	---	---

	<p>safonau glendid uchel wrth adael ystafell ac wrth fynd i mewn i ystafell yn ardal yr Ystafelloedd Geni. Caiff hapwiriadau glendid wythnosol eu cynnal.</p> <p>Anfonwyd neges e-bost at bob aelod o'r staff ar 4 Ebrill</p>	<p>Bydwragedd, wedi'u goruchwyllo gan y tîm uwch-reolwyr.</p>	
	<p>Caiff gwiriadau atal a rheoli heintiau eu cynnwys fel rhan o archwiliadau Tendable.</p>	<p>Arweinwyr gweithredol Band 7</p>	<p>wedi'i gwblhau</p>
	<p>Trafodwyd y mater â'r brifysgol er mwyn sicrhau y dylid cynnwys safonau a gwerthoedd craidd gan gynnwys atal a rheoli heintiau a dihalogi fel rhan o hyfforddiant er mwyn gwneud yn siŵr y caiff ei gydnabod fel blaenoriaeth ymhlith bydwragedd newydd gymhwyso. Cafodd prosesau glanhau a gwirio eu hychwanegu at y rhaglen sefydlu tiwtoriaeth a hyfforddiant SSSA.</p>	<p>Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer gwasanaethau cleifion allanol, bydwragedd PEF a PDM</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

#### Canfyddiadau

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom arolygu amgylchedd yr Uned Famolaeth. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod prosesau effeithiol ar waith nac yn cael eu dilyn i atal heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd.

Ar 29 Mawrth 2023, mewn tair ystafell eni wag ar y ward eni, gwelsom waed a budredd amlwg ar fysellfyrdau cyfrifiaduron, comodau budr, dadebrwyr babanod budr, gwaed a budredd ar y llawr yn ogystal â budredd ar y droriau.

Nid oedd labeli â dyddiadau arnynt yn cael eu defnyddio fel mater o drefn ym mhob rhan o'r uned famolaeth i ddangos pan oedd cyfarpar wedi cael ei lanhau a'i ddihalogi.

Ar 27 Mawrth 2023, dyddiad mis Tachwedd 2022 oedd wedi'i nodi ar yr amserlen lanhau ar y ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor ac ni ellid dod o hyd i unrhyw restr wirio ar gyfer mis Mawrth 2023.

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i sicrhau bod yr holl gyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn cael ei wirio'n rheolaidd</p>	<p>Safon 2.9 Dyfeisiau, Cyfarpar a Systemau Diagnostig Meddygol</p>	<p>Penodwyd unigolyn i swydd stoc a chyfarpar meddygol yn ddiweddar a bydd yr unigolyn hwn yn gyfrifol am oruchwyllo'r holl gyfarpar meddygol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu a bod safonau dihalogi yn cael eu cyrraedd.</p> <p>Disgwylir i bob rheolwr gweithredol Band 7, pob dirprwy reolwr ward a chydgysylltwyr Band 7 yr ystafelloedd geni gofrestru ar Tendable er mwyn iddynt allu cynnal archwiliadau o gyfarpar meddygol.</p> <p>Datblygwyd archwiliad mamolaeth ar Tendable sy'n cynnwys gwirio cyfarpar a'r safonau craidd eraill</p> <p>Mae pob bydwraig band 7 weithredol sy'n ymdrin â chleifion mewnol bellach wedi'i chofrestru ar Tendable. Er mwyn atgyfnerthu'r cam gweithredu hwn ymhellach, gofynnwyd i gydgyssylltwyr band 7 yr ystafelloedd geni gofrestru ar Tendable hefyd a chaiff y broses hon ei chwblhau erbyn 8 Mai 2023.</p>	<p>Tîm yr Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p> <p>Uwch-reolwyr gwasanaethau Cleifion Mewnol a Chleifion Allanol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
---	---	--	---	---

		Cyfarfod i atgoffa rheolwyr Band 7 o'u cyfrifoldeb i sicrhau y cynhelir gwiriadau cyfarpar. Penodir bydwaig band 6 ar bob shiftt ym mhob ardal i fod yn gyfrifol am yr holl wiriadau dyddiol.	Uwch-reolwyr gwasanaethau Cleifion Mewnol a Chleifion Allanol	Wedi'i gwblhau
		Cyfarfod ag arweinwyr ymarferwyr yr adran weithredu i gytuno ar broses ar gyfer gwirio diffibrilwyr ar T2. Rhannwyd canfyddiadau AGIC â rheolwr ymarferwyr yr Adran Weithredu yn y prif theatrau er mwyn gallu eu dosbarthu ymhellach.	Bydwaig arweiniol T2	Wedi'i gwblhau

#### Canfyddiadau

Ar 27 Mawrth 2023, nododd AGIC nad oedd y gwiriadau dyddiol o'r cyfarpar mamolaeth hanfodol, gan gynnwys dadebrwyr a diffibrilwyr, bob amser wedi cael eu cofnodi bob dydd ym mhob rhan o'r Uned Famolaeth. Roedd y rhestr wirio yn T2 ar gyfer mis Mawrth 2023 yn dangos nad oedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal yn gyson ar gyfer y diffibriliwr. Nid oedd y rhestr wirio ddyddiol ar gyfer y cyfarpar brys ar gyfer mis Mawrth ar y ward ôl-enedigol, a welsom ar 27 Mawrth, wedi'i chwblhau ar gyfer 8, 9, 10, 18, 21 a 22 Mawrth 2023. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal i nodi diffygion ar gyfarpar y gallai fod ei angen mewn argyfwng.

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i sicrhau diogelwch cleifion ac i sicrhau y gellir trosglwyddo cleifion yn gyflym ac yn ddiogel rhwng gwahanol rannau o'r Uned Famolaeth mewn argyfwng meddygol.</p>	<p>Safon 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Caiff adroddiad ar y lifftiau ei anfon bob dydd at dîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth i'w hysbysu am statws y lifftiau mamolaeth.</p> <p>Mae gweithdrefn weithredu safonol wrthi'n cael ei datblygu er mwyn sicrhau ymateb safonol os bydd lifftiau'r gwasanaethau mamolaeth yn methu. Bydd y weithdrefn yn helpu i drosglwyddo pob menyw sy'n cael triniaeth i ysgogi'r cyfnod esgor i T2 er mwyn cael gofal parhaus. Caiff pob menyw yn yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd (MLU) y mae eu gofal yn destun uwchgyfeirio posibl ei throsglwyddo i T2 a chynhelir trafodaeth â phob menyw ar yr uned i esbonio goblygiadau'r lifftiau yn methu ac i gytuno ar leoliad eu gofal. Bydd y weithdrefn weithredu safonol yn dynodi llwybrau amgen a'r gofynion ar gyfer hebrwng menywod.</p> <p>Anfonwyd y weithdrefn ddrafft uchod at bob aelod o staff bydwreigiaeth a staff meddygol ar 18 Ebrill 2023.</p> <p>Caiff ei chymeradwyo yn ein Fforwm Proffesiynol Mamolaeth lleol ar 10/05/2023</p>	<p>Uwch-dîm Arwain a Phennaeth Ystadau</p> <p>Bydwraig Ymgynghorol ar gyfer yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd a'r Uwch-fydwraig ar gyfer yr Ardal Cleifion Mewnol</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>wedi'i gwblhau</p>
---	--	--	---	---

		<p>Trafod y posibilrwydd o swyddogaeth i droi i weithredu â llaw â gwneuthurwyr y lifftiau.</p> <p>Rhodddwyd ‘allwedd ynysu’ ar gyfer lifft 9 i'r uned famolaeth sy'n golygu os mai dim ond un lifft fyddai'n gweithio yna byddai gennym reolaeth lwyr dros y lifft er mwyn sicrhau y gallwn drosglwyddo menywod mewn modd diogel ac amserol os bydd angen.</p> <p>Er mwyn sicrhau y caiff cleifion eu trosglwyddo'n gyflym ac yn y modd mwyaf amserol o'r llawr gwaelod (MLU) i'r Ystafelloedd Geni, nodwyd llwybr clir y gellir ei gerdded drwy'r ysbyty ac mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohono. Os bydd pob lifft yn torri, cynhelir asesiad risg unigol ar gyfer pob menyw ar yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd (a'u hopsiynau gofal) ar y pryd yn unol â'r Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer lifftiau mamolaeth.</p> <p>Mae'r lifftiau wedi cael eu cynnwys ar Gofrestr Risg y Gyfarwyddiaeth a chafodd y mater ei uwchgyfeirio i'r Bwrdd Clinigol a'r Tîm Gweithredol. Bydd rheolwr yr uned famolaeth yn rhoi diweddariad dyddiol i'r tîm gweithredol.</p>	<p>Bydwraig arweiniol ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor a'r Uwch-fydwraig ar gyfer yr Ardal Cleifion Mewnol</p> <p>Bydwraig Ymgynghorol, Bydwraig Arweiniol Weithredol ar gyfer yr Uned a Arweinir gan Fydwragedd a'r Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer gwasanaethau Cleifion Allanol</p> <p>Uwch-dîm Arwain</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
--	--	---	--	---

--	--	--	--	--

## Canfyddiadau

### Lifft

Ar 27 - 29 Mawrth, nododd AGIC nad oedd tri o'r pedwar lifft ar gyfer yr uned famolaeth yn gweithio. Roedd hyn yn golygu bod risg o oedi i gleifion y byddai angen eu trosglwyddo ar frys i'r uned eni neu'r theatr (llawr 2) o rannau eraill o'r uned famolaeth a risg y byddai'r unig lifft a oedd yn gweithio o hyd yn methu. Disgrifiwyd llwybr amgen fel llwybr posibl i'w ddefnyddio mewn argyfwng; ond roedd y llwybr hwn yn hwy a byddai'n rhaid i'r menywod fynd drwy rannau cyhoeddus o'r ysbyty. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod cynlluniau amserol ar waith i sicrhau diogelwch ac urddas y menywod a'r babanod pe na fyddai unrhyw un o'r lifftiau yn gweithio yn yr uned.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i roi sicrwydd bod	Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data	Bydd rhestrau ar gyfer triniaethau toriadau Cesaraid dewisol yn cael eu hargraffu o hyd, ond cânt eu cadw bellach mewn ffolder yn y troli nodiadau cleifion y gellir ei gloi ar T2, sy'n golygu	Bydwraig Arweiniol Weithredol T2	Wedi'i gwblhau
--	--	---	----------------------------------	----------------

dogfennaeth yn cael ei storio'n unol â'r GDPR		<p>nad oes modd i gleifion ac ymwelwyr eu gweld.</p> <p>Caiff cydymffurfiaeth ag e-ddysgu ym maes Llywodraethu Gwybodaeth ei gwella i 100%.</p> <p>Atgoffwyd pob aelod o'r staff o'i gyfrifoldeb i storio nodiadau meddygol yn ddiogel.</p>	<p>Bydwragedd Arweiniol Gweithredol ar gyfer pob ardal</p> <p>Bydwragedd Arweiniol Gweithredol ar gyfer pob ardal a'r Tîm Uwch-reolwyr</p>	<p>Diwedd Ebrill 2023</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
---	--	---	--	---

#### Canfyddiadau

#### Cofnodion y cleifion

Ar 28 Mawrth 2023 yn T2 ar ddesg hygyrch, gwelsom restr theatr lawn a oedd yn cynnwys gwybodaeth bersonol fanwl am y cleifion a fyddai'n cael triniaeth toriad cesaraidd. Ar 28 Mawrth 2023, gwelsom sgrin gyfrifiadurol ar ddesg ar y ward a oedd yn cynnwys gwybodaeth bersonol fanwl am bob claf ar y ward, y gallai ymwelwyr a oedd yn cerdded heibio ei gweld. Ar 27 Mawrth 2023, gwelsom nodiadau cleifion (heb aelod o staff gerllaw) a oedd wedi'u gadael ar silff ffenestr a nodiadau cleifion wedi'u gadael ar ddesg nad oedd aelod o staff wrthi.

Ar 29 Mawrth 2023, yn ystafell amlbwrpas eitemau glân heb ei chloi y ward drosiannol, gwelsom restr lawn o'r cleifion ar y ward, yn cynnwys gwybodaeth bersonol gan gynnwys enwau llawn, y rheswm dros eu derbyn i'w ward, gan gynnwys hanes meddygol y fam a'r baban. Er mai ystafell i'r "staff yn unig" oedd yr ystafell hon, roedd y drws wedi'i gadw ar agor a byddai modd i ymwelwyr/cleifion a oedd yn cerdded heibio fynd i mewn iddi.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod gwybodaeth gyfrinachol am gleifion yn cael ei defnyddio a'i storio'n unol â'r GDPR.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i storio hylifau glanhau yn ddiogel.	Safon 3.1 Gofal diogel ac effeithiol	Cyflwynwyd cais i'r adran ystadau osod cloeon ar ddrysau cypyrddau yn yr ystafelloedd amlbwrpas eitemau brwnt yn ardal yr Ystafelloedd Geni. Unwaith y	Uwch-reolwr Gwasanaethau Cleifion Mewnol	Diwedd mis Ebrill 2023
--	--------------------------------------	--	--	------------------------



		bydd hynny wedi'i wneud, caiff yr hylifau glanhau eu storio'n ddiogel.		
--	--	--	--	--

## Canfyddiadau

### Hylifau glanhau

Ar 27, 28 a 29 Mawrth 2023, gwelsom fod hylifau glanhau yn cael eu storio yn yr ystafell amlbwrpas eitemau brwnt heb ei chloi yn yr Uned Eni. Nid oedd clo ar ddrws yr ystafell hon ac roedd yr hylifau glanhau yn hygyrch i unrhyw un a fyddai'n mynd i mewn i'r ystafell honno.

Ni chafodd AGIC sicrwydd bod hylifau glanhau niweidiol a gaiff eu storio ar yr Uned Famolaeth, a ddylai gael eu storio mewn cwpwrdd y gellir ei gloi neu ystafell y gellir ei chloi, yn cael eu storio mewn ffordd addas i leihau'r risg o fynediad heb awdurdod. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion ac unigolion eraill a all gael gafeael ar yr hylifau glanhau.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (priflythrennau):**

**Andy Jones**

**Teitl swydd:**

**Cyfarwyddwr Nyrso'r Bwrdd Clinigol**

**Dyddiad:**

**06 Ebrill 2023**

## Atodiad D - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Uned Famolaeth, Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**Dyddiad yr arolygiadau:** 8, 9 a 10 Tachwedd 2022 a 27, 28 a 29 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddiweddarau'r arwyddion cyfeirio i bob un o'r wardiau mamolaeth o bob un o fynedfeydd yr ysbyty	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Gofynnir i'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth a ailffurfiwyd yn ddiweddar, sef Llesiau Mamolaeth a Rhieni Babanod Newyddenedigol (MNPV), gerdded drwy safle'r ysbyty i'r uned famolaeth er mwyn nodi unrhyw ardaloedd lle y gellir gwella'r arwyddion a mynediad. Bydd unrhyw arwyddion a gaiff eu diweddarau yn ddwyieithog, gan gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg.	Uwch-dîm Arwain Bydwreigiaeth a staff yr adran ystadau	Medi 2023
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu a diweddarau amgylchedd y ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor er mwyn sicrhau y caiff	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Mae'r ward ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor yn cynnwys naw gwely ac mae'n rhan o ôl troed y ward gynenedigol.	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer	Wedi'i gwblhau

preifatrwydd ac urddas y cleifion eu parchu		Cafodd dwy ystafell ochr eu creu gan ddefnyddio gofod swyddfa er mwyn gwneud yn siŵr y gall menywod yn ystod camau cyntaf y cyfnod esgor gael gofal unigol mewn amgylchedd preifat sy'n cynnig urddas iddynt.	Gwasanaethau Cleifion Mewnol	
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau mai dim ond pan na fydd unrhyw ddewis arall y caiff carfanau cleifion cymysg eu defnyddio.	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Ers yr arolygiad diwethaf, cafodd dwy ystafell sengl eu creu i gleifion cynnedigol ar y ward gynnedigol drwy symud swyddfeydd i rannau eraill o'r uned. Mae hyn wedi lleihau'r risg y bydd carfanau cleifion cymysg. Os bydd angen cymysgu cleifion, caiff asesiad risg unigol yn seiliedig ar anghenion ei gwblhau, a chaiff lefelau staffio eu haddasu'n unol â hynny.	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer Gwasanaethau Cleifion Mewnol a'r Pennaeth Bydwreigiaeth	Wedi'i gwblhau
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob asesiad risg perthnasol ar gyfer briwiau pwysu a niwed i feinweoedd yn cael ei gwblhau pan fo hynny'n ofyniad clinigol.	Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Datblygwyd gweithdrefn weithredu safonol er mwyn sicrhau y cynhelir asesiadau risg ar gyfer briwiau pwysu a niwed i feinweoedd ar gleifion mamolaeth gan ddefnyddio adnodd asesu risg Purpose-T.	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer Gwasanaethau Cleifion Mewnol	Mae'r camau gweithredu wedi'u cwblhau a byddant yn parhau

		<p>Datblygwyd cynlluniau gofal unigol ar gyfer mamlaeth ar y cyd â'r gwasanaethau Hyfywedd Meinweoedd er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel. Mae posterï iechyd y cyhoedd wedi'u teilwra'n benodol yn rhan o'r weithdrefn weithredu safonol, er mwyn addysgu teuluoedd sut y gellir atal briwiau pwyso yn ystod eu cyfnod yn yr uned famolaeth. Caiff y weithdrefn weithredu safonol ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2023 ynghyd â rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i'r staff.</p>		
<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff menywod â phroblemau iechyd meddwl eu holi'n rheolaidd am eu hiechyd meddwl drwy gydol eu gofal</p>	<p>Safon 2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p>	<p>Pan fydd menywod a phobl feichiog yn dod i'r uned am y tro cyntaf, bydd y fydwraig gymunedol a neilltuwyd ar eu cyfer yn cwblhau ymgynghoriad cyntaf. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, caiff asesiad risg cyntaf ac adran atgyfeirio eu cwblhau fel rhan o gofnod Cynenedigol Cymru Gyfan. Nod y broses hon yw nodi unrhyw ffactorau risg iechyd meddwl sylweddol, gan gynnwys problemau iechyd meddwl difrifol y mae angen atgyfeirio'r claf at y tîm iechyd meddwl amenedigol</p>	<p>Bydwraig Ymgynghorol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd, bydwragedd ELAN a'r Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer gwasanaethau Cleifion Allanol</p>	<p>Diwedd 2023</p>

ac obstetregydd arbenigol ar eu cyfer. Mae adran ychwanegol sy'n sgrinio ar gyfer problemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. Mae'n annog y fydwraig i ofyn cwestiynau 'Whooley', sef adnodd wedi'i ddilysu ar gyfer sgrinio ar gyfer iechyd meddwl cynenedigol ac ôl-enedigol. Wedyn caiff y ddau gwestiwn hyn eu haddasu i greu 'cwestiwn bywydau mwy diogel', sef 'yn ystod y pythefnos diwethaf, a wnaethoch deimlo ei bod hi'n amhosibl i chi beidio â phryderu neu i chi ymdopi â'ch pryderon' a gaiff ei ofyn yn ystod pob ymgynghoriad cynenedigol. Caiff unrhyw ddatgeliadau sy'n cadarnhau teimladau o'r fath eu hatgyfeirio naill ai at y tîm iechyd meddwl amenedigol neu'r fydwraig anghenion iechyd emosiynol er mwyn cael cymorth pellach. Caiff yr ymatebion hyn eu cynnwys fel rhan o archwiliadau dogfennaeth.

Os daw menyw i'r uned â phroblemau iechyd meddwl sylweddol yn ystod unrhyw gam yn ystod ei beichiogrwydd, yna caiff cynllun gofal cymhleth ei ddatblygu ar y cyd â'r fydwraig arbenigol ar

gyfer iechyd meddwl amenedigol, y tîm iechyd meddwl amenedigol a'r obstetregydd yn ystod camau cyntaf y beichiogrwydd. Wedyn, caiff y cynllun hwn ei addasu erbyn cyrraedd 36 wythnos o'r cyfnod beichiogrwydd er mwyn sicrhau y caiff gofal priodol ei roi yn ystod y cyfnod cynenedigol, yn ystod yr enedigaeth ac yn ystod y cyfnod ar ôl yr enedigaeth. Caiff pob achos ysgafn i gymedrol ei gefnogi gan y fydwraig anghenion iechyd emosiynol a'r seicolegydd sy'n rhan o'r tîm iechyd meddwl amenedigol. At hynny, i fenywod sy'n mynychu'r clinig llesiant i fenywod sy'n cefnogi goroeswyr arferion niweidiol ac i fenywod sy'n ceisio noddfa, mae seicolegydd dynodedig ar gael i roi cymorth wrth iddynt baratoi ar gyfer yr enedigaeth a'r cyfnod ar ôl yr enedigaeth.

Mae pob aelod o'r staff mamolaeth yn mynychu diwrnodau astudio gorfodol, sy'n gwella eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgrinio ar gyfer problemau iechyd meddwl yn ystod y cyfnod cynenedigol a'r cyfnod ôl-enedigol ac yn rhoi gwybod pa wasanaethau

		<p>cymorth pellach sydd ar gael i fenywod a'u teuluoedd. Caiff y diwrnodau astudio hyn eu hwyluso gan y bydwagedd arbenigol a'r tîm iechyd meddwl amenedigol.</p> <p>Llwyddwyd i gael gafael ar gyllid i recriwtio seicolegydd llawn amser i helpu menywod â thrawma geni, tocoffobia neu fenywod sydd wedi colli baban. Bydd y seicolegydd yn gysylltiedig â'r fydwraig iechyd emosiynol a gall y fydwraig gymunedol a neilltuwyd i'r claf gyflwyno atgyfeiriadau uniongyrchol pan gaiff datgeliadau eu gwneud drwy'r broses sgrinio ym mhob apwyntiad. Disgwylir i'r broses recriwtio ar gyfer y swydd hon gael ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.</p>		
Adolygu a diweddarau capasiti gwasanaethau ELAN a'r gwasanaethau i Fenywod sy'n Ceisio Noddfa gan ystyried y llwyth gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyfforddiant	Safon 7.1 Y Gweithlu	Caiff llwythi achosion eu hadolygu'n rheolaidd, ac mae aelodau iau o dîm ELAN yn cael eu cefnogi i uwchsgilio yn y meysydd mwy arbenigol (e.e. Menywod sy'n ceisio noddfa) er mwyn gallu cynllunio	Bydwraig Ymgynghorol ar gyfer lechyd y Cyhoedd a'r Uwch-reolwr ar gyfer	Parhaus

		<p>olyniaeth ac er mwyn sicrhau llwythi achosion priodol. Mae'r diwrnodau astudio gorfodol wedi aildechrau, gan gynnwys hyfforddiant gan fydwragedd arbenigol er mwyn uwchsgilio'r gweithlu ehangach. Mae seicolegydd penodedig hefyd ar gyfer y clinig llesiant i fenywod a fydd yn helpu i sicrhau bod y fydwraig arbenigol ar gyfer menywod sy'n ceisio noddfa a goroeswyr arferion niweidiol ar gael i ddarparu hyfforddiant rhaedru er mwyn uwchsgilio'r staff. Drwy gydweithio ag asiantaethau'r trydydd sector fel Bawso ac Oasis, mae cymorth pellach ar gael i'r gwasanaeth arbenigol hwn er mwyn sicrhau na chaiff y gwasanaeth hwn ei lethu. Mae cynlluniau i recriwtio Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd i roi cymorth i ELAN yn mynd rhagddynt.</p>	Gwasanaethau Cleifion Allanol	
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu lefelau staffio 24 awr y theatr	Safon 7.1 Y Gweithlu	Mae achos busnes yn cael ei ddatblygu ar gyfer model staffio ar gyfer theatrau mamolaeth a	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Diwedd 2023



<p>famolaeth yn unol ag arbenigeddau eraill a sicrhau lefelau staffio cyson er mwyn gwneud yn siŵr bod cleifion yn ddiogel.</p>		<p>fyddai'n sicrhau bod lefelau staffio obstetreg yn unol â safonau'r DU ar gyfer anaesthesia yn ystod llawdriniaethau, y Gymdeithas Ymarfer Amdriniaethol, Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain a safonau atal a rheoli heintiau lleol. Mae'r achos busnes hwn ar ffurf ddrafft ar hyn o bryd, ond unwaith y caiff ei gwblhau, caiff ei gyflwyno i'r bwrdd clinigol ei ystyried.</p>	<p>ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol</p>	
<p>Dylai'r bwrdd iechyd weithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod staff gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu i ymgymryd â gwaith goruchwyllo 24 awr ac i sicrhau na fydd angen i staff yr uned famolaeth ymgymryd â'r gwaith goruchwyllo hwn.</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae staff iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cytuno ar gynllun geni cynhwysfawr i bob menyw agored i niwed neu'r rhai hynny ag anghenion cymdeithasol cymhleth yn gynnar yn ystod eu beichiogrwydd sy'n sicrhau eu bod yn cael eu goruchwyllo 24 awr y dydd yn ystod y cyfnod ôl-enedigol.</p> <p>Os bydd menyw yn cael ei derbyn yn annisgwyl e.e. beichiogrwydd cudd neu fenyw sy'n cael ei derbyn o'r tu allan i'r ardal leol, caiff y sefyllfa ei uwchgyfeirio i Dîm</p>	<p>Bydwraig Ymgynghorol ar gyfer lechyd y Cyhoedd a Theuluoedd Agored i Niwed</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

		<p>Dyletswydd Brys y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn gallu ei goruchwyllo y tu allan i oriau cyn gynted â phosibl. O dan unrhyw amgylchiadau, os na ellir lleoli'r baban o fewn terfyn amser derbyniol, yna caiff y mater ei uwchgyfeirio i'r tîm gweithredol a'r tîm diogelu drwy'r hwb cymorth amlasiantaethol.</p> <p>Mae'r holl rifau cyswllt hanfodol ar gyfer materion diogelu ar gael ym mhob ardal glinigol.</p>		
Dylid cyfleu'r canllawiau ar gyfer partneriaid geni yn effeithiol yn ystod y cyfnod cynenedigol	Safon 1.1 Hybu, Diogelu a Gwella lechyd	<p>Diweddarwyd gwefan y Bwrdd lechyd i adlewyrchu'r canllawiau cyfredol a'r canllawiau diwygiedig.</p> <p>Mae'r sesiynau Addysg Gynenedigol yn cynnwys y wybodaeth hon.</p> <p>Mae'r bydwagedd cymunedol a bydwagedd clinig yn trafod y wybodaeth yn ystod apwyntiadau cynenedigol ac fel rhan o'r prosesau clercio</p>	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer Gwasanaethau Cleifion Allanol	Wedi'i gwblhau

		a roddir ar waith cyn triniaethau toriadau cesaraidd dewisol.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu cymryd ohonynt, a'u bod yn ystyrlon, yn gefnogol ac yn werthfawr.	Safon 7.1 Y Gweithlu	Lluniwyd rhestr o'r holl gyfarfodydd rheolaidd a gynhelir drwy'r calendr misol, ac mae ffeil ar gael fel rhan o'r gyriant a rennir er mwyn cadw'r holl gofnodion.	Uwch-dîm Arwain	Wedi'i gwblhau
Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff er mwyn llenwi'r swyddi gwag ar bob lefel	Safon 7.1 Y Gweithlu	Caiff swyddi gwag yn y gweithlu eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r broses symleiddio ar fin cael ei chwblhau ar gyfer 2023/24, ac mae pob swydd wag ar gyfer bydwragedd band 5 wedi'i llenwi (recriwtiwyd pedair nyrs drwy'r broses symleiddio ar gyfer 2023/2024). Mae gwaith i gadw staff yn cynnwys: Gwaith parhaus â'r Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwragedd a'r tîm rheoli i helpu staff yn eu gwaith, gan sicrhau y caiff ceisiadau ar gyfer cydbwyso bywyd a gwaith eu hystyried/bodloni. Rhoddir enwebiadau Greatix, adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau ac	Uwch-dîm Arwain a'r Tîm Gweithredol	Hydref 2023

		<p>adborth ar ymarfer cadarnhaol i aelodau unigol o'r staff yn rheolaidd. Mae rhaglenni datblygu ar gyfer gofal HDU, cydgysylltydd y ward esgor a rolau Band 4 yn cael eu hystyried. Roedd cynrychiolwyr o'r uned famolaeth yn bresennol mewn tri digwyddiad recriwtio ar gyfer y BIP yn ystod y 6 wythnos ddiwethaf, ac mae digwyddiadau pellach wedi'u trefnu ar gyfer yr haf.</p> <p>Ariannwyd swyddi meddygon ymgynghorol newydd ac mae unigolion wrthi'n cael eu recriwtio i'r swyddi hynny.</p> <p>Mae cynlluniau cylchdroi ar waith ar gyfer meddygon arbenigol er mwyn sicrhau cyflenwad llawn o staff meddygol.</p>	<p>Cyfarwyddwr Clinigol</p> <p>Cyfarwyddwr Clinigol</p>	<p>Awst 2023</p> <p>Medi 2023</p>
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu ac atgyfnerthu'r broses sefydlu ar gyfer bydwagedd newydd gymhwyso	Safon 7.1 Y Gweithlu	Cafwyd adborth gan garfan 2022/23 o fydwagedd newydd gymhwyso, ac mae'r adborth hwn wedi helpu i ddatblygu, diweddarau a sicrhau llif	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer Gwasanaethau Cleifion Allanol	Medi 2023 - Awst 2024

		<p>y rhaglen sefydlu a thiwtoriaeth ar gyfer 2023/24. Bydd pob aelod o staff a gaiff eu recriwtio drwy'r broses symleiddio yn cael neges e-bost i'w croesawu gan y Pennaeth Bydwreigiaeth cyn y dyddiad dechrau, caiff Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwagedd a bydwraig gyfeillio band 6 eu neilltuo iddynt a chânt becyn croeso. Bydd yr arferion presennol lle cynhelir sesiynau goruchwyllo grŵp a sesiynau galw heibio rheolaidd i gael cymorth yn parhau. Mae rôl bydwraig arweiniol ar gyfer tiwtoriaeth hefyd yn cael ei hystyried er mwyn ategu'r rhaglen.</p>	<p>a'r Fydwraig Datblygu Ymarfer</p>	
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd fonitro'r holl gyfraddau hyfforddiant gorfodol a rhoi blaenoriaeth i gyfraddau cydymffurfiaeth isel.</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Lluniwyd cronfa ddata fyw i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant er mwyn gallu gweld cyfraddau hyfforddiant. Yn dilyn ymgyrch ddiweddar i wella cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol, gwelwyd cynnydd ymhlith staff Birth Rate+ o 74.1% (Hydref 2022) i 83.78% (Ebrill 2023). Cafodd wythnosau astudio eu cyflwyno i'r staff er mwyn</p>	<p>Uwch-dîm Arwain a'r Fydwraig Datblygu Ymarfer</p>	<p>Parhaus</p>

		<p>darparu amser wedi'i neilltuo i gynnal lefelau cydymffurfiaeth cyffredinol.</p> <p>Mae targed ar gyfer y BIP cyfan i sicrhau lefel gydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant gorfodol o 85% erbyn mis Mehefin 2023.</p>		
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu cymryd egwylliau digonol yn ystod eu shifftiau</p>	Safon 7.1 Y Gweithlu	<p>Mae'r fydwraig sy'n gyfrifol am bob ardal yn sicrhau bod staff yn cymryd egwylliau yn ystod y shifft. Os bydd lefel aciwtedd uchel, caiff y mater ei uwchgyfeirio i'r uwch-reolwyr, ac wedyn caiff aelodau o staff anghlinigol eu defnyddio pan fydd y staff yn cymryd egwyl. Mae ffreutur a 'hafan staff' ar gael i'r staff eu defnyddio i gymryd egwyl o'r uned famolaeth os byddant am wneud hynny.</p>	<p>Rheolwyr gweithredol wedi'u goruchwyllo gan Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p>	Wedi'i gwblhau
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gweithdrefnau ar gyfer uwchgyfeirio materion staffio eu dilyn a'u cyfathrebu'n effeithiol.</p>	Safon 7.1 Y Gweithlu	<p>Cafodd y canllaw uwchgyfeirio a'r Weithdrefn Weithredu Safonol eu diweddarau a'u rhannu â phob aelod o'r staff drwy negeseuon e-bost ac ar dudalen SharePoint y staff er</p>	<p>Uwch-dîm Arwain</p>	Wedi'i gwblhau

		<p>mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r broses uwchgyfeirio.</p>		
<p><b>Adolygu effeithiolrwydd y rota ar alwad ar gyfer bydwragedd anghlinigol</b></p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Mae dull teg a chyson yn cael ei fabwysiadu pan fydd angen i bydwragedd anghlinigol helpu yn ystod cyfnodau aciwtedd uchel.</p> <p>Roedd angen hyfforddiant ychwanegol neu hyfforddiant gloywi clinigol ar rai aelodau o'r staff. Caiff yr anghenion hyn eu hadolygu bob mis.</p>	<p>Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ystyried y themâu a'r sylwadau a gafwyd gan staff mewn ymateb i arolwg AGIC ac i ymateb iddynt</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Rydym yn gwerthfawrogi adborth gan staff a defnyddwyr gwasanaethau yn fawr er mwyn helpu i wella. Caiff sesiynau adborth eu hwyluso gan yr uwch-dîm arwain tua adeg cyhoeddi adroddiad AGIC er mwyn trafod y canfyddiadau, yr adborth o'r arolygon a'r cynllun gweithredu a rhoi'r cyfle i'r staff leisio unrhyw bryderon neu gyflwyno syniadau.</p>	<p>Uwch-dîm Arwain</p>	<p>Awst 2023</p>

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gasglu adborth gan fyfyrwyr ac ymateb iddo fel y bo angen er mwyn gwella profiadau myfyrwyr</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Caiff cyfarfodydd eu cynnal bob pythefnos rhwng y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Fydwraig Arweiniol ar gyfer Addysg yn y brifysgol leol. Mae hyn yn cynnig cyfle i rannu adborth neu bryderon mewn modd amserol.</p> <p>Mae'r uwch-reolwyr yn mynychu digwyddiadau 'Caring for You' i fyfyrwyr</p> <p>a gynhelir yn rheolaidd gan Goleg Brenhinol y Bydwagedd drwy gydol y flwyddyn er mwyn gwrandao ar fyfyrwyr o'r 3 grŵp blwyddyn a rhannu gwybodaeth â nhw.</p>	<p>Uwch-dîm Arwain</p>	<p>Parhaus</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y broses arfarnu ei gwerthuso a'i bod yn ystyrlon i'r staff</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Ymgyrch ddiweddar i sicrhau y caiff cyfraddau PADR eu cwblhau mewn modd amserol. (32% Tachwedd 2022 - 67% Ebrill 2023), gyda'r bwriad o gynyddu cyfraddau ymhellach a'u cynnal.</p> <p>Bydd arolygon staff Coleg Brenhinol y Bydwagedd bellach yn cynnwys cwestiynau</p>	<p>Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p>	<p>Haf 2023</p>



		<p>sy'n ymwneud â manteision ac ystyrlondeb proses PADR/arfarnu at ddibenion archwilio.</p> <p>Mae arfarniadau yn orfodol i hyfforddeion meddygol a chaiff y broses ei harwain gan AaGIC fel rhan o'r broses o gynnal Adolygiadau Blynyddol o Ddatblygiad Cymhwysedd. Caiff arfarniadau ar gyfer pob aelod o'r staff meddygol iau eu hwyluso drwy sesiynau goruchwyllo addysgol. Mae'n ofynnol i oruchwylwyr addysgol gael eu hyfforddi i gynnal arfarniadau a cheir adborth gan feddygon iau drwy arolwg blynyddol y Cyngor Meddygol Cyffredinol.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff trefniadau i'r staff gamu ymlaen yn eu gyrfa eu gwerthuso a'u cyfleu'n glir i'r staff</p>	<p>Safon 7.1 Y Gweithlu</p>	<p>Caiff pob swydd wag a phob cyfle i gamu ymlaen eu hysbysebu drwy wefan Trac. Caiff y dolenni hefyd eu hanfon drwy e-bost at y staff, a'u rhoi ar dudalen cyfryngau cymdeithasol y staff er mwyn gwneud yn siŵr bod staff yn</p>	<p>Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

		ymwybodol o gyfleoedd i gamu ymlaen.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal asesiadau risg o ddefnydd partneriaid geni o sgrybs / PPE effeithiol gan ystyried gweithdrefnau rheoli heintiau a diweddarau arferion er mwyn gwneud yn siŵr na chaiff diogelwch cleifion mewn theatrau ei roi yn y fantol.	Safon 2.4  Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	<p>Gall partneriaid geni wisgo eu dillad eu hunain â gynau tafladwy drostynt. Rhaid iddynt hefyd wisgo masgiau a gorchuddion pen fel y gwelir yn y lluniau atodedig. Mae'r trefniadau hyn wedi'u cymeradwyo o ran atal a rheoli heintiau.</p> <p>Gwnaed gwaith ar Heintiau Croen a Ffurfiad y Croen Cymhleth (CSSI) ar y cyd â Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHAIP) ac mae ein hadroddiadau CSSIs ar gael i'w gweld hyd at 2021.</p> <p>Cydymffurfir â'r gofynion o ran bod yn Noeth o dan y Penelin a chaiff lefelau cydymffurfiaeth eu harchwilio bob wythnos drwy Tendable. Nid yw'r partneriaid geni yn mynd i'r ardal wedi'i diheintio nac yn agos i'r ardal honno, ac felly mae'r risg y byddant yn halogi'r ardal lawfeddygol yn isel iawn.</p>	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol a'r Tîm caffael	Wedi'i gwblhau



Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi adborth i'r staff am themâu, sylwadau a chanmoliaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau

Safon 6.3 Gwrando ar Adborth a Dysgu Ohono

Mae trefniadau ar waith ac yn mynd rhagddynt drwy amrywiaeth o lwyfannau; cyfarfodydd Band 7 Gweithredol a briffiadau diogelwch dilynol i raeadru'r wybodaeth ymhellach. Caiff themâu a thueddiadau eu hanfon at bob aelod o'r staff ar ffurf neges e-bost bob mis, caiff straeon a themâu gan gleifion eu cyflwyno drwy gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch a'r Fforymau Proffesiynol Mamolaeth bob mis, a gall pob aelod o'r staff fynychu'r cyfarfodydd hynny ar-lein a chael gfael ar y cofnodion.

Bydwraig Profiad

Wedi'i gwblhau

<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir defnyddio sylwadau gan gleifion i wella gwasanaethau</p>	<p>Safon 6.3 Gwrando ar Adborth a Dysgu Ohono</p>	<p>Penodwyd cadeirydd newydd ar gyfer Llesiau Mamolaeth a Rhieni Babanod Newyddenedigol (MNPV), sef Pwyllgor Cyswllt y Gwasanaethau Mamolaeth (MSLC) gynt. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol a defnyddwyr gwasanaethau a'i nod yw hwyluso trefniadau rhannu gwybodaeth dwyffordd er mwyn cael adborth, addysg a chymorth. Yn unol â fframwaith defnyddwyr gwasanaethau Cymru Gyfan.</p> <p>Yr adborth drwy'r ymgyrch 'Diolch i'ch bydwraig' yn ardal Caerdydd a'r Fro. Yn ogystal â Greatix, caiff adborth a geir drwy'r gwasanaeth Birth Afterthoughts, cyfarfodydd Risg a Llywodraethu a'r fydwraig profiad oll ei rannu naill ai'n uniongyrchol ag aelodau unigol o'r staff, drwy friffiadau diogelwch neu drwy gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol.</p>	<p>Uwch-dîm Arwain</p>	<p>Parhaus</p>
--	---	---	------------------------	----------------

<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd yn sgil y themâu a'r sylwadau llai ffafriol yn ein harolwg staff.</p>	<p>Safon 6.3 Gwranddo ar Adborth a Dysgu Ohono</p>	<p>Mae'r uwch-dîm arwain yn croesawu unrhyw adborth ar gyfer gwella. Cydnabyddir bod gwelededd yn thema barhaus. Mae'r uwch-reolwyr yn rhoi blaenoriaeth i gerdded o amgylch yr uned bob dydd, rhoddwyd trefniadau ar waith i gerdded o amgylch yr uned â'r Pennaeth Bydwreigiaeth a rhoddwyd y fenter Lleisiau'r Staff ar waith, a gafodd groeso cynnes gan y staff. Mae digwyddiadau ymgysylltu wedi'u trefnu yn y dyfodol agos. Mae cyfleoedd ar gael i ddysgu o bynciau'r digwyddiadau ar gyfer y mis er mwyn i'r staff allu adnewyddu a diweddarau eu gwybodaeth. Mae llesiant staff yn eitem barhaus ar agenda wella'r BIP.</p> <p>Cafodd y tîm meddygon ymgynghorol ddiwrnod cwrdd i ffwrdd yn ddiweddar. Diben y diwrnod hwnnw oedd ystyried y trefniadau ar gyfer gweithio fel tîm a chyfeiriad gwasanaethau yn y</p>	<p>Uwch-dîm Arwain</p>	<p>Haf 2023</p>
--	--	--	------------------------	-----------------

		dyfodol. Mae diwrnodau cwrdd i ffwrdd yn y dyfodol yn cael eu trefnu er mwyn parhau â'r drafodaeth.		
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaethau lleddfu poen priodol eu rhoi mewn modd amserol	Safon 2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Mae rowndiau meddyginiaeth bwriadol yn dechrau cael eu cynnal yn yr ardaloedd derbyn cynenedigol ac ôl-enedigol. Yn ystod y rowndiau hyn, bydd yn ofynnol i'r bydwagedd wisgo tabard sy'n dangos eu bod wrthi'n cynnal rownd feddyginiaeth ac na ddylid tarfu arnynt. Bydd hyn yn sicrhau y caiff meddyginiaethau lleddfu poen priodol eu rhoi mewn modd amserol.</p> <p>Mae anesthetyddion obstetreg penodedig yn bresennol yn ardal yr ystafelloedd geni, nad ydynt yn gyfrifol am ardaloedd cyffredinol eraill yn yr ysbyty, er mwyn gallu rhoi meddyginiaeth epidwral/PCA yn brydlon. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu sticeri wedi'u hargraffu ymlaen llaw sy'n nodi'r opsiynau analgesia i'r ward ar gyfer</p>	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth ar gyfer gwasanaethau cleifion mewnol	Diwedd mis Mehefin 2023

		ysgogi'r cyfnod esgor er mwyn lleihau unrhyw oedi wrth ragnodi meddyginiaethau.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod system gadarn ar waith ar gyfer cael gafael ar gyfarpar meddygol hanfodol, ei fonitro a'i olrhain	Safon 2.9 Dyfeisiau, Cyfarpar a Systemau Diagnostig Meddygol	Bydd 'Cydgysylltydd Amgylcheddol' Band 3 a benodwyd yn ddiweddar yn goruchwyllo'r holl gyfarpar yn yr uned famolaeth. Bydd yn gyfrifol am drefniadau cynnal a chadw, adnewyddu ac archebu ar gyfer yr holl stoc a chyfarpar.	Arweinydd Gweithredol y cydgysylltydd amgylcheddol	Gorffennaf 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi system gadarn ar waith i gadarnhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar dymereddau storio oergelloedd a bod camau yn cael eu cymryd fel y bo angen	Safon 2.9 Dyfeisiau, Cyfarpar a Systemau Diagnostig Meddygol	Caiff tymereddau oergelloedd bellach eu cynnwys yn archwiliadau wythnosol Tendable, ac fe'u cynhelir ym mhob rhan o'r uned famolaeth.  Mae unrhyw gamau gweithredu a gaiff eu nodi o ganlyniad i'r archwiliadau ar gael i'r uwch-dîm rheoli bydwreigiaeth eu goruchwyllo. Caiff lluniau o'r taflenni gwirio eu cynnwys fel rhan o'r archwiliad.	Arweinydd gweithredol ar gyfer pob ardal a'r Uwch-reolwyr  Bydwreigiaeth	Wedi'i gwblhau

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal archwiliadau dogfennaeth rheolaidd a sicrhau y caiff y gwersi a ddysgwyd eu rhannu</p>	<p>Safon 3.5 Cadw Cofnodion</p>	<p>Mae'r tîm Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd yn cynnal archwiliadau dogfennaeth rheolaidd ac yn rhoi adborth i bob gradd staff drwy Brosiectau Canmol. Mae enghreifftiau sy'n dangos sut i gwblhau ffurflenni dogfennaeth i safon uchel ar gael yn yr ardal glinigol i unrhyw aelodau o staff sy'n ansicr. Mae'r bydwragedd dan hyfforddiant yn cwblhau modiwl archwilio fel rhan o'u cwricwlwm er mwyn paratoi ar gyfer cymhwyso.</p>	<p>Tîm Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd</p>	<p>Diwedd 2023</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd adolygu'r broses ar gyfer rhoi gwybod am bryderon a digwyddiadau critigol, ymchwilio iddynt, eu rheoli a chyfathrebu yn eu cylch</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal GIG Cymru (2015) - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Rhoddir gwybod am bob digwyddiad drwy system Datix. Caiff adolygiadau o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â diogelwch cleifion eu rhannu drwy gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch y Gyfarwyddiaeth. Caiff unrhyw gyfathrebu a'r gwersi i'w dysgu o ddigwyddiadau eu rhaedru drwy gylchlythyrau staff a phynciau'r mis, a chynhelir sesiynau galw heibio er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu ychwanegol.</p>	<p>Uwch-dîm Arwain</p>	<p>Parhaus</p>



		<p>Mae tudalen lywodraethu wrthi'n cael ei datblygu ar SharePoint i gadw'r gwersi a ddysgwyd yn y gorffennol ar ffurf archifau er mwyn gallu cael gafael arnynt yn hawdd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff. Mae gwaith cyfathrebu a gwella ansawdd yn mynd rhagddo drwy hyrwyddwr diogelwch MatNeo lleol.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau cyfraddau cydymffurfiaeth llawn â hyfforddiant diogelu gorfodol</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal GIG Cymru (2015) - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod bod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol wedi bod yn is na'r lefel ddisgwyliedig. Y targed cydymffurfiaeth cyffredinol yw 85% ar gyfer pob aelod o'r staff erbyn diwedd mis Mehefin 2023 (ac eithrio aelodau o'r staff sydd ar absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb salwch tymor hir). Cyflwynwyd wythnosau astudio hyfforddiant gorfodol er mwyn sicrhau y caiff y lefel gydymffurfiaeth hon (neu lefel uwch) ei chynnal yn y dyfodol.</p>	<p>Uwch-dîm Arwain</p>	<p>Parhaus</p>

<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff camau gweithredu a gwersi a ddysgwyd yn deillio o gyfarfodydd risg a llywodraethu eu rhannu â phob aelod o'r staff</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal GIG Cymru (2015) - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p>	<p>Caiff pob cyfarfod risg a llywodraethu ei gynnal gan ddefnyddio dull hybrid wyneb yn wyneb a thrwy Microsoft Teams. Cymerir cofnodion o bob cyfarfod, a chaiff y cofnodion eu rhannu â phob aelod o'r staff. Mae'r tîm llywodraethu wrthi'n creu tudalen llywodraethu ar SharePoint er mwyn cyhoeddi ei gylchlythyr misol i raeadru'r gwersi a ddysgwyd, y themâu ac i ddefnyddio achosion o ddiddordeb i ddangos enghreifftiau o ymarfer da, ac ymarfer lle y nodwyd cyfleoedd i ddysgu. Bydd swydd bydwraig arweiniol Llywodraethu Band 8a yn cael ei hysbysebu'n fuan.</p>	<p>Tîm Risg a Llywodraethu</p>	<p>Diwedd 2023</p>
--	--	--	--------------------------------	--------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Abi Holmes